



Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022-2023

Cynnwys

Cyflwyniad gan Gadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth	4	Datganiad o'r Budd Cyhoeddus	45
Cyngor Prifysgol Aberystwyth	6	Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	47
Cynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth	12	Grŵp Gweithredol y Brifysgol	49
Adolygiad yr Is-Ganghellor	14	Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau'r Cyngor	51
Adolygiad Strategol	16	Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor o ran y Datganiadau Ariannol Cyfun	57
Prifysgol Aberystwyth yn Dathlu'r 150	22	Ymgynghorwyr Proffesiynol	59
Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol a Chydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr	34	Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gyngor Prifysgol Aberystwyth	60
Cyd-adroddiad ar y Flwyddyn Ariannol gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllide	35	Datganiadau Ariannol a Nodiadau	64

Cyflwyniad gan Gadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth



A hithau'n gan mlynedd a hanner ers sefydlu Prifysgol Aberystwyth, roedd y flwyddyn academiaidd hon yn gyfle amserol inni gofio, unwaith eto, pam mae'r sefydliad hwn, yn y lle unigryw hwn, yn wir yn arbennig iawn.

Mewn cymaint o ffyrdd roedd y flwyddyn yn ficrocosm o'n hanes: yr ymchwil academiaidd sy'n cyson newid ein dealltwriaeth o'n byd; y dysgu arobryn sy'n paratoi ein myfyrwyr ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol; a hynny i gyd yn digwydd yn yr amgylchiadau hyfryd ar lannau gorllewin Cymru.

"Prifysgol y werin" y gelwid Aberystwyth pan agorwyd ein drysau am y tro cyntaf yn 1872 ac mae hynny'n wir hyd heddiw – mae ein dysgu a'n hymchwil wedi cael effaith ar fywydau bob dydd, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae gennym gyfeillion ar draws y byd ac mae gan ein cyn-fyfyrwyr atgofion annwyl iawn am eu hamser yn Aberystwyth.

Bu'n anrhydedd i mi wasanaethu fel Cadeirydd Cyngor y Brifysgol yn ystod y flwyddyn hanesyddol hon, gyda grŵp o aelodau rhyfeddol o ymroddedig ar y Cyngor, sy'n rhoi eu bryd ar gryfhau a meithrin enw da ein Prifysgol. Ein swyddogaeth ni yw sicrhau bod y Brifysgol

yn sefyll ar sylfeini cryf a'i bod yn gwneud penderfyniadau a fydd o fudd i'w myfyrwyr, ei staff, ei rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach. Mewn blwyddyn heriol, mae'r Cyngor yn ddiolchgar i'r Is-Ganghellor, y staff, y myfyrwyr a'r rhanddeiliaid am y gwaith gwych a'r brwdfrydedd amlwg sydd ganddynt i'r sefydliad.

Cynhaliodd y Cyngor bum cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn academiaidd 2022/23, gan gynnwys sesiwn strategaeth ddeuddydd, a pharhaodd yr is-bwyllgorau i gwrdd yn rheolaidd. Y llynedd fe wnaeth y Brifysgol ei gwaged gweithredol cyntaf, nad yw'n cynnwys y symudiadau yn y cynlluniau pensiwn, ers 2013/14. Gwaetha'r modd, yng nghanol un o'r cyfnodau economaidd mwyaf heriol ers bron i 50 mlynedd, mae'r flwyddyn hon wedi gweld y Brifysgol yn syrthio yn ôl i ddiffyg ariannol.

Ond yr hyn sy'n galonidid i mi a'm cyd-aelodau o'r Cyngor yw bod y Brifysgol yn dal i deithio i'r cyfeiriad cadarnhaol a welais yn fy chwe blynedd fel Cadeirydd y Cyngor. Croesawodd y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd, werth £1.7 miliwn, ei myfyrwyr cyntaf yn hydref 2022 ac fe fydd yn darparu cyfleoedd dwyieithog hanfodol, o ran addysg a gyrfaeodd, nad oeddent ar gael o'r blaen yn y Canolbarth. Bydd uned bwrpasol yn cael ei neilltuo i beirianeg, gan ddod â rhai o gyrsiau presennol y Brifysgol at ei gilydd ynghyd â rhai newydd i fodloni anghenion Cymru sy'n prysur newid ac, yn wir, byd sy'n newid.

Dyma fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd y Cyngor ac rwy'n teimlo ei bod hi'n bwysig edrych ar y canlyniadau ariannol yn eu crynswth ac edrych ar sut mae'r Brifysgol wedi newid ers 2018, pan gefais yr anrhydedd o gymryd yr awenau. Mae'r Brifysgol yn ariannol iachach nag oedd hi pan ddeuthum i'r Gadair ac mae ganddi adnoddau sy'n gweddu i lefel yr uchelgais sydd gennym i'n sefydliad. Rwy'n meddwl am AberArloesi, canolfan werth £43.5 miliwn ar gyfer ymchwil i fiotechnoleg, amaeth-dechnoleg, a bywd a diod; ein Hysgol Filfeddygol; Neuadd Pantycelyn wedi'i hailwampio; y fferm solar sy'n darparu ynni adnewyddadwy; y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd; a'r gwaith sydd erbyn hyn ar y gweill i adfer yr Hen Goleg, un o'r adeiladau anwylaf a mwyaf cyfarwydd yng Nghymru.

Mae'r Brifysgol wedi'i llywio drwy rai heriau digynsail, boed y pandemig COVID-19 neu'r amodau economaidd caled sy'n dal i bwysau arnom ni i gyd. Gwaith caled fy nghyd-Aelodau ar y Cyngor, yr Is-Ganghellor, a staff y Brifysgol sy'n gyfrifol am y ffaith ein bod ni wedi llwyddo i ddod drwy'r stormydd hyn. Mae'r rhuddin hwnnw, rhywbeth sy'n rhan o hanes y sefydliad hwn ers y cychwyn cyntaf, ynghyd â datblygiadau cadarnhaol y Brifysgol yn y blynyddoedd diweddar, yn destun balchder mawr ac yn rhoi hyder imi at y dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar i bob un o aelodau'r Cyngor sydd, o safbwynt statws y Brifysgol fel elusen, yn Ymddiriedolwyr i'r elusen hon, ac sy'n rhoi'n hael o'u hamser a'u sgiliau ar sail wirfoddol. Camodd Sharron Lusher MBE DL a Dr William Williams ill dau yn ôl o aelodaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn academiaidd, ac rwy'n ddiolchgar i'r ddau am y ddealltwriaeth unigryw a gyfranasant.

Fel Cyngor, rydym hefyd yn hynod ddiolchgar i'r Athro Elizabeth Treasure, a gyhoeddodd ym mis Mai y byddai hi'n ymddeol o'i swydd fel Is-Ganghellor.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi newid yn sylweddol yn ystod ei chyfnod a hynny oherwydd ei phenderfyniad, ei brwdfrydedd a'i hangerdd dros y Brifysgol a'r dref. Rwy'n siŵr y bydd pawb sydd wedi gweithio gyda hi yn gweld eisiau ei heglurder, ei ffocws, a'i hiwmor, yn ogystal â'i huchelgais ar gyfer y sefydliad gwych hwn. Rydym ni oll – yn staff, myfyrwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach – yn ddyledus iawn i Elizabeth a dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol.

Wrth i'm cyfnod fel Cadeirydd ddod i ben, rwy'n hyderus am y dyfodol, ac mae hynny'n deillio o gynnydd rhyfeddol y blynyddoedd diwethaf, o ymrwymiad ac ymroddiad parhaus staff y Brifysgol, ac o'r gwerthoedd y mae'r sefydliad hanesyddol hwn yn eu harddel mor daer. Dymunaf bob llwyddiant i Brifysgol Aberystwyth yn y 150 o flynyddoedd nesaf.

**Dr Emyr Roberts
Cadeirydd y Cyngor**



Cyngor Prifysgol Aberystwyth.

Yn unol â Siarter Frenhinol Ategol Prifysgol Aberystwyth, fel y'i diwygiwyd yn 2018, Cyngor y Brifysgol yw "corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol". Ef sy'n gyfrifol am "benderfynu ar gyfeiriad strategol y brifysgol ac am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, a materion eraill y brifysgol, yn unol â'i hamcanion".

I'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023, a'r cyfnod dilynol tan i'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, dyma, isod, oedd aelodau'r corff llywodraethu.

AELODAU ANNIBYNNOL

Y Cyngor sy'n gyfrifol am benodi'n ffurfiol y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac Aelodau Annibynnol eraill y corff llywodraethu.

Gofynnwyd i Bwyllgor Enwebiadau'r sefydliad arwain ar y prosesau penodi perthnasol gan y Cyngor ac ar wneud argymhellion addas ar gyfer penodiadau gan y corff llywodraethu.

Yn rhan o'r cyfrifoldeb hwnnw, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Enwebiadau sicrhau bod yr unigolion sy'n cael eu penodi yn addas o annibynnol (gweler isod).



Dr Emyr Roberts – Cadeirydd y Cyngor

Cyfnod y penodiad: 01 Awst 2015 – 31 Rhagfyr 2023
(Cadeirydd 01 Ionawr 2018 – 31 Rhagfyr 2023)

Emyr Roberts oedd y Prif Weithredwr cyntaf ar Gyfoeth Naturiol Cymru, gan arwain ar uno'r tri chorff blaenorol yn un sefydliad a chanddo gyfrifoldebau eang dros reoli adnoddau naturiol ac amgylchedd Cymru mewn modd cynaliadwy. Cyn hynny, bu'n uwch wasg sifil yn Llywodraeth Cymru, yn rheoli nifer o bortffolios; ei swyddi diwethaf yno oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol adran Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol, a Chyfarwyddwr Cyffredinol adran Addysg a Sgiliau.



Meri Huws – Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

Cyfnod y penodiad: 01 Mai 2019 – 30 Ebrill 2026
(Dirprwy Gadeirydd 01 Awst 2021 – 30 Ebrill 2026)

Tan fis Ebrill 2019, Meri Huws oedd Comisiynydd y Gymraeg, swydd a fu ganddi ers Ebrill 2012. Hi oedd Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o 2004 tan y diddymwyd y Bwrdd ym mis Mawrth 2012. A hithau wedi graddio o Brifysgol Aberystwyth yn y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, mae hi hefyd wedi bod yn Ddirprwy Is-Ganghellor ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant ac ym Mhrifysgol Bangor.

Kate Eden

Cyfnod y penodiad: 1 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2024

Cyfarwyddwr anweithredol yw Kate Eden, ac mae ganddi dros 15 mlynedd o brofiad ar lefel rheoli uwch, ym Mhrydain ac yn rhyngwladol. Cafodd ei geni a'i magu yn y gogledd, ac fe astudiodd y Gwyddorau Cymdeithasol a Gwleidyddol yng Ngholeg y Brenin, Caergrawnt. Yn y sector fferyllol yn bennaf y meithrinodd ei harbenigedd mewn materion cyhoeddus, polisi a chyfathrebu strategol. Mae hi hefyd wedi gweithio ar bolisi ynni a gwyddoniaeth.



Yr Athro Simon Green

Cyfnod y penodiad: 01 Medi 2021 – 31 Medi 2025

Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) ym Mhrifysgol Aston yw'r Athro Simon Green, ac yno mae'n gyfrifol am strategaeth y Brifysgol ar ymchwil sy'n creu effaith ac sy'n gydweithredol, rhagorol a chynaliadwy. Fe'i haddysgwyd ym mhrifysgolion Manceinion, Heidelberg a Birmingham. Yn 2011, fe'i hetholwyd yn Gymrawd i Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol. Ynghyd â'i weithgareddau academiaidd, mae'r Athro Green yn chwarae rhan weithredol wrth feithrin cysylltiadau rhwng Prydain a'r Almaen.



Sharron Lusher MBE DL

Cyfnod y penodiad: 01 Awst 2021 – 30 Mehefin 2023

Dechreuodd Sharron Lusher ei gyrfa gynnar gyda Marks & Spencer lle cyrhaeddodd swydd Rheolwr Logisteg Ewrop y cwmni cyn symud i'r sector addysg. Mae ganddi gyfanswm o 22 mlynedd o brofiad yng Ngholeg Sir Benfro, lle y bu'n Bennaeth am chwe blynedd tan iddi ymddeol yn 2018. Ym mis Mehefin 2002 daeth Sharron yn Gadeirydd y Bwrdd Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol.



Rhuanedd Richards

Cyfnod y penodiad: 1 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2024

Astudiodd Rhuanedd Richards ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd. Dechreuodd ei gyrfa gyda BBC Cymru fel newyddiadurwraig cyn mynd ymlaen i gyflwyno ar rai o'u prif raglenni newyddion a gwleidyddol. Gadawodd y BBC yn 2007 a gweithiodd fel cynghorydd arbennig i Lywodraeth Cymru, Prif Weithredwr Plaid Cymru, ac ymgynghorydd gwleidyddol i Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol. Yn 2018, dychwelodd Rhuanedd i'r BBC i gymryd yr awenau fel golygydd Radio Cymru a Cymru Fyw, cyn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr ar BBC Cymru yn 2021.



Arwel Thomas

Cyfnod y penodiad: 1 Awst 2022 – 31 Gorffennaf 2026

Ac yntau'n gyfrifydd cymwys, treuliodd Arwel ei yrfa gynnar yn gweithio i sefydliad Glo Prydain. Ar ôl iddo adael, ychydig cyn i'r corff hwnnw gael ei breifateiddio yn 1994, ymunodd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel archwilydd, gan ddod yn Uwch Reolwr Archwilio wedi hynny. Yn 2008, ymunodd Arwel â Llywodraeth Cymru fel Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd Risg. Ers ymddeol, mae wedi dal swyddi anweithredol yn Estyn, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Chomisiynydd Plant Cymru.





Mark Tweed

Cyfnod y penodiad: 01 Ionawr 2020 – 31 Rhagfyr 2026

Ar hyn o bryd mae Mark Tweed yn gweithio i Propel Finance, yn Brif Swyddog Ariannol, yn Gyfarwyddwr, ac yn Bennaeth ar Faterion Cyfreithiol y Grŵp. Cyn hynny, fe fu'n Ddirprwy Brif Swyddog Ariannol a Phennaeth Dros Dro ar faterion cyfreithiol i Opel Vauxhall Finance (OVF). Graddiodd mewn Cemeg Ddiwydiannol o Brifysgol Caerdydd ac mae hefyd yn aelod annibynnol o Fwrdd Cymdeithas Chwaraeon Cymru. Cyn dod yn aelod o Gyngor y Brifysgol, bu'n gwasanaethu fel aelod annibynnol ar y pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, a'r pwyllgor Buddsoddi.



Claire Vaughan

Cyfnod y penodiad: 1 Awst 2021 - 31 Gorffennaf 2026

Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn yr elusen cymorth cyntaf Ambiwlans Sant Ioan yw Claire. Ymunodd â'r elusen ym mis Ebrill 2022 ar ôl saith mlynedd fel Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yng Ngwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae ganddi dros 20 mlynedd o brofiad yn arwain a chyflwyno newid cynaliadwy i ddiwylliant a gwasanaethau yn y sectorau gwirfoddol, iechyd, addysg ac eraill ac mewn swyddi cenedlaethol. O dan eu harweiniad y mae llawer o'i thimau wedi cael llwyddiannau sydd wedi ennill gwobrau.



Dr William Williams

Cyfnod y penodiad: 1 Awst 2020 - 31 Gorffennaf 2023

Graddiodd William Williams o Brifysgol Aberystwyth ac mae'n Brif Swyddog Gweithredol yn Alacrity Foundation. Ymunodd â Rothschild yn 1990 a threuliodd bum mlynedd yn gweithio ym maes cyllid corfforaethol cyn dychwelyd i'r byd academiaidd. Roedd yn Ddeon yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol Sohar yn Oman yn 2013 ac yn Gyfarwyddwr Materion Academiaidd mewn prifysgol yn Abu Dhabi. Cyn ymuno ag Alacrity, roedd Williams yn Gyfarwyddwr yng Nghyngor Addysg Abu Dhabi lle y bu'n arwain yr Isadrn Gwella Ansawdd Addysg Uwch.



Nicola Wood

Cyfnod y penodiad: 1 Awst 2022 - 31 Awst 2023

Ar hyn o bryd Nicola yw'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ynghyd â'i gwaith i'r Swyddfa honno, mae hefyd yn: Ombwdsmon; aelod o'r Bwrdd Cyngori ar Ariannol ac Iechyd Meddwl; Mentor ar gyfer y Sefydliad Symudedd Cymdeithasol; ac mae ganddi hefyd olygyddiaeth ran-amser yng Ngholeg yr Iesu, Caergrawnt. Dechreuodd ei gyrfa yn y sector cyfreithiol ac mae wedi defnyddio'r profiad hwnnw ar bob un o'r amryw fyrdau y mae wedi gwasanaethu arnynt.

AELODAU ETHOLEDIG Y STAFF

Etholir dau aelod o blith Senedd y Brifysgol gan y Senedd, i fod yn aelodau academiaidd o'r Cyngor; y staff anacademaidd sy'n ethol yr aelod anacademaidd i'r Cyngor.

Dr Louise Marshall – Aelod o'r Senedd

Cyfnod y penodiad: 1 Awst 2020 - 31 Gorffennaf 2024

Mae Louise Marshall yn Ddarllenyydd yn Llenyddiaeth yr Adferiad a'r Ddeunawfed Ganrif ac yn Bennaeth ar Adran y Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys theatr, teuluoedd theatraidd, a sut mae hunaniaeth genedlaethol yn cael ei phortreadu.



Kylie Evans – Aelod o'r Staff Anacademaidd

Cyfnod y penodiad: 1 Chwefror 2022 – 31 Gorffennaf 2024

Ymunodd Kylie â'r Brifysgol yn 1994 ac mae wedi gweithio ar ddenu a derbyn myfyrwyr, a marchnata. Ar hyn o bryd mae'n Rheolwr Ysgoloriaethau yn adran Marchnata a Denu Myfyrwyr. Yn ddiweddar, mae hi wedi cofrestru ar gwrs PgCert mewn Gweinyddiaeth, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth Addysg Uwch, a gynhelir gan Gymdeithas Gweinyddwyr y Prifysgolion a Phrifysgol Nottingham Trent, ac mae'n aelod o bwyllgor Fforwm Gweinyddol Prifysgol Aberystwyth.



Professor Reyer Zwiggelaar – Aelod o'r Senedd

Cyfnod y penodiad: 1 Awst 2020 - 31 Gorffennaf 2024

Ganed Reyer Zwiggelaar yn yr Iseldiroedd ac fe symudodd i Brydain i astudio am Ddoethuriaeth yn UCL yn 1993. Ers hynny, mae'n canolbwyntio ar ymchwil a darpariaeth dysgu ôl-raddedigion. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar fiometrïgau a dadansoddi canser mewn delweddau meddygol, yn enwedig canser y fron a'r prostad. Ar y cychwyn roedd yn canolbwyntio ar uwchraddedigion ymchwil, ond yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth Ysgol y Graddedigion mae hefyd yn gyfrifol am yr uwchraddedigion a ddysgir drwy gyrsiau.



AELODAU O BLITH Y MYFYRWYR

Penodir dau aelod gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth i gynrychioli'r myfyrwyr ar y Cyngor.



Elain Gwynedd – Llywydd UMCA

Cyfnod y penodiad: 1 Gorffennaf 2023 - 30 Mehefin 2024

Elain yw llais diwylliant Cymru a myfyrwyr Cymraeg yn Aberystwyth. Mae ei swydd yn canolbwyntio ar hybu diwylliant Cymru, a rhoi'r cyfle i fyfyrwyr Aber ddysgu Cymraeg, a siarad a byw yn Gymraeg. Cyn hyn, roedd Elain yn fyfyrwraig israddedig yn astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Dafï Jones – Llywydd UMCA

Cyfnod y penodiad: 1 Gorffennaf 2022 - 30 Mehefin 2023

Yn hanu o Bontsiân yng Ngheredigion, cafodd Dafï ei magu ar y fferm deuluol yng nghanol cymuned cefn gwlad. Graddiodd mewn Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid o Brifysgol Aberystwyth, ac mae'n disgrifio hynny fel allwedd i ddatblygu sgiliau am weddill ei oes.



Bayanda Vundamina Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cyfnod y penodiad: 1 Gorffennaf 2023 - 30 Mehefin 2024

Bayanda yw Llywydd Undeb y Myfyrwyr, yn darparu llais ar rhan y myfyrwyr ac yn gweithio ar bolisiau sy'n bwysig i gorff a chymuned y myfyrwyr. Cyn hyn, roedd Bayanda yn fyfyrwr israddedig yn astudio Biocemeg ym Mhrifysgol Aberystwyth



Ash Sturrock Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cyfnod y penodiad: 1 Gorffennaf 2022 - 30 Mehefin 2023

Ash yw Llywydd Undeb y Myfyrwyr, yn darparu llais ar rhan y myfyrwyr ac yn gweithio ar bolisiau sy'n bwysig i gorff a chymuned y myfyrwyr. Cyn hynny, astudiodd am radd israddedig mewn Llenyddiaeth ac Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan fynd ymlaen i wneud gradd Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol wedyn.

AELODAU O WEITHREDIAETH Y BRIFYSGOL

Mae'r Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure, yn gwasanaethu ar y Cyngor mewn rhinwedd ex-officio, ynghyd ag un Dirprwy Is-Ganghellor a enwebir gan yr Is-Ganghellor, sef yr Athro Tim Woods. Gweler Grŵp Gweithredol y Brifysgol ar dudalen 49.

PRESENOLDEB

Yn ystod y cyfnod 01 Awst 2022 - 31 Gorffennaf 2023, cyfarfu'r Cyngor bum gwaith. Dyma ffigurau presenoldeb aelodau'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw:

Aelod	Presenoldeb
Dr Emyr Roberts - Cadeirydd	5/5
Meri Huws	5/5
Kate Eden	3/5
Yr Athro Simon Green	5/5
Sharron Lusher [tan 30 Mehefin 2023]	3/4
Rhuanedd Richards	4/5
Arwel Thomas	5/5
Mark Tweed	4/5
Claire Vaughan	5/5
Dr William Williams	4/5
Nicola Wood	5/5
Yr Athro Elizabeth Treasure	5/5
Yr Athro Tim Woods	5/5
Dr Louise Marshall	5/5
Yr Athro Reyer Zwiggelaar	5/5
Kylie Evans	3/5
Elain Gwynedd [o 1 Gorffennaf 2023]	1/1
Bayanda Vundamina [o 1 Gorffennaf 2023]	1/1
Ash Sturrock [tan 30 Mehefin 2023]	4/4
Dafï Jones [tan 30 Mehefin 2023]	3/4

ANNIBYNIAETH AELODAU'R CYNGOR

Disgwylir i bob aelod o'r Cyngor gynnig cyfraniad creadigol i'r corff llywodraethol trwy ddarparu goruchwyliaeth annibynnol, arweiniad strategol, ac adborth adeiladol i'r rheolwyr gweithredol.

Rhaid i aelodau'r Cyngor beidio â gadael iddynt hwy eu hunain gael eu 'cipio' na mynd dan ddylanwad gormodol buddiannau pobl eraill sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol, megis staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr, neu undebau llafur Mae angen i aelodau'r Cyngor allu herio'n effeithiol ac yn adeiladol, ac ni allant wneud

hynny os oes ganddynt fuddiant mewn mater sy'n cael ei drafod.

Mae'r Cyngor yn cynnwys ymhlith ei aelodau rai sydd yn aelodau o staff y Brifysgol neu'n gynrychiolwyr y myfyrwyr, ac mae'r egwyddorion uchod yr un mor berthnasol i'w cyfraniadau hwythau i'r corff llywodraethol. Serch hynny, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor fod yn

Aelodau Annibynnol. Mae'r aelodau hynny'n cael eu penodi i'r corff llywodraethol ond heb fod yn fyfyrwyr cofrestredig, swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr, nac yn aelodau o staff y Brifysgol.

Wrth ystyried ceisiadau ac wrth gyfnewid â darpar Aelodau Annibynnol newydd i'w penodi i'r Cyngor, mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n chwilio am dystiolaeth bod yr unigolion dan sylw:

- yn dangos anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth;
- yn gallu herio'n effeithiol ac yn adeiladol;
- yn gallu 'sefyll ar wahân' i ddylanwadau amhriodol ac yn rhydd rhag cael eu 'dal' gan ddylanwad y rheolwyr;
- yn rhydd rhag unrhyw fandad neu gyfyngiadau a fyddai'n eu hatal rhag cymryd y camau cywir; a
- heb fod yn berthyn i unrhyw weithwyr yn y Brifysgol a heb gyswllt ag unrhyw sefydliad sy'n cael budd ariannol gan y Brifysgol.

GWRTHDARO BUDDIANNAU

Gofynnir i holl aelodau'r Cyngor ddatgan yn ffurfiol unrhyw fuddiannau a fo ganddynt pan fyddant yn derbyn eu penodiad. Gofynnir hefyd i'r holl aelodau adolygu eu datganiadau bob blwyddyn.

Mae'r holl ddatganiadau o fuddiant gan aelodau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Mae crynodeb o Gofrestr Buddiannau'r unigolion hynny yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraethu'r Brifysgol.

Mae'n ofyniad i'r Aelodau Annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Cyngor ofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig Cadeirydd y Cyngor cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch neu waith datblygu busnes allanol newydd a allai fod yn berthnasol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i waith y Brifysgol.

Cynllun Strategol ac Amcanion Prifysgol Aberystwyth

Cenhadaeth Prifysgol Aberystwyth yw darparu addysg ac ymchwil sy'n ysbrydoli mewn amgylchedd cefnogol, creadigol, dwyieithog, ac eithriadol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw y byddwn ni, drwy adeiladu ar ein cryfderau hanesyddol a'n harbenigedd, yn cyfrannu at y gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach trwy gymhwyso ein gwybodaeth i heriau lleol a byd-eang. Gan weithio o fewn cymuned groesawgar, byddwn yn defnyddio ein harbenigedd i feithrin meddwl beirniadol, ymholi annibynnol, a galluoedd sy'n paratoi ein myfyrwyr am fywyd llwyddiannus.

EIN GWERTHOEDD

- **Trawsnewidiol:** Rydym yn ymdrechu i ddatgloi potensial unigolion drwy ddatblygu cryfderau personol parhaol a fydd yn eu galluogi i lwyddo yn y dyfodol. Mae ein staff a'n myfyrwyr yn ysbarduno newidiadau cadarnhaol trwy fynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang. Rydym yn annog dyfeisgarwch trwy syniadau a gweithrediadau newydd, mewn cyd-destun mentergar.
- **Creadigol ac Arloesol:** Rydym yn annog meddwl rhydd, beirniadol a llawn dychymyg drwy elwa ar ein diwylliant penodol Cymreig, a'n hanes, ein hamgylchedd a'n hadnoddau eithriadol. Rydym yn meithrin dyfeisgarwch y staff a'r myfyrwyr wrth ddatrys problemau ac addasu a thrwy fod yn hyblyg.
- **Cynhwysol:** Rydym yn hyrwyddo natur agored a haelioni ysbryd ac yn coleddu'r ymdeimlad cryf o gymuned sydd i'w deimlo ledled y brifysgol, tref Aberystwyth a'n byd ehangach. Gwrandawn ar safbwyntiau gonest ein gilydd, ac ymateb iddynt, gyda pharch. Ymfalchiwn yng nghyfoeth yr amrywiaeth o ddiwylliannau, safbwyntiau a chefnidiroedd sydd i'w cael ymlith ein staff a'n myfyrwyr.
- **Uchelgeisiol:** Rydym yn ymdrechu i wella ymhellach yr enw da sydd gennym ar draws y byd am ddarganfyddiadau, ansawdd yr addysg ac am arloesi. Rydym wedi ymrwmo i ragoriaeth mewn ymchwil, dysgu, a meithrin cysylltiadau. Dathlwn lwyddiannau a chyfraniadau ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr.
- **Cydweithredol:** Rydym yn meithrin a chynnal cysylltiadau allanol, gan gyfrannu at y ddadl gyhoeddus, at hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac i'r economi'n lleol ac yn ehangach. Rydym yn gweithio gyda'n myfyrwyr i sicrhau bod profiad y myfyriwr a'r amgylchedd dysgu yn cael eu gwella drwy'r amser. Rydym yn cyfleu gwaith a gwerth y brifysgol i'r byd ehangach.

EIN HAMCANION CRAIDD

- **Addysg a phrofiad y myfyrwyr:** Byddwn yn galluogi ein myfyrwyr i wireddu eu potensial eu hun fel dysgwyr annibynnol mewn cymuned ddwyieithog gefnogol, gynhwysol a chreadigol. Wrth raddio, bydd ein myfyrwyr yn feddylwyr beirniadol annibynnol a chanddynt sgiliau penodol a throsglwyddadwy.
- **Ymchwil ac Arloesi sy'n creu Effaith:** Byddwn yn cefnogi a datblygu ymchwilwyr er mwyn ymgymryd ag ymchwil sy'n creu effaith ac sydd o ansawdd sy'n arwain y byd, gan adeiladu ar sylfaen ein cryfderau hanesyddol er mwyn mynd i'r afael â heriau cyfoes sy'n wynebu Cymru a'r byd yn yr 21ain Ganrif.
- **Cyfraniad i'r Gymdeithas:** Ers y cychwyn, rydym bob amser yn gwneud cyfraniad allweddol i Gymru a'r tu hwnt, gan ddod â manteision i'n cymunedau a'r gymdeithas yn gyffredinol trwy effaith ein hymchwil, ein haddysg, a llwyddiannau ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr.
- **Meithrin Cysylltiadau Rhyngwladol:** Mae Aberystwyth yn brifysgol flaenllaw yng Nghymru ac mae ganddi enw rhagorol ledled y byd. Byddwn yn gyrchfan boblogaidd yn rhyngwladol i'r rhai sydd yn awyddus i astudio yma ac anogwn ein myfyrwyr i dreulio amser yn astudio dramor.
- **Ein Pobl:** Ein pobl yw ein hadnodd pennaf ac mae gweithlu medrus, iach a theyrngar yn hanfodol er mwyn cyflawni ein strategaeth. Rydym yn gwerthfawrogi ein academyddion, ein gweinyddwyr a'r holl staff sy'n cyfrannu at lwyddiant y Brifysgol hon. Rydym wedi ymrwmo i feithrin boddhad, cymhelliant ac ysbryd y staff, ac i greu gweithle sy'n cynnig cefnogaeth ac ysbrydoliaeth.
- **Llywodraethu:** Mae llywodraethu effeithiol, effeithlon ac atebol yn nodwedd o'r Brifysgol. Llywodraethir mewn ffordd foesegol a hyblyg sy'n galluogi, gan sicrhau ar yr un pryd fod yr holl ddyletswyddau cyfreithiol a statudol yn cael eu cyflawni.

Mae'r fersiwn lawn o Gynllun Strategol a Chenhadaeth Prifysgol Aberystwyth i'w cael yma.

Adolygiad yr Is-Ganghellor



Pan dderbynias yr anrhydedd o ddod yn Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth ar ddiwedd 2016, tynnais sylw at ychydig o heriau allweddol yr oeddwn yn benderfynol o ymateb yn gadarnhaol iddynt yn ystod fy nghyfnod i.

Roeddwn i'n awyddus i ailsefydlu momentwm ein Prifysgol fel canolfan i ymchwil o bwys byd-eang; un flaenoriaeth oedd mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng lefelau'r incwm a'r gwariant, er mwyn eu dychwelyd i gydbwysedd cynaliadwy; ac roeddwn i'n awyddus i adeiladu ar sylfaen pwysigrwydd strategol aruthrol y sefydliad hwn, i sicrhau bod Prifysgol Aberystwyth yn rhan o'r ateb i'r heriau sydd yma yn ein milltir sgwâr ein hunain. Mae'r blynyddoedd diweddar wedi gweld cynnydd sylweddol tuag at ddatrys yr heriau hyn, ac mewn rhai achosion rwy'n falch o ddweud y bydd 2022/23 yn cael ei gweld yn drobwynt allweddol.

Dangosodd pandemig COVID-19 yn glir iawn bwysigrwydd dysgu myfyrwyr a fydd yn gallu cyfrannu at ein gwasanaethau iechyd hanfodol. A ninnau'n ymateb yn uniongyrchol i'r her hon, cymerasom gam mawr ymlaen ym mis Medi wrth i ni groesawu ein carfan gyntaf erioed o fyfyrwyr nyrsio i'r Brifysgol. Bydd hyn yn rhoi hwb sylweddol wrth i ni hyfforddi gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a fydd yn gallu gwneud cymaint o wahaniaeth yma yng nghanolbarth Cymru ac ar draws y wlad. Roeddwn i wrth fy modd yn cael croesawu'r Gweinidog Iechyd Eluned Morgan AS i agor ein canolfan addysg arbenigol, werth £1.7 miliwn, lle mae ein myfyrwyr erbyn hyn yn astudio. Mae'n cynnwys y dechnoleg ddiweddaraf, yn amrywio o offer rhithwir i fannau efelychu o'r radd flaenaf.

Ond dim ond un agwedd ar sut mae'r Brifysgol yn ymateb i anghenion y gymdeithas yw'r ysgol nyrsio. Bydd Uned Peirianneg, sydd yn yr arfaeth, yn dwyn ynghyd y

gorau o'n cyrsiau perthnasol presennol, boed yn roboteg, peirianneg ofod neu eraill, ynghyd â darparu cyrsiau newydd blaengar. Hefyd, mae ein Hysgol Gwyddorau Milfeddygol wedi cyhoeddi cynlluniau newydd i gyflwyno cyrsiau nyrsio - darpariaeth allweddol arall eto a fydd yn darparu gwasanaeth da i un o brif ddiwydiannau Ceredigion a Chymru.

Mae'r esblygiad hwn yn hanfodol o ystyried y pwysau sy'n effeithio ar sector cyfan y prifysgolion. Fy rhybudd y llynedd bod Prydain yn wynebu rhai o'r amgylchiadau economaidd llymach ers y 1970au yn anffodus wedi cael ei wireddu. Bu'n rhaid i'r sector prifysgolion ymdrin â chostau gweithredu uwch oherwydd chwyddiant uchel, y cyfraddau llog uwch a'r costau ynni cynyddol. Oherwydd y pwysau hyn mae Prifysgol Aberystwyth yn cofnodi diffyg gweithredol. Ond roedd y sefyllfa economaidd yn cyflwyno heriau i ni fel unigolion yn ogystal â'r her i'r sefydliad. Gwnaethom ein gorau i'w lliniaru trwy gynnig prydau bwyd am brisiau gostyngedig i staff a myfyrwyr, cyflwyno'r codiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a'r cynnydd i'r cyflogau cyffredinol, yn gynt nag arfer, yn ogystal â chefnogaeth dryw hyfforddiant ariannol i staff. Roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n bwysig cynnig cymaint o gymorth â phosib i'n myfyrwyr a'n staff gwerthfawr.

Cyn yr heriau economaidd a ddaeth i'n rhan y llynedd, roedd Prifysgol Aberystwyth yn gwneud cynnydd cryf tuag at adfer ei hiechyd ariannol. Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gwnaethom gofnodi gwarged gweithredol - nad oedd yn cynnwys y symudiadau yn y cynlluniau pensiwn - y gwarged gweithredol cyntaf ers 2013/14. Serch hynny, mae maint aruthrol y cynnydd mewn costau sydd wedi gyrru chwyddiant yn ystod y flwyddyn hon wedi gosod heriau newydd a hynny ar lefel na fyddai modd inni eu rhagweld. Mae cynnydd ein costau trydan a nwy yn dangos maint y dasg o'n blaen - o safbwynt ailsefydlogi ein sefyllfa gyllidebol, ac o ran datgarboneiddio er mwyn symud tuag at gynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol. Mae'r sefyllfa ariannol eleni yn wirioneddol rwystredig ar ôl y cynnydd enfawr a wnaed dros y blynyddoedd diweddar. Serch hynny, mae'n deg dweud pe na fyddem wedi llwyddo i roi trefn ar bethau cyn y storm bresennol, y byddem erbyn hyn yn wynebu sefyllfa wirioneddol drychinebus.

Wedi dweud hynny, mae ein hincwm ymchwil cynyddol yn gysur i ni ac yn cadarnhau ein safle fel lle uchel ei fri drwy'r byd am ein dyfeisgarwch academaidd, a hynny ar draws ystod amrywiol o ddisgyblaethau. Aeth ein hymchwil â ni i'r gofod yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23, gan fod taith ofod JUICE i'r blaned Iau wedi cynnwys tariannau gwrth-ymbelydredd roeddem ni wedi cyfrannu at eu dylunio. Dim ond un o'n prosiectau ymchwil uchel eu proffil oedd hwn, a gall pob un ohonynt newid bywydau. Mae'r Brifysgol yn dal i ennill cyllid grant ar draws ystod o ddisgyblaethau, boed yn ymchwilio i'r hyn sy'n ysgogi cefnogaeth yng nghefn gwlad i fudiadau gwleidyddol tarfol neu waith ar gnydau gwydn.

Ac, fel ein darpariaeth dysgu, rydym yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Mae canolfan ryngddisgyblaethol newydd, y Ganolfan Drafnidiaeth a Symudedd (CeTraM), eisoes yn cydweithio â mwy na 100 o sefydliadau. Agorwyd ein Canolfan Ddeialog yn ystod y flwyddyn academaidd a bydd honno'n creu cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio. Bydd y rhain, ynghyd â'r Coleg Nyrsio, yr Ysgol Filfeddygol a'r Uned Beirianneg o fudd i ni i gyd a byddant hefyd yn denu mwy o fyfyrwyr i Brifysgol Aberystwyth yn ogystal â chreu mwy o incwm ymchwil. Fe wnaethom hefyd gymryd un cam yn nes at agor ein Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd a'r Ganolfan Genedlaethol Sbectrwm Cenedlaethol. Rwy'n obeithiol y bydd y penderfyniadau uchod - yr ysgolion newydd, y dulliau dysgu newydd, a llwybrau ymchwil arloesol - yn ein rhoi mewn sefyllfa dda yn y blynyddoedd i ddod.

Wedi dweud hynny, fe ddaeth nifer o brosiectau a ariannwyd gan Ewrop i ben yn y flwyddyn academaidd hon, ac nid yw'r cyllid sydd wedi dod yn lle'r arian hwnnw wedi llwyddo i lenwi'r bwlch hwnnw. Ynghyd â'm cyd-sefydliadau, byddwn yn dal ati i ddadlau'r achos dros sector ymchwil sydd wedi'i ariannu'n llawn, rhywbeth a fyddai o fudd i bob un ohonom yn y pen draw. Yn ystod y flwyddyn hon fe wnaethom ymuno â rhai o'n cyd-sefydliadau i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i gyllid ymchwil ôl-Frexit yng Nghymru.

Mae arloesedd ein dysgu yn dal i gael ei gydnabod gan leisiau awdurdodol yn y sector. Roeddwn wrth fy modd o weld bod Canllaw Prifysgolion Da The Times a The Sunday Times wedi'n henwi fel y Brifysgol orau yng Nghymru ar gyfer rhagoriaeth ein dysgu a boddhad y myfyrwyr. Ar draws y DU yn ehangach, fe ddaethom yn ail ar y cyd am brofiad y myfyrwyr ac yn drydydd am ansawdd y dysgu. Dyna gydnabyddiaeth y gallwn ymfalchïo ynddi ac sy'n adlewyrchiad o waith caled ein holl staff ar draws y Brifysgol. Mae niferoedd ein myfyrwyr yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ond mae denu mwy o fyfyrwyr yn dal i fod yn dalcen caled.

Y tu hwnt i'n dysgu a'n hymchwil, gwnaeth y flwyddyn academaidd hon roi cyfleoedd hefyd i ddangos ein pwysigrwydd fel sefydliad. Er gwaethaf yr heriau a wynebwn, rhoes y flwyddyn academaidd 2022/23 reswm i ni ddathlu hefyd. Roedd ein pen-blwydd yn 150 yn gyfle i ni bwysleisio ein cyfraniad i Gymru a'r tu hwnt drwy gyfres o ddiwyddiadau yng Nghymru, gweddill Prydain ac ymhellach i ffwrdd. Erbyn hyn rydym yn troi ein sylw at y cam nesaf o ddatllu ein hanes: sef dod â'r Hen Goleg yn ôl i'w ysblander a'i droi yn ganolfan bwysig ar gyfer dysgu, treftadaeth, diwylliant, a menter. Roeddwn wrth fy modd o weld gwaith adfer yr adeilad yn dechrau ym mis Mehefin.

Ym mis Awst gwelwyd yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf yng Ngheredigion ers 1992. Roedd hi'n fan cychwyn perffaith ar gyfer rhaglen ein pen-blwydd yn 150, ac

roeddem ni wrth galon y dathliadau. Mae ein hunaniaeth Gymreig wrth wraidd Prifysgol Aberystwyth ac roedd ein balchder yn yr iaith a'r diwylliant i'w weld yn glir ar y Maes ac yn ein dysgu a'n hymchwil.

Wrth gwrs, nid ein pen-blwydd yn 150 oed oedd yr unig garreg filltir allweddol eleni. Dathlodd Canolfan y Celfyddydau 50 mlynedd fel hafan greadigol i bawb. Cynhaliwyd dros 1,000 o ddiwyddiadau, 7,000 o sesiynau cyfranogol, 25 arddangosfa, a 700 o ddangosiadau ffilm yn ystod y flwyddyn. Mae'r celfyddydau'n sefyll ochr yn ochr â chwaraeon fel dulliau hollbwysig o feithrin cysylltiadau. Fe wnaethom hefyd barhau â'n cysylltiadau hen sefydlog â Chlwb Pêl-droed Tref Aberystwyth, Clwb Rygbi Aberystwyth, a Chlwb Rygbi'r Scarlets.

Cyfrifoldeb prifysgol yw edrych y tu hwnt i'w hamgylchiadau agos ac nid ydym ni'n eithriad yn hynny o beth, ac rydym wedi meithrin cysylltiadau ledled y byd, gan helpu ein myfyrwyr i astudio a gweithio dramor, ac yn croesawu myfyrwyr rhyngwladol i Aberystwyth. Er na lwyddwyd i gyrraedd y targedau, fe gafwyd y nifer uchaf erioed o geisiadau rhyngwladol ar gyfer dechrau yn 2022, ac mae gennym raglenni cyfnewid ar waith ar gyfer staff a myfyrwyr mewn 22 o wledydd. Wedi dweud hynny, mae denu myfyrwyr rhyngwladol yn dal i fod yn heriol. Rydym yn byw yn yr oes ôl-Frexit ond mae'n hanfodol ein bod yn cynnal cysylltiadau cynnes ac agos â'n cymdogion.

Maes arall lle mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae yw'r frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd ac mae gwaith yn parhau i gyrraedd ein targed o fod mewn sefyllfa o allyriadau sero net o bob ffynhonnell o fewn rheolaeth y Brifysgol erbyn 2030. Yn edrych y tu hwnt i'r tymor byr, roedd agor ein safle paneli solar, gwerth £3 miliwn, a fydd yn darparu mwy na 25% o anghenion trydan campws Penglais bob blwyddyn, yn gam mawr ymlaen ar y daith hon.

Dyma adolygiad chwerwfelys i mi, gan mai hwn yw'r olaf i mi fel Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth. Ers i mi ymuno chwe blynedd yn ôl, rwy'n falch o ddweud fy mod wedi llwyddo i wella iechyd ariannol y Brifysgol, i gyflwyno cyrsiau newydd, i weld Neuadd Pantycelyn yn cael eu hadfer i'w gogoniant gynt a gwaith yn dechrau ar yr Hen Goleg. Mae'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg yn arw, ond rwy'n teimlo fy mod yn gadael sylfaen gadarn i'm holnydd ac edrychaf edrych ymlaen at weld y llwybr y bydd ef yn ei gymryd. Yn ystod fy nghyfnod fel Is-Ganghellor, rwyf wedi syrthio mewn cariad â'r sefydliad, ei staff a chymuned y dref. Bydd gennyf hiraeth amdanynt.

**Yr Athro Elizabeth Treasure,
Is-Ganghellor**

1 | Addysg a phrofiad y myfyrwyr

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymfalchïo yn yr enw da sydd ganddi am ansawdd y dysgu a'r profiad rhagorol a roddir i'r myfyrwyr. Mae ein staff yn gweithio'n ddiplino i sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael yr addysg a'r profiad gorau posib.

Pery'r enw da hwn i gael ei gydnabod gan y rhai sy'n meincodi'r sector. Prifysgol Aberystwyth yw'r Brifysgol orau yng Nghymru am ragoriaeth y dysgu a bodddhad myfyrwyr, yn ôl Good University Guide 2023 The Times a The Sunday Times. Ar draws y Deyrnas Unedig yn ehangach, daethom yn gydradd ail am brofiad myfyrwyr ac yn drydydd am ansawdd y dysgu.

Roedd y Brifysgol ymysg traean uchaf prifysgolion y Deyrnas Unedig a oedd wedi'u cynnwys yn y canllaw. Cafodd prifysgolion ledled y Deyrnas Unedig eu sgorio yn ôl pa mor fodlon yw'r myfyrwyr ag ansawdd y dysgu, profiad ehangach y myfyrwyr, ansawdd yr ymchwil, cymarebau staff/myfyrwyr, cyfraddau cwblhau graddau a rhagolygon graddedigion. Serch hynny, mae denu myfyrwyr wedi mynd yn gystadleuol iawn ar draws sector addysg uwch ym Mhrydain ac fel ein cyd-sefydliadau, roeddem hefyd yn wynebu her yng ngoleuni'r ffaith mai eleni y cafwyd y nifer lleiaf o bobl ifanc 18 oed yn cymryd lleoedd mewn prifysgolion ers pum mlynedd. Er bod niferoedd y myfyrwyr wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn academaidd, roeddent yn is na'n targedau.

Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn falch o ddyfnder ac amrywiaeth ei haddysg. Enillodd un o fodiwlau'r Adran Dysgu Gydol Oes, ar Wyddoniaeth Lles, Wobr Cwrs Rhagorol blwyddyn academaidd 22/23 am arloesedd y dysgu, ac fe roddwyd canmoliaeth uchel hefyd i adrannau Seicoleg, y Gyfraith a Throseddeg, Addysg, ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Serch hynny, rydym yn ymdrechu i wella drwy gyflwyno cyrsiau newydd a gwella'r cyfleoedd addysgu a dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd.

Ym mis Medi, roeddem yn falch iawn o gael croesawu'r garfan gyntaf erioed o fyfyrwyr nyrsio

i'n canolfan addysg arbenigol, werth £1.7 miliwn, a agorwyd gan y Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan AS. Mae'r ganolfan yn cynnwys technoleg flaenllaw, yn amrywio o fannau efelychu i realiti rhithwir, a bydd yn rhoi hwb i ddenu staff newydd i'r GIG ac i'w hyfforddi, yn enwedig yma yn y Canolbarth.

Ym mis Chwefror, cyhoeddassom Uned Beirianeg newydd a fydd yn datblygu'r rhannau gorau o'n haddysg bresennol, gan gynnwys meddalwedd, roboteg a pheirianeg y gofod, ac yn eu cyfuno â chysiau newydd arloesol. Cyhoeddwyd hefyd gynlluniau i ehangu ein Hysgol Gwyddor Filfeddygol a agorwyd yn ddiweddar i gynnwys cyrsiau nyrsio milfeddygol ac fe benodwyd Athro Economeg Iechyd newydd i Ysgol Fusnes Aberystwyth.

Mae academyddion Prifysgol Aberystwyth yn parhau i gael eu cydnabod yn allanol am eu rhan flaenllaw yn y sector addysg uwch. Yr Athro Jamie Medhurst, Pennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, yw'r uwch academydd diweddaraf i gael gwahoddiad i ymuno â bwrdd ymgynghorol yn yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, y corff sy'n gyfrifol am gynnal safonau uchel yng nghysiau addysg uwch y Deyrnas Unedig.

Wrth gwrs, mae iechyd meddwl a chorfforol myfyrwyr yn hollbwysig ar gyfer eu haddysg. Mae ein Gwasanaethau Lles yn cynnig cymorth unigol, sgyrsiau wyneb yn wyneb, adnoddau ar-lein a chefnogaeth i'r rhai sydd â diagnosis o gyflwr iechyd meddwl. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau statudol i sicrhau bod y lefel briodol o ofal yn cael ei darparu lle bo angen.

Rydym wedi sefydlu Gwasanaeth Gwrth-Aflonyddu a Thrais newydd, sy'n cynnwys tîm o Swyddogion Cyswllt Trais Rhywiol penodedig. Mae adnodd newydd Adrodd + Chymorth yn helpu myfyrwyr sydd wedi cael profiad o aflonyddu rhywiol neu drais. Mae myfyrwyr hefyd yn parhau i gael eu cefnogi trwy Hwb Aber ar-lein a'n porth, Dy Lais ar Waith.

Gyda chymorth cyllid gan CCAUC, buddsoddodd y Brifysgol mewn cymorth i fyfyrwyr yn ystod cyfnod pan oedd arian yn dynn. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd mewn cronfeydd caledi myfyrwyr, talebau siopa, prydau bwyd rhad a deunydd misglwyf am ddim.

Mae ein hadran Gwasanaethau Myfyrwyr hefyd yn gweithio gyda Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod



Arddangosiad yn ystod digwyddiad i agor y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd, werth £1.7 miliwn

Plentyndod Cymru, corff sy'n rhan o uchelgais Llywodraeth Cymru i fod y genedl gyntaf sy'n ystyriol o drawma.

Gweithiodd y Brifysgol yn ddyfal i leihau effaith gweithredu diwydiannol y sector Addysg Uwch gyfan ar y staff a'r myfyrwyr. Cynhaliwyd seremonïau graddio blynyddol yn ôl yr arfer eleni. Graddiodd yr holl fyfyrwyr oedd yn gymwys i raddio gyda gradd ddoisbarthedig.

Mae paratoi myfyrwyr ar gyfer eu dyfodol ar ôl graddio yn hanfodol. Er mwyn gwneud hynny, rydym wedi datblygu perthynas gyda mwy na 1,000 o gyflogwyr, gan gynnwys cyflogwyr ein campws ymchwil ArloesiAber, Cyngor Sir Ceredigion a PwC, ac wedi cynnal dros 120 o ddigwyddiadau cyflogwyr dros y flwyddyn ddiwethaf. Croesawyd dros 60 o gyflogwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol oedd yn recriwtio ar draws pob maes i'n Ffair Yrfaedd Flynyddol. Cynhaliwyd dros 400 o weithgareddau i gefnogi graddedigion a myfyrwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol neu grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Parhaodd Gwasanaeth Gyrfaedd y Brifysgol i fod yn boblogaidd, gyda mwy o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i unigolion.

Cynhaliwyd yr 11eg Gynhadledd Dysgu ac Addysgu Flynyddol ym mis Gorffennaf, lle rhoddwyd sylw

i effaith Deallusrwydd Artificial a'r defnydd o Blackboard Ultra, sef rhith-amgylchedd dysgu newydd y Brifysgol. Meysydd eraill a gafodd eu hystyried oedd realiti rhithwir a chynaliadwyedd mewn addysg uwch. Roedd y Brifysgol yn falch o gael ei hailachredu gan AdvanceHE ac o gael cyflwyno'r system rheoli llety newydd, StarRez. Bydd y system yn caniatáu i fyfyrwyr ddewis ystafelloedd yn ogystal â chysylltu â'i gilydd cyn cyrraedd Aberystwyth. Ymhlith y gwaith technolegol arall o bwys, fe ailwampwyd seilwaith y rhwydwaith diwifr ac fe gynhaliwyd gwaith uwchraddio sylweddol ar gyfrifiaduron y labordai myfyrwyr a'r ystafelloedd dysgu.

2 | Ymchwil ac arloesi sy'n creu effaith

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae ymchwilwyr Prifysgol Aberystwyth wedi parhau i adeiladu ar ein cryfderau hanesyddol wrth fynd i'r afael â'r heriau cyfoes sy'n wynebu Cymru a'r byd yn yr 21ain ganrif. Rydym wedi gweithio ar brosiectau sy'n amrywio mor eang â chydweithio ar ddylunio tariannau rhag ymbelydredd ar gyfer taith ofod JUICE sydd ar ei ffordd i'r blaned lau ar hyn o bryd, ailintegreiddio cyn-ymhladdwyr Colombia i'r gymdeithas ar ôl cytundeb heddwch 2016, ac edrych ar sut y gellir defnyddio proteinau amgen fel bwydydd.

Mae ein hymchwil wedi arwain at arloesi mewn diwydiant, y gymdeithas sifil a pholisi cyhoeddus, gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae enghreifftiau o'r flwyddyn academaidd yn cynnwys un academydd yn cael ei benodi fel cynghorydd arbenigol i Bwyllgor Dethol Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin, i gynorthwyo'r ymchwiliad i'r fasnach mewn pobl; archwilio technolegau ar gyfer byw â chymorth drwy adeiladu cartref clyfar ar Gampws Penglais; ac agor Canolfan ryngddisgyblaethol newydd ar gyfer Symudedd a Thrafnidiaeth sy'n gweithio gyda mwy na 100 o sefydliadau.

Adlewyrchir ein cryfderau o hyd yn y cynnydd mewn incwm ymchwil ac mewn ceisiadau llwyddiannus am grantiau ymchwil. Mae'r llwyddiannau'n cynnwys bron i £10 miliwn o grant gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) i IBERS am ei waith ar gnydau gwydn. Mae hyn yn cynnwys ymchwil ar leihau effaith da byw ar yr amgylchedd a datblygu offer i gyflymu'r broses o fridio planhigion. Mae'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear hefyd wedi derbyn €2.5 miliwn ar gyfer ymchwil

i'r hyn sy'n ysgogi cefnogaeth yng nghefn gwlad i wleidyddiaeth aflonyddgar.

Ymhlith y ceisiadau llwyddiannus eraill am grantiau mae cyllid ar gyfer gwaith sy'n archwilio sut y gellir integreiddio natur i'r broses o wneud penderfyniadau, ac ymchwil i greu manau mwy diogel er mwyn cefnogi gwaith sefydliadol, cymunedol ac ar-lein gyda phobl yng Nghymru.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen gyntaf o gyllid tair blynedd drwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru rydym bellach yn gallu darparu cryn dipyn yn fwy o gefnogaeth i waith arloesol a chyfnewid gwybodaeth. Mae dros 40 o brosiectau wedi cael eu hariannu, pob un â buddion pendant i'r gymdeithas, yn ogystal â chynnydd yn ein gallu i gefnogi ymchwilwyr sy'n ymwneud â chyfnewid gwybodaeth. Mae'r Ganolfan Ddeialog yn allweddol i'r prosiectau hyn. Yno y creir cyfleoedd arloesol i gyfnewid gwybodaeth ar y cyd. Agorwyd y Ganolfan, sydd wedi'i sefydlu ar Gampws Penglais, yn swyddogol ym mis Tachwedd 2022 gyda thrafodaeth â chyn Archesgob Cymru a Chaergaint, y Dr Rowan Williams.

Fodd bynnag, roedd nifer o brosiectau a ariannwyd gan Ewrop yn dod i ben eleni ac nid yw'r cyllid newydd yn cyfateb i'r lefel a ddarparwyd gynt i waith ymchwil ac arloesi. O ganlyniad, darparodd y Brifysgol dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i gyllid ymchwil yng Nghymru ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Brifysgol yn parhau i weithio i ddatblygu adnoddau i gynorthwyo academyddion yn eu hymchwil, gan anelu at dwf yn ein heffaith economaidd ar yr un pryd. Rydym wedi cael gwahoddiad i symud i'r cam Achos Busnes Amlinellol ar gyfer dau brosiect mawr fel rhan o Fargen Dwf Canolbarth Cymru - y Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd a'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol.

Mae'r galw am ddeorfa fusnesau ar gampws ArloesiAber wedi bod gymaint yn uwch na'r cyflenwad nes bod lle ychwanegol ar gyfer ymchwil wedi'i agor yn Adeilad yr Arglwydd Milford gerllaw. Mae'r galw hwn, ynghyd â'r angen am le addas ar gyfer tenantiaid y mae eu mentrau'n tyfu, yn golygu bod angen mwy o le arnynt, sy'n cadarnhau



'Cymru Cenedl Noddfa' oedd un o'r nifer o ddigwyddiadau yn arddangos ymchwil y Brifysgol yn y Senedd.

pwysigrwydd y Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd. Mae gwaith yn y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol wedi cynnwys cynnal archwiliad a dadansoddiad ar y cyfleusterau yng Nghymru yn rhan o fframwaith Serapis Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno cynllun cyfnod absenoldeb ymchwil newydd i gefnogi gwaith sydd â photensial eithriadol, ac sy'n rhedeg ochr yn ochr â'n rhaglen bresennol. Bydd pedwar ar ddeg o staff academaidd ac un tîm ymchwil yn manteisio ar gyfnod o absenoldeb a ariennir yn ystod semester cyntaf y flwyddyn academaidd 23/24. Fel rhan o ddatliadau'r 150, lansiodd y Brifysgol gynllun cymrodoriaeth ymchwil hefyd. Bydd cynifer â phum cymrawd yn cael eu penodi mewn meysydd o gryfder, neu feysydd sy'n datblygu, am hyd at dair blynedd o absenoldeb ymchwil.

Aethom â'n hymchwil ar daith eleni gyda chyfres o ddigwyddiadau i arddangos ein gwaith yn y Senedd fel rhan o'n dathliadau canrif a hanner. Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar ein gwaith i ddatblygu cyflenwadau bwyd cynaliadwy at y dyfodol; yr ail ar ddatblygiadau deallusrwydd artiffisial, gyda Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS; a'r trydydd yn edrych ar Gymru fel cenedl noddfa. Yn sgil adborth cadarnhaol gan randdeiliaid, rydym yn ystyried digwyddiadau yn y dyfodol er mwyn arddangos y gwaith a wneir ym Mhrifysgol Aberystwyth a sut mae'n mynd i'r afael â heriau cenedlaethol a byd-eang. Ym mis Tachwedd, roeddem yn falch iawn o gynnal ein hail

Ŵyl Ymchwil, fel rhan o'n digwyddiadau i ddathlu 150 o flynyddoedd. Traddododd yr Athro Olivette Otele, yr arbenigwr byd-enwog ar gaethwasiaeth, ddarlith gyhoeddus a chafodd gwahanol agweddau ar ddyfodol Cymru eu trafod gan amrywiol baneli.

Roeddem hefyd yn falch o groesawu nifer o ymwelwyr uchel eu proffil i ddangos rhywfaint o'r gwaith sydd ar y gweill ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cafodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David TC Davies AS weld sawl prosiect ymchwil ac arloesi gan gynnwys systemau optegol ar gyfer crwydryn ExoMars, technoleg ddelweddu a ddefnyddir ym mhrosiect Dewis/Choice, ac ystod o gerbydau awtonomaidd a ddatblygwyd yn y Brifysgol.

Mewn digwyddiadau eraill, rhoddodd Vaughan Gething AS, Gweinidog Economi Cymru, anechiad sesiwn lawn mewn digwyddiad i ddathlu cwblhau'r gefnogaeth i ArloesiAber drwy Gyllid Ewropeaidd Cymru. Ymwelodd Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, â labor dai IBERS ar gampws Gogerddan ac agor ein Canolfan Symudedd a Thrafnidiaeth. Cafwyd hefyd ymweliad gan y Fonesig Melanie Welham, Prif Weithredwr BBSRC, ag ArloesiAber ac IBERS, ac arweiniodd yr Athro Jas Pal Badyal, Prif Gyngorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru, ddirprwyaeth o Lywodraeth Cymru i drafod ein hymchwil ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg, sydd o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol.

3 | Cyfraniad at y gymdeithas a chynaliadwyedd

Rhoddodd dathliadau 150 Prifysgol Aberystwyth gyfle i ni bwysleisio ein cysylltiadau cynnes â'r dref, â Chymru ac â'r byd ehangach. Rhan hanfodol o'n hethos yw ein bod o fudd i'r gymdeithas drwy effaith ein hymchwil, ein haddysg a thrwy gyflawniadau ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr.

Roedd ein dathliadau blynyddol ar gyfer Diwrnod y Sylfaenwyr yn hynod arbennig eleni gyda staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr a chyfeillion yn ymgynnull i "gicio'r bar" ar lan y môr yn y dref, cyn cael brechwast traddodiadol tebyg i'r un a fwyhaodd ein sylfaenwyr yng Ngwesty'r Belle Vue ar 15 Hydref 1872. Roedd yn cyd-fynd â lansiad 'Ceiniogau'r Werin/The Pennies of the People', ein cyfrol yn dathlu 150 o flynyddoedd, sy'n gasgliad o straeon a phobl o'r gorffennol a'r presennol ac yn adrodd ein hanes trwy 150 o wrthrychau. Roedd y digwyddiadau eraill yn cynnwys croesawu cyn-fyfyrwyr, staff, myfyrwyr a gwesteion i ddigwyddiadau Sylfaenwyr yn Llundain ac yng Nghaerdydd, lle croesawyd y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru. Ym mis Mehefin, croesawyd dros 250 o gyn-fyfyrwyr yn ôl i Aberystwyth ar gyfer penwythnos aduniad yn cynnwys sgysiau, gweithgareddau a derbyniadau, yn ogystal ag ymweliadau â Phantycelyn, safle'r Hen Goleg, y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd a'r Ganolfan Addysg Milfeddygaeth.

Yn yr un mis cychwynwyd ar y gwaith adfer ym mhrosiect yr Hen Goleg ar ôl cwblhau'r gwaith i gael gwared ar ychwanegiadau mewnol a wnaed i'r adeilad yn y 1960au. Cafodd yr hen Adeilad Ystadau ar Stryd y Brenin hefyd ei dymchwel i wneud lle ar gyfer atriwm newydd. Bydd y gwaith cerrig, rhannau o'r to sydd wedi'u difrodi gan stormydd a 664 o ffenestri pren a metel yn cael bywyd newydd yng ngham nesaf y prosiect.

Ar ôl ei gwblhau, bydd yr Hen Goleg yn ganolfan bwysig ar gyfer dysgu, treftadaeth, diwylliant a menter. Wedi'i ysbrydoli gan arwyddair y Brifysgol, bydd Byd o Wybodaeth yn cynnwys canolfan sy'n dathlu Gwyddoniaeth ac Ymchwil arloesol,

Amgueddfa'r Brifysgol, prosiect Pobl Ifanc i roi cyfleoedd i hybu sgiliau, uchelgais a lles, canolfan astudio 24/7 i fyfyrwyr, a sinema yn cynnwys y dechnoleg ddiweddaraf.

Yn ogystal â'n gweithgareddau addysgol helaeth, mae'r celfyddydau a chwaraeon yn dal i fod yn elfennau allweddol o'n cyswllt â'r cymunedau lleol a rhanbarthol. Dathlodd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ei hanner canmlwyddiant, gan gynnig blwyddyn arall o theatr, sinema ac arddangosfeydd gwych. Cynhaliwyd dros 1,000 o ddigwyddiadau, 7,000 o sesiynau cyfranogol, 25 o arddangosfeydd a dangoswyd 700 o ffilmiau yn ystod y flwyddyn, gan gyflawni ein nod o fod yn gartref creadigol i bawb. Mae hyn yn cydblethu'n effeithiol â gweithgarwch mwy academaidd, ac yn eu cyfoethogi, gan gynnwys y graddio, diwrnodau agored, sgysiau, seminarau, cynadleddau, derbyniadau, a digwyddiadau i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.

Parhawyd â'n partneriaethau hensefydlog fel noddwr Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth, sy'n cystadlu ar y lefel ddomestig uchaf yng Nghymru, yn ogystal â Chlwb Rygbi Aberystwyth. Fel rhan o'i chyfraniad ehangach i'r gymuned, mae'r Brifysgol yn noddw gweithgareddau chwaraeon yr Urdd ac mae ymhlith cefnogwyr pennaf Eisteddfod yr Urdd.

Parhaodd Prifysgol Aberystwyth hefyd â'i chysylltiadau hirsefydlog eraill fel noddwr cymunedol Clwb Rygbi'r Scarlets a bu'n un o brif gefnogwr Gŵyl Gomeddi Aberystwyth. Mae'r Brifysgol yn parhau i noddw Maes B yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a chynaliasom weithgareddau estyn allan a meithrin cysylltiadau yn y Sioe Frenhinol.

Mewn meysydd eraill, mae'r Brifysgol yn parhau i gyfrannu i'r gymuned leol a'r rhanbarth ehangach, gan weithio'n agos gyda Chyngor Tref Aberystwyth, Menter Aberystwyth, Clwb Busnes Aberystwyth, Fforwm Cymunedol Penparcau ac amrywiaeth o sefydliadau eraill. Rydym yn rhan weithredol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ac yn helpu i gyflawni Cynllun Llesiant Lleol y sir, ar sail Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn fforymau rhanbarthol sydd â'r nod o hybu'r economi, gan gynnwys Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, a Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru. Mae'r gweithgareddau hyn yn tanlinellu ymrwymiad y Brifysgol i feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

CYFRANIAD AMGYLCHEDDOL

Mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i amddiffyn ein planed ac rydym yn parhau i weithio tuag at ein targed o allyriadau sero net erbyn 2030. Bydd y targedau'n ymwneud â phob un o'r ffynonellau sydd o fewn rheolaeth y Brifysgol, megis: defnyddio ynni mewn adeiladu, gwastraff, dŵr, teithio ar gyfer busnes, ac allyriadau amaethyddol.

Yn ystod y flwyddyn academaidd rydym wedi cyflawni gwerth dros £3.5 miliwn o waith ar effeithlonrwydd ynni ar draws ein hystad, gan gynnwys gosod goleuadau sy'n defnyddio ynni yn fwy effeithlon a gwell systemau ar gyfer rheoli ein hadeiladau. Ym mis Chwefror, cwblhawyd y gwaith

ar ein cae paneli solar gwerth £3 miliwn. Bydd dros 4,500 o baneli yn darparu 25% o anghenion trydan blynyddol campws Penglais ac yn golygu 500 tonnelli yn llai o allyriadau carbon bob blwyddyn.

Ym mis Mai, cwblhawyd cam cyntaf ein gwaith plannu coed ar ôl plannu 20,000 o goed ar dir o ansawdd isel a thir a danddefnyddir. Ein targed yw plannu 120,000 o goed erbyn dechrau 2024. Pan fyddant yn aeddfed, bydd y coed yn golygu tua 150 tonnelli o ostyngiad yn ein hallyriadau carbon blynyddol.

Cyhoeddwyd strategaeth sero net y Brifysgol yng nghanol mis Gorffennaf ac mae'n rhoi amlinelliad o'n targedau a'n blaenoriaethau o ran camau gweithredu i ddatgarboneiddio'n gweithrediadau. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu bob blwyddyn a'i diweddarau bob dwy flynedd. Mae achosion busnes hefyd yn cael eu datblygu ar gyfer rownd ychwanegol o waith effeithlonrwydd ynni, cynllun ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr, a phrosiect datgarboneiddio gwres ar raddfa fawr.

Mae strategaeth sero net 2030 ar gael i'w darllen yn llawn yma.



PRIFYSGOL ABERYSTWYTH YN DATHLU'R 150

Ganrif a hanner ers i Brifysgol Aberystwyth agor ei drysau am y tro cyntaf, roedd yn bleser cael dathlu ein pen-blwydd gyda chyfeillion hen a newydd mewn digwyddiadau dros y byd.



Myfyrwyr o Brifysgol Alabama Birmingham (UAB) yn perfformio yn y Bandstand yn Aberystwyth.



Rhai o'r eitemau o'n hanes hyglod.



Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, Canghellor Prifysgol Aberystwyth, yn croesawu cyn-fyfyrwyr i'r swper Aduniad.



Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor, yn annerch cyn-fyfyrwyr a gwesteion mewn derbyniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.



Traddodiad cicio'r bar.



Swper yr Aduniad.



First Minister of Wales, Rt. Hon. Mark Drakeford MS and Llywydd, Rt. Hon. Elin Jones MS were honorary guests at our Cardiff Founders event at the Senedd.



Y Cymrawd er Anrhydedd, ei Uchelder Brenhinol Tuanku Muhriz (trydydd o'r chwith) yn lansiad swyddogol cyfrol Clwb Cyn-fyfywyr Malaysia yn dathlu 30 mlynedd '30 years of the Aber Spirit in Malaysia'.



Roedd cyn-chwaraewr chwedlonol y Crysau Duon Sean Fitzpatrick [y pellaf ar y chwith] ymysg y gwsteion yn swper elusenol y Scarlets a Phrifysgol Aberystwyth.



Dathlu yn Efrog Newydd.



Côr Aelwyd Pantycelyn yn perfformio yn y Brecwast i dathlu diwrnod y Sylfaenywyr.



Cyfle am sgwrs yn y derbyniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.



Ein Dathliad i Gymrodorion a Chyfeillion yn ystod wythnos y Graddio, a ddaeth â digwyddiadau'r flwyddyn o dathlu canrif a hanner i ben.



Daeth dros 130 o gyn-fyfywyr Malaysiaidd ynghyd mewn aduniad arbennig.

4 | Cysylltiadau rhyngwladol

Rydym yn hynod falch o gymuned fyfyrwyr amrywiol a bywiog Prifysgol Aberystwyth. Rydym yn ddewis poblogaidd i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dymuno astudio yn ein hamgylchedd unigryw. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu cytundebau rhyngwladol a fydd yn annog ein myfyrwyr i dreulio amser yn astudio dramor i ehangu eu gorwelion ac yn darparu cyfleoedd addysgol unigryw. Bydd cwrdd â myfyrwyr o wahanol gefndiroedd a meithrin cysylltiadau cryf, heb os, yn gwella eu haddysg.

Rhifau ceisiadau rhyngwladol oedd yr uchaf erioed ar gyfer derbyniadau 2022, gyda thwf cyflym o Dde Asia, Affrica a Gogledd America. Fodd bynnag, roedd y Brifysgol a'r sector ehangach yn dal i deimlo effaith y newidiadau i fewnfudo o'r Undeb Ewropeaidd i'r Deyrnas Unedig yn sgil Brexit. Roedd y nifer a ddenwyd yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn y gyllideb ac mae gan y Brifysgol gynlluniau ar waith i gynyddu nifer y myfyrwyr o dramor er mwyn cyrraedd y targedau hyn.

Diolch i'r ffaith bod cyfyngiadau COVID-19 wedi eu llacio ymhellach, ymwelodd staff o'n tîm Denu a Datblygu Rhyngwladol a'n tîm Cyfleoedd Byd-eang â 26 tiriogaeth, ei ôl troed mwyaf ers 2016.

Rydym yn annog ein hisraddedigion ar draws bron pob un o'n rhaglenni i astudio dramor am gyfnodau byr, semesterau, yn ogystal ag am flwyddyn academiaidd lawn, ac yn darparu cefnogaeth iddynt. Mae'r Brifysgol hefyd yn croesawu myfyrwyr o brifysgolion ar draws y byd i ddod i Aberystwyth ac elwa o'n cryfderau academiaidd a'n diwylliant unigryw. Mae'r Brifysgol yn rhan weithredol o gynllun symudedd Taith Llywodraeth Cymru a lansiwyd yn ddiweddar yn ogystal â chynllun Turing Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a lansiwyd i gynnig cyfleoedd newydd ar ôl i raglenni hirsefydlog Erasmus/Socrates yr Undeb Ewropeaidd ddod i ben i fyfyrwyr y Deyrnas Unedig.

Mae rhaglenni symudedd ar gyfer staff a myfyrwyr ar waith i 22 o wledydd dros bob cwr o Ewrop, Asia, America ac Awstralia. Mae gan Brifysgol Aberystwyth gytundebau gyda 85 o brifysgolion ledled y byd, sy'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau. Mae partneriaeth gyda Phrifysgol Pretoria yn caniatáu i fyfyrwyr astudio gwyddoniaeth filfeddygol yn Ne Affrica. Diolch i'r ffaith i ni gryfhau ein perthynas â Phrifysgol Alabama yn Birmingham (UAB), cawsom groesawu myfyrwyr a staff i raglen a reolir gan ein Canolfan Addysg Gofal lechyd.

Mae'r rhaglen honno'n nodweddiadol o'r ffaith bod y Brifysgol yn dyfnhau ei pherthynas â phartneriaid presennol yn yr Unol Daleithiau yn ogystal ag adeiladu cytundebau cydweithredu strategol newydd gyda sefydliadau yn ne-ddwyrain UDA. Yn ogystal â UAB, rydym wedi sefydlu perthynas gref â Citadel yn Charleston, De Carolina a Phrifysgol Gogledd Georgia.

Roeddem yn falch iawn o groesawu ein Hysgolheigion Noddfa cyntaf ar lefel israddedig ac uwchraddedig eleni. Rhoddir y wobr i fyfyrwyr sy'n ceisio lloches ac sy'n methu cael y cyllid a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu haddysg. Rhoddir grant flynyddol o £8,000 iddynt er mwyn eu cynorthwyo â chostau byw a darparu llety am ddim drwy gydol eu hastudiaethau yn Aberystwyth.

Ym mis Chwefror, cawsom gyhoeddi ysgoloriaethau pwysig ym maes cynaliadwyedd bwyd i fyfyrwyr o wledydd y Gymanwlad.

Bydd yr ysgoloriaethau hynny, sydd wedi eu hariannu gan Swyddfa Dramor y Deyrnas Unedig, yn helpu unigolion talentog a brwdfrydig i gael manteisio ar yr hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer

datblygu cynaliadwy, ond nad ydynt ar gael yn eu gwlad gartref. Bydd y myfyrwyr cyntaf ar y cyrsiau o bell hyn yn dechrau ar eu hastudiaethau ym mlwyddyn academiaidd 23/24.

Fe wnaethom barhau hefyd i weithio ar gryfhau ein cysylltiadau a'n partneriaethau ledled y byd. Roedd ymweliad yr Is-Ganghellor â De-ddwyrain Asia yn gyfle i ailgysylltu â'n rhwydwaith cryf o gyn-fyfyrwyr ym Malaysia a chymerodd gamau pellach i feithrin cysylltiadau newydd yn Singapore a Gwlad Thai. Rhoddodd digwyddiadau i'r cyn-fyfyrwyr yn Efrog Newydd a Washington DC gyfle i ni adeiladu ar gysylltiadau â chyfeillion a chyn-fyfyrwyr yn yr Unol Daleithiau. Mewn digwyddiad arbennig yn yr Amgueddfa Genedlaethol Smithsonaidd ar Hanes America, cafodd deiseb heddwch a lofnodwyd gan bron i 400,000 o fenywod o Gymru 100 mlynedd yn ôl ei chyflwyno'n ffurfiol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar ôl iddi gael ei chadw yn yr Unol Daleithiau am bron i ganrif.



Oleksii Gorbatenko a Maryna Zaitseva sydd wedi bod yn astudio yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, yn rhan o gytundeb gefeillio â Phrifysgol Economeg Genedlaethol Odesa yn Wcráin.

5 | Y Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae Prifysgol Aberystwyth yn enwog am ei hymrwymiad diysgog i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru, boed hynny drwy feithrin addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu gyfrannu at wella'r ddealltwriaeth o anghenion economaidd-gymdeithasol ein gwlad.

Roeddem yn falch o weld yr Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i Geredigion am y tro cyntaf ers 30 mlynedd ym mis Awst. Roedd yn llwyfan perffaith i lansio ein rhaglen o ddigwyddiadau i ddathlu ein pen-blwydd yn 150 yn swyddogol yn ogystal â bod yn lleoliad delfrydol i'n digwyddiadau i gyn-fyfrwyr ac UMCA, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, sydd mor boblogaidd ag erioed. Roedd yn anrhydedd arwain y Pentref Gwyddoniaeth a'r Pentref Dysgu Cymraeg, a bu llawer o academyddion blaenllaw o bob rhan o'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn darlithoedd a phaneli ar draws y Maes.

Cynhaliwyd prynhawn agored ym Mhantycelyn i gyd-fynd â'r Eisteddfod Genedlaethol i groesawu cyn-fyfrwyr a'r gymuned leol i ymweld â'r neuadd sydd newydd ei hadnewyddu i'w hen ogoniant, a chlywed am brofiadau ei myfyrwyr preswyl. Mae tair blynedd bellach ers i Neuadd Pantycelyn ailagor ac mae'n parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer llawer o weithgareddau cymuned y myfyrwyr Cymraeg. Mae'n gartref i gyfarfodydd cymdeithasau Cymraeg ac yn lle i gorau a grwpiau eraill ymarfer ynddo.

Mae'r neuadd hefyd yn gartref i UMCA sy'n hanfodol ar gyfer ein cyswllt â'n myfyrwyr a'r gymuned. Mae gennym ni berthynas gref â'n myfyrwyr ac mae eu hadborth wedi arwain at gyflwyno nifer o newidiadau sydd wedi gwella eu profiad o fyw ym Mhantycelyn.

Heb os, mae ehangu cyrhaeddiad diwylliant Cymru wedi bod yn ganolog i'n hanes. Roedd ein cyfrol i ddathlu'r 150, 'Ceiniogau'r Werin', yn cynnwys amryw gyfraniadau yn amlygu ein treftadaeth Gymreig gyfoethog a balch, megis protestiadau hanesyddol, sefydlu UMCA, a chyflwyno ein polisi dwyieithog a chyfieithu ar y pryd. Ond yn ogystal â dathlu diwylliant Gymreig ein gorffennol, rydym

yn awyddus i feithrin diwylliant ein presennol a'n dyfodol. Mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac UMCA, aethom ati i guradu Pop Aber, dathliad o'r berthynas agos rhwng cymuned myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol a'r sîn gerddoriaeth Gymraeg. Perfformiodd nifer o'r artistiaid amlwg hyn yn Gig Mawr Aber yn ystod Wythnos y Sylfaenwyr ym mis Hydref.

Dangoswyd ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg a'i pherthynas agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan ysgoloriaeth newydd Defi Fet, a fydd yn cael ei dyfarnu i fyfyrwr milfeddygol Cymraeg sy'n ymroddedig i ddatblygu ei sgiliau iaith mewn cyd-destun dysgu proffesiynol. Lansiodd yr ysgoloriaeth mewn digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd gan Brifysgol Aberystwyth a'r Coleg yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf 2023.

Dim ond un enghraifft yw hon o berthnasedd ac effaith y cyfleoedd Cymraeg sy'n cael eu hymgorffori yn ein cyrsiau newydd yn y Brifysgol. Mae'r cwrs milfeddygol yn ateb y galw yn y gymuned leol am fwy o filfeddygon ac mae'n hollbwysig bod y sgiliau iaith angenrheidiol gan y graddedig hynny hefyd. Yn yr un modd, rydym yn gweithio i wella'r gyfran o fyfyrwyr Cymraeg sydd ar ein cyrsiau nyrsio, er mwyn datblygu ymhellach ar sylfaen blwyddyn gyntaf y cyrsiau sydd eisoes yn addawol.

Rydym wedi gweld sawl llwyddiant o ran dysgu a darpariaeth yn y Gymraeg, yn ogystal ag ymchwil ac arloesi. Enillodd Dr Hywel Griffith, Adran Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear, wobwr Cyfraniad Eithriadol i Addysg Cyfrwng Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Enillodd Dr Gwenllian Rees Wobwr Effaith Coleg Brenhinol y Milfeddygon am ei rhan hi ym mhrosiect 'Arwain' Milfeddygaeth Cymru, sef rhaglen stiwardiaeth wrthficrobaidd genedlaethol gydweithredol ar gyfer pob amaeth yng Nghymru. Mae'r Brifysgol ei hun yn parhau i gydnabod gwaith staff a myfyrwyr sy'n hyrwyddo'r iaith drwy Wobrau Hybu'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth.

Mae enghreifftiau pellach o'n llwyddiant yn cynnwys dwy ysgoloriaeth PhD a ddyfarnwyd gan y Coleg am brosiect ar y cyd rhwng yr Ysgol

Addysg ac adran Dysgu Cymraeg i Oedolion, yn ogystal ag un arall mewn amaethyddiaeth. Mae'r olaf o'r rhain yn chwifio'r faner dros y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, gyda 50% o'r myfyrwyr yn rhai Cymraeg eu hiaith yn y flwyddyn academaidd 2022/23. Cawsom hefyd ddathlu'r gorau o waith ymchwil y Brifysgol mewn digwyddiad oedd yn rhan o'n Gŵyl Ymchwil yn 2022, a oedd yn cynnwys ymchwil yr Adranau Daeryddiaeth, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a'r Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

Cafodd ein timau yng Nghanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a Dysgu Cymraeg flwyddyn brysur unwaith eto. Gwelsom hefyd gefnogaeth i staff sy'n dysgu ac yn gwella eu sgiliau Cymraeg yn ail-gychwyn trwy gynnal sesiynau sgwrsio amser cinio. Mae'r staff a'r gymuned leol yn dal i ddilyn ein dosbarthiadau. Rydym hefyd wedi treialu cyrsiau newydd wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer myfyrwyr ar ôl i Lywodraeth Cymru sefydlu polisi newydd ar ddsbarthiadau am ddim i bobl ifanc dan 25 oed.



6 | Ein Pobl

Mae Prifysgol Aberystwyth yn adnabyddus fel sefydliad ffyniannus a llwyddiannus a hynny am fod pob un o gydweithwyr y brifysgol yn chwarae rhan hanfodol. Mae ein llwyddiant parhaus mewn amryw arolygon myfyrwyr yn dangos ei bod wedi gosod sylfaen gadarn y gall ein cymuned adeiladu arni i greu effaith sylweddol.

Mae perthynas dda â'r staff yn dal yn rhan hanfodol o sut mae'r Brifysgol yn cael ei rhedeg, gyda chyflleoedd i ailgysylltu trwy drafodaeth ac adborth. Mae'r cynnydd yn nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn brawf o'r newid yn ôl i'r drefn normal ar ôl gweithio o dan gyfyngiadau pandemig COVID-19. Rydym wedi rhoi ystyriaeth i'r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod hwnnw ac wedi cyflwyno elfennau fel trefniadau gweithio cymysg a chynnig mwy o hbylygrwydd o ran sut mae y pobl yn cael gweithio.

Rydym wedi cynnal nifer o weithdai gyda'n harweinwyr a'n staff ymchwil i drafod a chynllunio sut i'n trefnu ein hunain, yn rhan o'n gwelliannau parhaus i'n proffil a'n perfformiad ym mhob agwedd ar ein gwaith ymchwil, cyfnewid gwybodaeth ac arloesi.

Gwnaed gwaith sylweddol wrth ddatblygu arweinyddiaeth a sgiliau rheoli drwy ddarparu hyfforddiant a gweithdai wyneb yn wyneb ac ar-lein. Rydym wedi parhau i gynnal ein cyrsiau hyfforddi a datblygu yn y Brifysgol ac wedi darparu mwy ohonynt mewn ymateb i'r galw mawr, yr adborth cadarnhaol, ac effaith yr hyfforddiant ar ddatblygu sgiliau a hyder cydweithwyr. Rydym wedi cymryd camau i gefnogi cydweithwyr gyda heriau ehangach sy'n gysylltiedig â chostau byw gan gynyddu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gynt na'r arfer, cynnig cymorth hyfforddiant ariannol yn ogystal â noddi prydau rhatach yn y manau arlwygo ar draws ein campysau.

Rydym yn falch o'n hanes o drosiant staff isel. Mae'n arwydd o deyrngarwch ein cydweithwyr i'r Brifysgol ac i ardal Ceredigion yn ehangach. Er bod gweithredu diwydiannol wedi effeithio ar sector prifysgolion y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae ein perthynas gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur yn dal yn

un broffesiynol a chadarnhaol, sy'n adlewyrchu ymrwymiad a gwaith caled ar y ddwy ochr.

Er gwaethaf heriau'r farchnad swyddi gystadleuol, y farchnad lafur gyfnewidiol a thuedd ehangach tuag at weithio o bell yn y rhan fwyaf o sectorau, rydym yn parhau i wneud penodiadau o safon uchel ar draws

ystod o wahanol swyddi. Mae hyn yn dangos bod y Brifysgol yn gyflogwr deniadol sydd â syniad clir o'i gyfeiriad strategol. Un flaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf fydd sicrhau bod y duedd hon yn parhau



7 | Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ymgorffori cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant ym mhob maes o'n dysgu, ein hymchwil a'r amgylchedd gwaith, i sicrhau eu bod yn ganolog i'n penderfyniadau a'n gwasanaethau. Fe'n harweinir gan ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, sy'n dangos ein hymrwymiad i feithrin diwylliant dysgu a gweithio cynhwysol, heb wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth, ac sy'n arddel gwerthoedd parch, urddas a chwarteisi.

Bydd grŵp newydd, y Grŵp Trosolwg Strategol Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant, yn dod â dull o fonitro gweithgarwch ac effaith yn y meysydd hyn a fydd yn canolbwyntio ar y

gymuned gyfan, gan gynnal y cynnydd yn y meysydd blaenoriaeth, ac yn ymgynghori â'r gymuned er mwyn paratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, lansiodd Cynllun Gweithredu ar Hil 2022-2025 mewn digwyddiad i drafod hil yn y gweithle. Rhoesom fentrau newydd ar waith megis hyfforddiant gwrth-hiliaeth, prosiect pilot i wneud y cwricwlwm yn fwy amrywiol ac archwiliad mewnol i gydraddoldeb hil. Ochr yn ochr â'r cynllun hwn, mae Grŵp Gweithredu ar Hil newydd a'r gweithgorau a arweinir gan fyfyrwyr a staff yn arwain gwaith y Brifysgol wrth iddi baratoi i ymgeisio am ddyfarniad Efydd Siarter Cydraddoldeb Hil ym mis Tachwedd 2024.

Rydym wedi cynnal y cynnydd a wnaed ym maes Cydraddoldeb Rhywedd gyda chais am Ddyfarniad Efydd Siarter Athena Swan. Mae cynrychiolaeth ein academyddion uwch yn flaenoriaeth benodol, a buom yn gweithio'n agos gyda'r adrannau i helpu'r rhai a allai fod wedi gorfod cymryd cyfnod o absenoldeb rhiant neu gyfrifoldebau gofal eraill. Mae cynnydd cadarnhaol wedi ei weld yn hyn o beth - yn 2022, roedd 59 o geisiadau am ddyrchafiadau academaidd, ac roedd 37% ohonynt yn fenywod.



Yn 2023, roedd 53 o geisiadau, a 51% ohonynt yn fenywod. Ar wahân i hynny, mae'r gwaith yn parhau ar wella ein bwlch cyflog rhwng y rhywiâu, sy'n parhau i fod yn is na chyfartaledd y sector.

Mae amrywioldeb y Brifysgol yn cynyddu. Mae 7.7% o gynnydd wedi bod yng nghyfran ein cydweithwyr sy'n dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n golygu 5.6% o'n holl staff, ac mae 4.8% o gynnydd wedi bod yng nghyfran y staff sy'n datgan eu bod yn LHD+, sy'n golygu 4.4% o'r holl staff. Mae 8.2% o gyfanswm y staff wedi datgan anabledd. Mae'r twf mewn rhai meysydd yn araf, er ei fod yn cydfynd â thueddiadau demograffig lleol, ond rydym yn cydnabod yr heriau ac mae cynlluniau ar waith i wella'r metrigau hyn.

Yn ystod y flwyddyn llwyddasom i adnewyddu ein statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac ennill Dyfarniad Efydd ym Mynegai Stonewall ar Gydraddoldeb yn y Gweithle, a arweiniodd at drefnu gweithgareddau penodol, gan gynnwys sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer cydweithwyr ar Niwroamrywiaeth a Gwylwyr Rhagweithiol.

Gan ein bod yn rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant Canolbarth a Gorllewin Cymru, rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau a gwasanaethau yn y gymuned leol i siarad am ein gwaith, rhannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu, a dod o hyd i gyfleoedd i gydweithio. Rydym hefyd wedi cefnogi digwyddiadau, yn amrywio o Balchder ar y Prom, a ddychwelodd i Aberystwyth ar ôl absenoldeb o 10 mlynedd, i weithdai ar droseddau casineb a ffeiriau recriwtio lleol. Mae'r Brifysgol hefyd wedi dathlu amrywioldeb ein cymuned gyda digwyddiadau fel Mis Hanes Pobl Ddu, Mis Hanes LHDT, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Wythnos Niwroamrywiaeth, Diwali a Ramadan.

Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol a Chydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddi

Mae pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth yw eu cyflog, bob blwyddyn yn mynd trwy'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol, sef trefn adolygu perfformiad, ac mae hynny yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i fwydo i gynlluniau datblygu gyrfa ac anghenion hyfforddi. Ar ben hyn, rydym yn cynnig amrywiaeth o rwydweithiau a chynlluniau datblygu arweinyddiaeth a mentora i gefnogi datblygiad a chynnydd gyrfaol.

Mae gan y Brifysgol Gynllun Gwobrwyo Cyfraniad Unigol a gyflwynwyd ym mis Hydref 2021.

Y pwynt cyflog uchaf yw Pwynt 9 ar Raddfa Gradd 10, sy'n cyfateb i £105,566 (ar 31 Gorffennaf 2023). Mae 11 swydd uwch sydd â phhecyn taliadau dros £100,000, yn seiliedig ar dâl sylfaenol ynghyd ag unrhyw lwfans am gyfrifoldeb ychwanegol ar 31 Gorffennaf 2023. Pennir y cyflogau hyn wedi ystyried data meincnodi perthnasol o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector Addysg Uwch.

Y pwynt tâl isaf yw Pwynt 3 ar y Golofn Dâl Unigol, sy'n cyfateb i £20,410 (ar 31 Gorffennaf 2023). Ond, yn ymarferol, mae'r unigolion ar y pwynt hwn ar y golofn yn derbyn y Gwir Gyflog Byw cyfredol, sef £20,688 (dechreuodd y Brifysgol dalu'r Gwir Gyflog Byw ym mis Ebrill 2018 a chafodd ei hachredu'n gyflogwr y Gwir Gyflog Byw ym mis Hydref 2018).

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchiadau cystadleuol ac mae'n awyddus i ddenu a chadw'r staff gorau posib. Serch hynny, wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl y staff uwch, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Taliadau ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath, gan gyfeirio at y data meincnodi i Brifysgolion tebyg.

Mae canlyniadau arfarniadau'r staff uwch o dan Gynllun Cyfraniad Effeithiol y sefydliad yn cael eu cyflwyno wedyn i'r Pwyllgor Taliadau ac maent yn darparu sylfaen i unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Taliadau o ran unrhyw newidiadau i gyflogau'r uwch staff dan sylw. Mae pob aelod o'r staff uwch yn y Brifysgol yn derbyn yn awtomatig unrhyw ddyfarniadau tâl 'costau byw' sy'n cael eu darparu gan y Brifysgol i'w staff ar y golofn dâl sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi cymeradwyo Fframwaith Cydnabyddiaeth Uwch Staff i'r Brifysgol, sy'n pennu ymagwedd y sefydliad tuag at dâl ei staff uwch. Yn unol â'r hyn a bennwyd yn Fframwaith Cydnabyddiaeth yr Uwch Staff, mae'r Cyngor wedi dirprwyo i'r Pwyllgor Taliadau yr awdurdod i gytuno ar faterion sy'n ymwneud â thalu'r Is-Ganghellor; y Dirprwy Is-Gangellorion; a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Cyd-adroddiad ar y flwyddyn ariannol gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid

Mae'r Brifysgol wedi gweithredu mewn tirwedd ariannol heriol yn ystod 2022-23. Nid yw sefyllfa weithredol waelodol y grŵp, sef (£2.5) miliwn o ddiffyg, yn unol â disgwyliadau'r gyllideb, ond mae'n adlewyrchu'r ffaith bod nifer is o fyfyrwyr wedi'u derbyn na'r hyn y cyllidebwyd amdano, pwysau chwyddiant, a chynnydd mewn cyfraddau llog.

Ac eithrio'r symud mewn cynlluniau pensiwn ac addasiadau eraill nad ydynt yn arian parod, sefyllfa weithredol waelodol y grŵp yw (£2.5) miliwn o ddiffyg yn 2022-23. Mae'r newidiadau hyn wedi'u nodi yn y tabl isod. Er bod mwy o fyfyrwyr yn y brifysgol ac mae'r incwm wedi cynyddu, nid yw wedi cyd-fynd â'r disgwyliadau cyllidebol. Mae grantiau'r cyrff cyllido wedi aros yn gyson yn ôl y disgwyl, ac mae incwm ymchwil wedi cynyddu, gan adlewyrchu ein cyfeiriad strategol. Mae gwariant wedi aros yn gyson i raddau helaeth â'r blynyddoedd blaenorol yn y rhan fwyaf o'n meysydd gweithredu, ac fe gafwyd incwm uwch mewn meysydd lle mae'r perfformiad wedi gwella. Serch hynny, cofnodwyd newidiadau mawr mewn costau staff, gwasanaethu dyled, cyfleustodau a nwyddau traul mewn meysydd y mae chwyddiant yn effeithio arnynt, sydd wedi arwain at gofnodi (£2.5) miliwn o ddiffyg gweithredol.

Mae buddiannau ariannol y gwaith i ailgyfeirio ein strategaeth yn y blynyddoedd diwethaf wedi'u gwireddi i raddau helaeth, yn benodol y camau i ailgloriannu sylfaen costau'r Brifysgol yn unol â'i hincwm a niferoedd y myfyrwyr. Er bod y newidiadau hynny wedi rhoi modd i Aberystwyth weithredu'n fwy hyblyg a chyfeirio ei hadnoddau'n strategol, yn 2022-23 cafodd effaith yr enillion hyn ei gwrthbwyso'n sylweddol gan bwysau costau meysydd eraill, sef costau tir ac adeiladau yn bennaf.

Mae'r amgylchedd ariannol heriol wedi cynyddu'r pwysau ar lif arian parod y Brifysgol ac ar reoli cronfeydd byrdymor. Mae'r Brifysgol yn deall pwysigrwydd y swyddogaeth hon ac mae'n mynd ati'n weithredol i reoli'r sefyllfa fyrdymor ac yn cynllunio i gynyddu'r arian wrth gefn dros y tymor hwy.

Mae Aberystwyth yn dal ati i fuddsoddi er mwyn gwireddu ei hamcanion strategol, sef yn benodol darparu dysgu ac ymchwil ardderchog yn y tymor hir, gan gynnwys y buddsoddiadau cyfalaf cysylltiedig er mwyn darparu sylfaen i'r amcanion hynny. Gwaith ailddatblygu'r Hen Goleg yw'r brif elfen ar y gorwel o ran y cynlluniau cyfalaf, gyda thua £34 miliwn o wariant wedi'i gyllidebu rhwng 2023-24 a 2025-26. Serch hynny, mae amserlenni'r prosiect a'r ffaith bod ganddo nifer o gyllidwyr yn golygu bod modd targedu rhywfaint o fuddsoddiad cyfalaf at feysydd strategol allweddol eraill megis ystâd y Brifysgol, gwelliannau i'r seilwaith digidol a dysgu, a pharhau â'r buddsoddiad mewn prosiectau sy'n gwella effeithlonrwydd y Brifysgol.

Gan edrych at y dyfodol, ac yn unol â'r sector ehangach, bydd y materion allweddol a fydd yn wynebu'r Brifysgol yn ymwneud â'r heriau presennol sy'n gysylltiedig â'r amgylchiadau cystadleuol o ran denu myfyrwyr, a'r angen i fuddsoddi mewn staff ac adnoddau i gefnogi gwaith ymchwil o ansawdd uchel. Mae'r Brifysgol wedi gweld twf yn nifer y myfyrwyr i'r flwyddyn academaidd 2023-24 er bod y ffigurau yn llai na'r cynlluniau cyllidebol o ran incwm. Gan nad yw'r cynnydd hwnnw'n cyfateb i'r chynnydd parhaus mewn costau chwyddiant, bydd angen arbedion ac effeithlonrwydd gweithredol pellach er mwyn cyrraedd ein targed cyllidebol. Bydd y Brifysgol yn dal i ddyrannu adnoddau yn ofalus er mwyn cefnogi ei hamcanion twf strategol a sicrhau bod ei gweithrediadau parhaol yn cael eu cynnal yn effeithlon.

Cwmpas y datganiadau ariannol

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 yn ymgorffori canlyniadau'r Brifysgol, Arloesi Aberystwyth, Aber Trading Cyf ac Aber Business Consultancy Cyf., sydd i gyd yn is-gwmnïau. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o ganlyniadau'r Grŵp. Mae cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn yn cynnwys sawl cofnod nad ydynt yn arian parod.

Roedd y Brifysgol yn cofnodi £4.3 miliwn o enillion drwy gwmp ym narpariaeth Cynllun Pensiwn y Brifysgol (USS) yn 2022-23 (2021-22 £27.8 miliwn o golled). Mae'r Brifysgol hefyd wedi cofnodi £5.2 miliwn o enillion actiaraidd yn 2022-23, (2021-22 £17.0 miliwn o enillion) ar ôl prisiaid o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa pensiwn (prisiaid actiaraidd) a gynhaliwyd gan ein cynghorwyr annibynnol, Mercers. Rhoddir rhagor o fanylion am gynlluniau pensiwn y Brifysgol o dudalen 91 ymlaen.

Mae cysoniad crynhoi rhwng y Datganiadau Ariannol a'r Cyfrifon Rheoli (y sefyllfa weithredu waelodol) wedi'i ddangos isod er cyflawnder. Mae'r safonau cyfrifon yn mynnu bod y Brifysgol yn cynnwys nifer o addasiadau cyfrifo nad ydynt yn arian parod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Y sefyllfa weithredol waelodol yw (£2.5) miliwn o ddiffyg yn y grŵp pan hepgorir yr eitemau hyn ac mae'r rhain wedi'u gosod yn y tabl isod.

	2022-23 £m	2021-22 £m
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	9.1	(11.0)
Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog	(0.1)	(0.1)
Enillion o ailbriso	(1.9)	-
Colled/(enillion) o fuddsoddiadau	1.0	0.9
Gwaddolion newydd	(3.7)	(0.5)
Symudiadau yn y pensiwn USS yn ystod y flwyddyn	(4.3)	27.8
Costau pensiwn	2.7	1.3
Enillion eraill a gofnodir	-	(1.2)
Symudiadau ym mhensiynau CPAPA a'r ALL yn ystod y flwyddyn	(5.3)	(17.0)
Sefyllfa weithredol waelodol	(2.5)	0.2

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r grŵp ar gyfer y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Datganiadau Ariannol.

	2022-23 £m	2021-22 £m
Incwm	132.7	123.5
Gwariant	(129.9)	(150.7)
Gwarged / (diffyg) cyn enillion a cholledion eraill	2.8	(27.2)
Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog	0.1	0.1
(Colledion) / enillion o fuddsoddiadau	(1.0)	(0.9)
Gweddill ar ôl ailbriso	1.9	-
Gweddill / (diffyg) cyn treth	3.8	(28.0)
Gweddill / (diffyg) ar ôl treth	3.8	(28.0)
(Colledion) / enillion actiaraidd ar y cynlluniau pensiwn	5.3	17.0
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	9.1	(11.0)

Mae gwerth buddsoddiadau'r Brifysgol hefyd yn anodd ei ragweld gan ei fod yn dibynnu ar werthoedd y farchnad. Yn 2022-23, gwnaeth y Brifysgol £1.0 miliwn o golled heb ei gwireddu ar sail gwerth buddsoddiadau yn ôl y farchnad (2021-22 £0.9 miliwn o golledion).

Mesuriadau iechyd ariannol

Mae'r Brifysgol yn defnyddio sawl Dangosydd Ariannol Allweddol i fonitro ei hiechyd ariannol. Cafodd y Dangosyddion a ddefnyddir eu hadolygu yn 2021-22 a'u diweddarau yn unol â Strategaeth Ariannol y Brifysgol er mwyn helpu i gymharu ein sefyllfa â gweddill y sector. Maent yn dal i gael eu hystyried yn berthnasol ar gyfer 2022-23. Rhoddir crynodeb ohonynt yn y tabl isod:

MESURIADAU IECHYD ARIANNOL	2022-23	2021-22	Target
Proffidioldeb			
Canlyniad a gedwir, fel % o'r incwm	(1.80%)	0.20%	5.00%
Hylifedd			
Diwrnodau hylifedd net	30 diwrnod	36 diwrnod	120 diwrnod
Asedau cyfredol: Rhwymedigaethau cyfredol	0.8	0.8	1.3
Gerio			
Benthyciadau allanol fel % o'r incwm	48.50%	46.40%	50.00%
Effeithlonrwydd			
Costau staffio fel % o'r incwm	54.90%	56.30%	58.00%

Erbyn mis Gorffennaf 2023, dim ond dau o'r Dangosyddion sydd wedi'u bodloni, sef y rhai ar gyfer gerio a'r costau staffio fel canran o'r incwm. Mae'r Dangosydd effeithlonrwydd wedi gwella oherwydd camau rheoli a gymerwyd i leihau costau staff, ar ôl cael llai o incwm o ffioedd myfyrwyr yn ystod y flwyddyn na'r hyn y cyllidebwyd amdano. Er bod benthycia allanol fel canran o'r incwm wedi cynyddu ers 2021-22, mae'n dal i fod o fewn targedau'r Brifysgol. Mae'r cynnydd yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith bod y Brifysgol wedi defnyddio mwy o arian o'r Adnodd Credyd Cylchdroi ym mis Gorffennaf 2023 i ymdrin â gwahaniaethau amseru ac oedi cyn cael mewnlifiadau arian parod disgwylidig. Os llwyddir i gyflawni'r dangosyddion hyn bydd angen i'r Brifysgol cyrraedd y targedau am incwm o ffioedd myfyrwyr, sicrhau grantiau ymchwil newydd a chymryd camau i arbed costau. Bydd cynnydd tuag at dargedau hylifedd hefyd yn cael ei gynorthwyo gan ostyngiad sylweddol disgwylidig yn rhwymedigaethau'r cyfraniadau i'r USS sy'n deillio o'r prisiaid teirblynyddol a gwerthu asedau dros ben.

Proffidioldeb

Mae'r £3.6 miliwn o ostyngiad ar y lefelau y cyllidebwyd amdanynt o incwm o ffioedd myfyrwyr ynghyd â'r cynnydd parhaus mewn costau sy'n cyd-fynd â phwysau chwyddiant, wedi arwain at y Brifysgol yn cofnodi diffyg gweithredol gwaelodol yn 2022-23. Mesuriad y canlyniad a gedwir fel canran o'r incwm yw -1.8% ac mae hynny'n adlewyrchu sefyllfa weithredu waelodol sydd wedi symud i ddiffyg ar ôl dychwelyd i warged gweithredol yn 2021-22. Mae'r costau cynyddol yn adlewyrchu'r heriau economaidd cenedlaethol a rhyngwladol cyffredinol yn ystod y cyfnod.

Hylifedd

Mae daliadau arian parod y Brifysgol yn parhau i fod yn is na'r targed oherwydd effaith andwyol hanesyddol COVID-19 ar y gweithrediadau, ac oherwydd y bu sawl buddsoddiad cyfalaf strategol sylweddol dros yr un cyfnod. Yn anffodus, mae 12% o gynnydd mewn incwm gweithredol dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf wedi cyd-fynd â lefelau hanesyddol o uchel mewn chwyddiant a chyfraddau llog, sydd yn ei dro wedi effeithio ar allu'r Brifysgol i gyrraedd y targedau ar gyfer cynhyrchu a chadw arian parod gweithredol dros yr un cyfnod.

Cofnododd y Brifysgol ei bod yn dal £8.2 miliwn o arian parod ym mis Gorffennaf 2023 (2021-22 £8.1 miliwn). Er gwaethaf y cynnydd bach mewn daliadau arian parod a gofnodwyd, mae metrigau hylifedd y Brifysgol naill ai wedi gostwng (Diwrnodau Hylifedd Net) neu wedi aros yn ddigynffwrdd (Cymhareb Gyfredol) yn 2022-23. Mae'r Diwrnodau Hylifedd Net wedi gostwng i 30 diwrnod (2021-22 36 diwrnod). Mae'r ffigur hwn yn dangos yr amcangyfrif am sawl diwrnod y byddai'r arian parod a gweddillion y buddsoddiadau byrdymor oedd gan y Brifysgol ym mis Gorffennaf 2023 yn gallu cynnal ei gweithgareddau creiddiol. Mae gweithgareddau craidd yn cael eu cyfrifo fel gwariant wedi tynnu dibrisiant, llog, amorteiddio, addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod, a chostau nad ydynt yn rhai cyson. Mae'r gostyngiad yn y mesur hwn wedi'i yrru gan gynnydd sydyn yn ein costau gweithredu craidd, oherwydd pwysau chwyddiant a'r dyfarniadau cyflog cysylltiedig yn ystod y flwyddyn, ac oherwydd nad yw'r ffigurau ar gyfer daliadau arian parod a buddsoddiadau byrdymor wedi cynyddu ers y flwyddyn gynt. Mae'r ffigur hwn yn dal i fod yn is na thargedau'r Brifysgol ac mae hyn yn dal i fod yn ystyriaeth allweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig. Disgwylir y bydd y pwysau ar y costau gweithredu craidd a'r ffiniau ariannol yn parhau yn y tymor byr ond nod y Brifysgol yw eu lliniaru trwy arbedion gweithredol, wedi'u hategu gan y gostyngiadau yn rhwymedigaethau'r cyfraniadau pensiwn USS, a thrwy waredu asedau'n strategol er mwyn cynyddu'r arian parod a ddelir. Mae'r ffigur arian parod a gofnodwyd yn cynnwys £10 miliwn o gronfeydd a ddefnyddiwyd o Adnodd Credyd Cylchdroi ym mis Gorffennaf 2023, sy'n golygu bod mwy (£5 miliwn) ar gael o fewn yr adnodd hwnnw ar gyfer cronfeydd byrdymor ar ddyddiad y datganiad. Er gwaethaf £2.3m o ostyngiad yn yr asedau net cyfredol yn 2022-23, mae Cymhareb Gyfredol y Brifysgol (asedau cyfredol: rhwymedigaethau cyfredol) yn parhau i sefyll ar 0.8, sydd hefyd yn is na'r targedau mewnol. Bydd mesuriadau hylifedd yn cael eu monitro'n agos trwy'r mecanweithiau adrodd presennol.

Gerio

Er bod y Brifysgol wedi cofnodi cynnydd mewn incwm gweithredol yn 2022-23, sef £132.8 miliwn (2021-22 £123.5 miliwn), mae benthycia allanol fel canran o'r incwm hwn hefyd wedi cynyddu ychydig i 48.5% (2021-22 46.4%) dros y cyfnod. Mae cynnydd y benthycia allanol yn 2022-23 yn ymwneud bron yn gyfan gwbl â defnyddio mwy o gronfeydd yr Adnodd Credyd ym mis Gorffennaf 2023, sef £10 miliwn wedi'u defnyddio (2021-22 £3 miliwn). Roedd angen defnyddio mwy o'r cronfeydd hyn i fynd i'r afael â gwahaniaethau amseru a'r oedi cyn cael mewnlifiadau arian parod disgwylid ym mis Gorffennaf 2023, a amlygwyd gan gynnydd pellach yn symiau derbyniadwy'r Grŵp a gofnodwyd, sef cynnydd i £23.6 miliwn (2021-22 £19.8 miliwn). Mae gweddill y benthycia allanol yn y mesuriad hwn yn cynnwys rhwymedigaethau wedi'u sicrhau a chyllid Salix di-log i ariannu prosiectau effeithlonrwydd ynni'r Brifysgol ac, yn fras, nid yw wedi newid dros y cyfnod. Mae'r Brifysgol yn monitro'n drylwyr ei rhwymedigaethau dyled a sut mae'n cydymffurfio â chyfamodau er mwyn sicrhau bod y cwbl yn cael eu bodloni drwy gydol cyfnod yr adroddiad a'r tu hwnt. Mae'r benthycia allanol ar 48.5% o'r incwm o fewn targedau'r Brifysgol ond bydd y mesur hwn yn cael ei fonitro'n barhaus trwy'r mecanweithiau adrodd presennol.



Effeithlonrwydd

Costau staff yw'r elfen unigol fwyaf o gostau'r grŵp o bell ffordd. Yn 2022-23, £72.8 miliwn oedd costau staff y grŵp a gofnodwyd (ac eithrio addasiadau costau staff USS (2021-22 £70.4 miliwn)). Mae'r cynnydd disgwylid i gostau staff, ochr yn ochr â chynnydd arfaethedig i'r incwm gweithredol, yn golygu bod costau staff fel canran o incwm yn aros yn fras heb newid yn 2022-23 ar 54.8%. Mae'r ffigur hwn yn faromedr o effeithlonrwydd a chynaliadwyedd y sefydliad ac mae o fewn targedau'r Brifysgol ar hyn o bryd.

Mae amgylchedd gweithredu prifysgolion yn dal i fod yn heriol ac mae'r farchnad o ran denu myfyrwyr yn ansicr ac yn hynod gystadleuol. Cynyddodd nifer y myfyrwyr yn 2022-23 ond roedd yn is na'n targedau. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023-24, roeddem wedi cynllunio ar gyfer twf yn nifer y myfyrwyr unwaith eto. O ganlyniad i'r ffaith nad yw'r twf hwnnw wedi'i gyrraedd, mae cyfres o gamau rheoli a chymau cyfyngu ar gostau yn cael eu cymryd i sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni ei chyllideb. Rydym wedi tynnu sylw uchod at y gwelliant yng nghanran yr ymchwil sydd o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol. Er bod hynny'n wych, disgwylir y bydd cyfran y Brifysgol o gyfanswm yr incwm o grantiau ymchwil CCAUC yn gostwng yn sylweddol yn y dyfodol. Mae cyllid y grantiau ymchwil ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023-24 wedi'i ddiogelu i raddau helaeth trwy gyllid lliniaru - er i raddau llai na'r sefyllfa yn 2022-23 - ond bydd angen cymryd camau i liniaru'r effaith yn y tymor hwy wrth i'r Brifysgol fynd ati i gynyddu ei gweithgareddau ymchwil.

Incwm



Fe ddenodd y Brifysgol fwy o fyfyrwyr yn 2022-23 nag yn 2021-22 ac arweiniodd hynny at gynnydd yn yr incwm o ffioedd dysgu £2.9 miliwn. Roedd y grantiau ymchwil a gafwyd a'r ffiniau ariannol cysylltiedig hefyd yn uwch na'r flwyddyn gynt, yn cynyddu £4.8 miliwn (21.5%). Deilliodd y gostyngiad mewn incwm arall o'r gostyngiad mewn grantiau refeniw eraill. Serch hynny, roedd llawer o symudiadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn, yn bennaf yn incwm o lety myfyrwyr, a gynyddodd £0.7 miliwn, a hynny oherwydd bod y niferoedd sy'n derbyn llety wedi dychwelyd i'r lefel cyn y pandemig, ac oherwydd bod taliadau blynyddol wedi cynyddu'n unol â chwyddiant, ynghyd â mwy o weithgarwch mewn cyfleusterau masnachol a cynadledda eraill. Fe wnaeth Canolfan y Celfyddydau a Ffermydd y Brifysgol hefyd gynhyrchu £0.6 miliwn ychwanegol o'i gymharu â 2021-22 o ganlyniad i'r cynnydd yn y gweithgarwch a'r rhaglennu, ac oherwydd bod prisiau llaeth y Ffermydd wedi cynyddu drwy chwyddiant. Mae'r incwm a gafwyd oddi wrth gyrff cyllido yn cyd-fynd â lefelau 2020-21, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y lefel wedi dychwelyd i'r lefel ddisgwylidig arferol ar ôl y cymorth ariannol ychwanegol a gafwyd yn ystod pandemig COVID-19. Yn rhan o'r broses gyllidebu, mae'r Brifysgol wedi llunio cynlluniau ariannol ar gyfer y rhan fwyaf o symudiadau mewn incwm ac felly mae'r rhain yn fras yn unol â disgwyliadau'r gyllideb, gan gydnabod bod y Brifysgol yn sefydliad mawr a chymhleth ac fe fydd y sefyllfa wrth reswm yn amrywio i raddau. Mae ein gweithgareddau wedi'u cynllunio fel y bydd newidiadau yn yr incwm yn dal i gyfateb â gostyngiadau angenrheidiol yn y costau, gyda'r nod o sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn unol â'r Cynllun Strategol cyffredinol.



Gwariant

Roedd y Brifysgol wedi dal ati i reoli ei sylfaen o gostau yn ofalus yn 2022-23, yn gyfrannol â'r incwm a gynhyrchwyd, gan adeiladu ar sylfaen cynnydd y blynyddoedd diweddar a mireinio rhai elfennau allweddol. Mae proses gadarn a heriol er mwyn gosod y gyllideb, sy'n gysylltiedig â phwyslais ar weithgareddau datblygu, yn cefnogi'r amcan hwnnw o hyd. Yn 2022-23 mae'r Brifysgol wedi llwyddo, yn fras, i fantoli'r sylfaen costau yn gyfrannol â'r incwm a gynhyrchwyd, er bod angen gwneud rhai gwelliannau busnes o hyd. Mae'r costau staffio wedi cynyddu tua £2.3 miliwn (3.2%) o'u cymharu â'r flwyddyn gynt, sy'n deillio o ddyrchafiadau a dyfarniadau cyflog yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r ffaith bod costau staffio'r llety a'r safleoedd masnachu wedi cynyddu wrth i'r meysydd hynny ddychwelyd i'w gweithgarwch arferol. Ymgwymerwyd â rhai newidiadau hefyd i wella effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r portffolio academaidd cytbwys, gyda chefnogaeth y gwasanaethau proffesiynol, yn galluogi sefydlogrwydd o ran gwariant. Drwy ddefnyddio sefydliad y staff yn ystod 2022-23, mae'r amgylchedd rheoli hwnnw wedi ymsefydlu. Mae gwariant ymchwil wedi cynyddu £3.7 miliwn o'i gymharu â 2021-22, sy'n adlewyrchu'r cynnydd uchod yn yr incwm. Mae cyfraniad yr ymchwil at ei gilydd wedi aros yn gyson, gydag ychydig o gynnydd yn 2022-23, er gwaethaf yr heriau yn sgil lleihau cyllid o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheolaeth lem hefyd ar y gwariant ar nwyddau treuliadwy, sydd wedi'i hwyluso gan adolygiadau trylwyr ar gyllidebau, yn ogystal â defnyddio gwybodaeth rheoli 'amser go iawn' i ddeiliaid cyllidebau, sy'n deillio o'r system adrodd ariannol. Bwriad y Brifysgol oedd torri ar wariant er mwyn rheoli effaith gyffredinol colli ffioedd ond cynyddodd costau adeiladau (cyfleustodau), sef cynnydd sylweddol £1 miliwn ar 2021-22 ac ar Ffermydd y Brifysgol, £0.8 miliwn o gynnydd ar 2021-22, y ddau wedi'u gyrru gan chwyddiant. Chwyddiant a chynnydd mewn llog hefyd a arweiniodd at gynnydd yn ein costau 'Llog a Chyllid Arall'. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod bod heriau o hyd wrth reoli sylfaen costau gweithrediadau penodol ac mae wedi datblygu cynlluniau gweithredu strategol i dargedu'r meysydd hynny. Bydd hyn, ynghyd â'r strategaeth gorfforaethol i gynyddu poblogaeth y myfyrwyr mewn modd cynaliadwy, yn sbarduno'r gwelliant yn y perfformiad ariannol yn y dyfodol.



Y Fantolen

Mae asedau net cyfunol y Brifysgol wedi cynyddu £9 miliwn o'r hyn a gofnodwyd yn 2021-22. Y symudiad mwyaf arwyddocaol yw'r £11.7 miliwn o ostyngiad yn y ddarpariaeth bensiwn. Mae hyn yn gyfuniad o gwmp yn rhwymedigaeth yr USS ar sail y rhagdybiaethau presennol a'r enillion actiwaraid ynghylch CPAPA a chynlluniau'r awdurdod lleol. Mae credydwy'r hirdymor wedi cynyddu £2.0 miliwn ers 2021-22 sy'n deillio o dderbynion grantiau cyfalaf gohiriedig sy'n ymwneud â phrosiect yr Hen Goleg, sy'n uwch na'r gost amorteiddio flynyddol. Mae asedau anghyfredol wedi cynyddu £1.8 miliwn ar ôl cynnal ailbrisiad o eiddo buddsoddi'r Brifysgol.

£ miliwn	Asedau sefydlog	Buddsoddiadau	Banc ac arian parod	Credydwy'r hirdymor	Rhwymedigaeth pensiynau
2022-23	250.3	33.3	8.2	133.6	50.0
2021-22	250.2	34.4	8.1	131.6	61.7
	↑	↓	↑	↑	↓

Buddsoddiadau Cyfalaf

Cynyddwyd buddsoddiadau'r Brifysgol yn ei hystadau, ei hadnoddau a llety'r myfyrwyr yn 2022-23 wrth i waith ar Brosiect yr Hen Goleg gyflymu. Dechreuodd y gwaith adnewyddu yng ngwanwyn 2022 ond cynyddodd yn sylweddol yn chwarter olaf 2022-23 ac i mewn i 2023-24. Ar hyn o bryd rhagwelir mai £34.0 miliwn fydd cyfanswm cost yr ailddatblygiad a disgwylir i'r cyfnod adeiladu barhau tan hydref 2025. Bydd y prosiect yn rhoi bywyd newydd i bresenoldeb hanesyddol y Brifysgol ar lan y môr, ac fe sicrhawyd cyllid eisoes oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru, mentrau codi arian, a buddsoddiadau a glustnodwyd gan y Brifysgol ei hun.

Yn ystod y flwyddyn gwariwyd £14.3 miliwn (2021-22 £11.4 miliwn) ar fuddsoddi yn yr isadeiledd, adeiladau ac mewn offer ar draws y grŵp. Gwnaed £4.4 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ym mhrosiect yr Hen Goleg, gan gynnwys prynu adeilad cyfagos Y Cambria, yn 2022-23 (2021-22 £1.7 miliwn). O ganlyniad i'r gwaith llwyddiannus i sicrhau bod hawliadau'r Brifysgol i gyllidwyr allanol wedi'u diweddarau fe gafwyd £4.6 miliwn o dderbyniadau grantiau cyfalaf yn ymwneud â'r prosiect yn 2022-23. Mae'r Brifysgol wedi parhau â'i buddsoddiadau mewn prosiectau sy'n anelu at leihau ôl-troed carbon ei gwaith ac at gyrraedd ei tharged gwirfoddol o fod yn garbon-niwtral erbyn 2030. Gwnaed cam sylweddol tuag at y nod hwn drwy gwblhau'r gwaith ar yr arae solar ar dir y Brifysgol yn 2022-23. Gwariwyd y £0.4 miliwn olaf yn 2022-23, gyda'r paneli solar yn dechrau gweithio'n llawn ym mis Chwefror 2023. Ariannwyd y rhan fwyaf o gostau'r prosiect £2.9 miliwn trwy gyllid Salix di-log. O gyfanswm y gwariant cyfalaf, mae £2.5 miliwn (2021-22 £2.2 miliwn) yn ymwneud ag offer ymchwil newydd y talwyd amdanynt yn llawn drwy grantiau. Mae'r £7 miliwn sy'n weddill o'r gwariant cyfalaf yn ystod 2022-23 yn ymwneud â buddsoddiadau strategol yn y campws a'i adnoddau, i gynnal gwelliannau yn yr adeiladau a'r isadeiledd corfforol a thechnolegol.

Er mwyn cefnogi'r buddsoddiad mewn adnoddau ac i gynorthwyo ag ailgyflenwi'r arian wrth gefn, cymeradwyodd Cyngor y Brifysgol strategaeth ddatfuddsoddi ym mis Tachwedd 2023. Daeth y strategaeth o hyd i asedau ychwanegol oedd gan y Brifysgol, a oedd yn werth tua £7.3 miliwn yn ôl yr amcangyfrif o'u gwerth yn ôl y farchnad, asedau nad oeddynt yn ddefnyddiol bellach neu nad oeddent bellach yn cyfrannu at weithgarwch craidd y Brifysgol. Y nod yw rhesymoli'r ystad a naill ai ailgyfeirio'r cyfalaf at fentrau newydd, neu gronni'r arian parod wrth gefn. Mae'r asedau hyn yn ychwanegol at y rhai sydd heb eu gwerthu o hyd o'r cam gwaredu blaenorol, a gymeradwywyd ym mis Mai 2022, sy'n werth tua £6.3 miliwn yn ôl y farchnad. Felly, ar draws y ddau gam hyn mae'r brifysgol wedi clustnodi asedau i'w gwerthu sydd, yn ôl yr amcangyfrif o'u gwerth ar y farchnad, yn werth cyfanswm o £13.6 miliwn. Ar y dyddiad llofnodi, nid oedd yr un o'r asedau dan sylw wedi'u gwerthu, ond derbyniwyd sawl cynnig i asedau gwerth cyfanswm o tua £2.2 miliwn wedi'u gwerthu yn amodol ar gontract. Disgwylir cynnydd pellach yn y maes hwn yn ystod 2023-24.

Buddsoddiadau

Dros gyfnod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023, roedd hi'n gychwyn anodd i'r flwyddyn i fuddsoddiadau'r Brifysgol a'r gwaddolion, ac roeddent yn wynebu ansicrwydd cynyddol, oherwydd pryderon ynghylch chwyddiant parhaus a'r problemau economaidd byd-eang. Er gwaethaf hyn, roedd asedau twf yn dal eu tir yn dda dros y cyfnod. Y rhannau o'r portffolio a berfformiodd orau oedd Ecwiti Preifat (14% o adenillion) ac Ecwiti'r DU (8.5% o adenillion). Y rhannau o'r portffolio a berfformiodd waethaf oedd Giltiau Cysylltiedig â Mynegai (20% o golled). Cynyddodd cynnyrch y Gilt yn sylweddol ar ddechrau'r flwyddyn ar ôl y cyhoeddiadau'r fân-gyllideb ym mis Medi 2022 ac maent wedi parhau'n uchel ers hynny, gan arwain at adenillion negyddol mawr.

Arian parod ac adneuron byrdymor

Roedd hylifedd y Brifysgol (asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net) erbyn mis Gorffennaf 2023 yn dal i fod yn negyddol ar (£8.4) miliwn. Mae hyn yn £2.3 miliwn yn waeth na'r £6.1 miliwn a gofnodwyd ym mis Gorffennaf 2022 er bod y Gymhareb Gyfredol (asedau cyfredol: rhwymedigaethau cyfredol) wedi aros yn gyson ar 0.8. Nid yw hyn yn cyd-fynd â thargedau mewnol y Brifysgol ac mae heriau gweithredol wedi effeithio'n andwyol ar y sefyllfa yn ystod y flwyddyn, yn enwedig pwysau costau, a'r datfuddsoddi strategol ar asedau gwerth tuag £1 miliwn a gynlluniwyd ar gyfer 2022-23 yn rhedeg ymlaen i 2023-24. Mae'r Brifysgol wedi canfod asedau gwerth £13.6 miliwn, yn ôl yr amcangyfrif o brisiau'r farchnad, i'w gwaredu wrth iddi sicrhau bod ei hystâd yn cyd-fynd â'i chyfeiriad strategol. Er y bydd y rhesymoli hwn yn lleihau asedau sefydlog y Brifysgol, bydd hefyd yn gwella'r sefyllfa arian parod a hylifedd a gofnodir, yn ogystal â chynorthwyo mewn cyfnod lle mae pwysau sylweddol ar lifoedd arian parod gweithredol y Brifysgol.

Mae'r llif arian parod gweithredol net, sef (£4.0 miliwn) (2021-22 £5.0 miliwn) yn sylweddol is na'r hyn y cyllidebwyd amdano. Er bod gwahaniaethau amseru wedi effeithio'n andwyol ar hyn, ac er bod £3.8 miliwn o gynnydd pellach yn nyledwyr y Grŵp, mae pwysau costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn wedi arwain at llifoedd arian parod gweithredol sy'n sylweddol is na'r targedau. Yn amlwg, nid yw hyn yn gynaliadwy, a bydd y Brifysgol yn cynnal adolygiad cynhwysfawr ar effeithlonrwydd gweithredol ac ar adennill symiau materol derbyniadwy ar gyfer 2023-24 a'r tu hwnt.

Mae Adnodd Credyd Cylchdroi wedi galluogi'r Brifysgol i ymdrin ag ansicrwydd cynlluniedig a byrdymor ym mhroffil ei llif arian parod. Ym mis Tachwedd 2020, cynyddodd y Brifysgol gyfanswm y cyllid sydd ar gael trwy'r Adnodd Credyd Cylchdroi o £10 miliwn i £15 miliwn o dan Gynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (CLBILS). Er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethau amseru niweidiol sylweddol yn ymwneud â gwaredu asedau ac adennill o ddyledwyr, roedd y Brifysgol wedi defnyddio £10 miliwn o'r adnodd credyd erbyn mis Gorffennaf 2023, llawer mwy na'r £3 miliwn a ddefnyddiwyd erbyn mis Gorffennaf 2022. Mae'r adnodd hwn yn cynorthwyo â gwahaniaethau amseru arian parod byrdymor yn unig ac nid yw'n gyllid benthycig sicredig hirdymor. Daeth adnodd benthycig CLBILS, gwerth £5 miliwn, i ben ym mis Tachwedd 2023. Mae'r Brifysgol wedi adolygu'r capasiti benthycig sydd ei angen arni, i hwyluso proffiliau llif arian gweithredol hysbys a gwahaniaethau amseru llif arian sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf materol a rhai a ariennir yn allanol, megis yr Hen Goleg. Ar sail ei hanghenion benthycig disgwylidig, mae'r Brifysgol yn cydgrynhoi capasiti presennol yr adnodd benthycig cylchdroi, sef £15 miliwn, mewn un cynnyrch a estynnir am dair blynedd arall, gyda'r opsiwn i'w adnewyddu am 12 mis arall.

Cafodd y cytundeb hwn ar yr adnodd benthycig cylchdroi ei lofnodi a'i gwblhau gan y ddau barti ar 18 mis Ionawr 2024. Mae natur busnes y grŵp yn golygu bod cryn amrywio yn gallu digwydd, nad oes modd ei ragweld, yn amseriad mewnlfidiadau arian parod. Mae'r Cyngor wedi paratoi gwybodaeth ragamcanol ar y llif arian parod i asesu'r gallu i weithredu fel busnes parhaus o leiaf dros y cyfnod 12 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar sail y wybodaeth hon am y llif arian parod a'r trafodaethau â bancwyr y grŵp, mae'r Cyngor o'r farn y bydd y grŵp yn parhau i weithredu o fewn yr adnodd y cytunwyd arno, gan nodi nad oes ffin ariannol fawr rhwng yr adnodd a'r gofynion.

Mae'r Brifysgol yn cynnal monitro trylwyr ar ei balansau a'i hymrwymiaadau arian parod drwy adroddiadau a rhagolygon misol a chwarterol. Yn y modd hwn mae risgiau'n cael eu hamlygu a'u rheoli. Yn ystod 2022-23, gostyngodd effaith COVID-19 ar waith y Brifysgol ymhellach. Serch hynny, mae pwysau economaidd sylweddol fel costau ynni, chwyddiant ehangach a chyfraddau llog uwch yn dal i fod yn her i'r Brifysgol ac i'r sector yn ei chyfanrwydd. Disgwylir i'r heriau hyn barhau i fod yn berthnasol yn 2023-24 a'r tu hwnt, sy'n golygu y bydd y Brifysgol yn mynd ati i reoli ei sefyllfa arian parod byrdymor drwy adolygu ei chapasiti a'i gofynion benthycig,

reoli ei chyfalaf gweithio, yn enwedig y symiau derbyniadwy, a dal ati i resymoli ei hystâd i gyd-fynd â'i chyfeiriad strategol craidd. Disgwylir y bydd gostyngiad sylweddol disgwylidig yng nghyfraniadau'r cyflogwr at yr USS, yn deillio o'r adolygiad teirblyneddol diweddar, yn lliniaru'r sefyllfa hefyd.

Prif faterion risg ac ansicrwydd

Mae proses rheoli risg y Brifysgol yn cydnabod nifer o feysydd risg, gan gynnwys: risgiau strategol corfforaethol, sef nodi'r risgiau mwyaf arwyddocaol o ran cyflawni amcanion y Brifysgol; y risgiau gweithredol, a allai effeithio ar waith y sefydliad o ddydd i ddydd; a'r risgiau cysylltiedig â'r prosiectau datblygu mawr, sy'n nodi'r risgiau sy'n effeithio ar raglen buddsoddi cyfalaf y Brifysgol. Cofnodir pob cofrestr risg mewn adnodd ar-lein er mwyn hwyluso gwaith y rheolwr wrth oruchwylio a nodi'r risgiau cysylltiedig. Mae risgiau corfforaethol yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac yn cael eu hadolygu gan y Corff Llywodraethu. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad manwl ar reoli risg ym mhob un o'i gyfarfodydd. Cofnodir cofrestrau risg ar gyfer pob adran academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol yn yr un adnodd ar-lein ac maent yn cael eu monitro ar lefel y cyfadranau. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23, mae'r Brifysgol wedi dal i fonitro targedau sgoriau risg er mwyn canolbwyntio ar gofnodion risg lle y gall fod angen gwaith lliniaru pellach. Mae'r effeithiau posib hyn wedi'u cynnwys yn y cofnodion risg fel y bo'n briodol. Mae denu myfyrwyr yn fater allweddol o hyd, yn enwedig yn rhyngwladol, lle mae digwyddiadau byd-eang wedi peri mwy o ansicrwydd ynghylch niferoedd myfyrwyr ac incwm o ffioedd. Mae mwy o sylw yn cael ei roi i'r bygythiad i seiberddiogelwch ac mae materion sy'n ymwneud â lles meddyliol a phrofiad y myfyrwyr yn destun cryn weithgaredd a sylw.

Mae'r prif risgiau i'r Brifysgol, a sut maent yn cael eu lliniaru, i'w gweld yn y tabl isod:

Maes y Risg	Disgrifiad y risg	Lliniaru Risg
Denu Myfyrwyr	Mae'r Brifysgol yn methu â denu a chadw digon o fyfyrwyr.	Mae'r Brifysgol yn cynllunio ar gyfer y galw ac mae ganddi strategaethau ar waith i ddenu myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar ardaloedd allweddol yng Nghymru a gweddill Prydain, gan ddatblygu rhwydweithiau rhyngwladol yn ogystal â chysylltiadau cryfion ag ysgolion lleol. Mae'r Brifysgol yn adolygu ei phortffolio'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn dal i ddiwallu gofynion myfyrwyr a chyflogwyr.
Cynaliadwyedd a chyllid	Mae newidiadau i'r drefn ariannu prifysgolion o ffynonellau cyhoeddus, gan gynnwys effeithiau ffioedd myfyrwyr sy'n aros yn ddigyfnewid, a'r drefn ariannu ymchwil, yn peri cryn ansicrwydd i'r cynlluniau a'r rhagolygon ariannol. Mae costau uwch yn y gadwyn gyflenwi ehangach ac ym mhrisiau ynni yn creu mwy o bwysau.	Mae'r Brifysgol yn cynllunio'n ochelgar ac mae wedi ymgorffori dadansoddiadau sensitifrwydd manwl o'r tybiaethau incwm yn ei rhagolygon ariannol, ynghyd â chamau rheoli effeithiol ar ei chostau. Mae'r cynlluniau ariannol i'r tymor canolig yn dangos sefyllfa weithredol sy'n gwella.
Seiberddiogelwch	Methu ag atal ymgais i amharu ar ein seiberddiogelwch.	Mae gan y Brifysgol drefniadau seiberddiogelwch achrededig, gan gynnwys rheolaethau technegol canolog, polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant gorfodol i'r staff. Mae'r cyfan yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd.
Addysg a phrofiad y myfyrwyr	Lefelau uchel o fyfyrwyr yn tynnu'n ôl oherwydd cynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth sy'n deillio o broblemau iechyd meddwl, lles a phwysau ariannol wrth i gostau byw gynyddu.	Mae adolygiad allanol ar gamau i ddarparu cymorth i fyfyrwyr wedi'i gynnal gyda chynllun gweithredu ac argymhellion yn cael sylw, gan gynnwys camau i ymgorffori lles yn y cwricwlwm. Mae cyfres o gamau yn cael eu cymryd i gynorthwyo myfyrwyr a staff sydd â phryderon ynghylch costau byw.
Enw da	Mae'r Brifysgol yn methu â chynnal ei henw da rhyngwladol am ansawdd ei dysgu a'i hymchwil.	Mae'r Brifysgol yn gwneud buddsoddiadau sylweddol ym mhrofiad y myfyrwyr ac mewn ymchwil o safon fyd-eang. Mae'r llwyddiant yn y tablau, y Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, gan gynnwys y FfRhY diweddaraf yn 2021, yn dyst i effeithiolrwydd strategaethau'r Brifysgol.
Rheoli costau a chwyddiant cyffredinol	Mae'r Brifysgol yn methu â rheoli cyllidebau mewn ymateb i gostau cynyddol o ganlyniad i chwyddiant.	Fel sy'n wir i'r rhan fwyaf o sefydliadau, mae chwyddiant cyffredinol yn bryder parhaus i'r Brifysgol, yn enwedig o ran cyfleustodau a chostau mewnbyn ym manau masnachu a Ffermydd y Brifysgol. Darparwyd ar gyfer costau cyflogaeth, gan gynnwys dyfarniadau cyflog a chyfraniadau pensiwn, yn y cyllidebau. Yn yr un modd, mae manau lle mae pwysau chwyddiant sylweddol yn gyffredin hefyd wedi cael sylw, a'r mwyaf amlwg ohonynt yw costau ynni.
Rheoli byrdymor ar lif arian parod	Mae pwysau gweithredol yn lleihau'r daliadau o arian parod a'r cyfalaf gweithio sydd ar gael i fodloni rhwymedigaethau byrdymor.	Mae'r Brifysgol yn cynnal monitro cadarn ar ei sefyllfa arian parod yn y tymor byr i'r tymor canolig, ac ar rhwymedigaethau sydd yn yr arfaeth ac unrhyw wahaniaethau amseru niweidiol (neu ffafriol) er mwyn gallu cymryd camau lliniaru. Bydd y Brifysgol yn mynd ati i geisio gwella ei sefyllfa arian parod byrdymor trwy adolygu ei gofynion benthycig, rheoli ei symiau derbyniadwy materol a datblygu ei strategaeth gwaredu asedau.

Cynaliadwyedd, cyfleoedd ariannol yn y dyfodol ac ystyriaethau o’r sail busnes parhaus

Mae cynllunio ariannol hirdymor y Brifysgol at y blynyddoedd hyd at 2027-28 wedi’i seilio ar ddarparu rhagoriaeth i fyfyrwyr. Mae Aberystwyth yn dal ati i fireinio ei gwaith marchnata a denu myfyrwyr, sef myfyrwyr o Brydain a rhai rhyngwladol fel ei gilydd. Mae ein strategaethau wedi’u seilio ar ddatblygu portffolio o raglenni o ansawdd uchel a chanddynt hunaniaethau clir; ar feithrin perthynas dda â’n hysgolion bwydo; ac ar gyswllt unigol a chefnogol â’n hymgeiswyr. Y blaenoriaethau sy’n darparu’r sylfaen i’r elfen o dyfiant yn ein cynlluniau yw sefydlu darpariaeth dysgu sy’n gyson ragorol ac adran flaenllaw ar gyfer marchnata a denu myfyrwyr. Mae’r ddwy flaenoriaeth hyn wedi’u hymgorffori yn ein Strategaeth Gorfforaethol at y dyfodol, ac rydym yn dal ati i adolygu gweithgareddau dysgu a denu myfyrwyr ym mhob un o adrannau’r Brifysgol.

Roedd nifer y myfyrwyr a dderbyniwyd ym Medi 2022 yn is na’r disgwyl yn y gyllideb, ond yn uwch na 2020-21. Mae nifer y myfyrwyr wedi tyfu. Disgwylir y bydd hyn yn parhau yn 2023-24 ond ar raddfa is na’r hyn a ragwelwyd. Ein hamcanion strategol yw sicrhau bod Prifysgol Aberystwyth yn gyrchfan i fyfyrwyr lle y gallant fyw a dysgu mewn amgylchedd eithriadol. Mae ein dealltwriaeth a’n modelu busnes yn cefnogi’r rhagdybiaeth honno, a ddangosir gan y cynnydd yn nifer y ceisiadau, o’i gymharu â chylchoedd cofrestru blaenorol. Mae’r Brifysgol yn dal i wneud buddsoddiad mawr yn ei hystadau, a fydd yn cael effaith ar ei sefyllfa ariannol yn y dyfodol.

Er bod hylifedd wedi’i gynnal o hyd, ac er bod y Brifysgol wedi cynyddu’r gweddill arian parod ychydig yn 2022-23, mae mesuriadau a pherfformiad yn y maes hwn yn amlwg y tu ôl i dargedau uchelgeisiol y Brifysgol. Gellir rheoli’r effaith tymor byr trwy gynnal adolygiad ar raglen gyfalaf nad yw’r Brifysgol wedi ymrwymo iddi a thrwy ddal ati i resymoli tir ac adeiladau’r Brifysgol, adfer symiau derbyniadwy mwyaf sylweddol y Grŵp, a chynnal asesiad systematig ar y benthyca byrdymor sydd ar gael i’r Brifysgol. Ategir hyn gan y gostyngiad sylweddol disgwylidig yng nghyfraniadau’r cyflogwr i USS sy’n deillio o’r adolygiad teirblynyddol diweddaraf. Serch hynny, mae’n amlwg o hyd fod angen cyflawni’r twf a ragwelir a’r perfformiad ariannol cysylltiedig dros y cyfnod cynllunio er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ac iechyd ariannol hirdymor.

Mae ein rhagolygon ariannol yn dangos tirwedd gyllidebol dynn, gyda chyllideb y Brifysgol dan bwysau marchnad gystadleuol iawn am fyfyrwyr, chwyddiant prisiau, ac yn dangos bod angen arbedion effeithlonrwydd costau pellach. Yn ei rhagolygon, mae’r Brifysgol wedi cynnwys cyflogau uwch, cynnydd i’r gwir gyflog byw a gostyngiad yn y cyfraniadau pensiwn gan y cyflogwyr sy’n deillio o’r prisiad diweddaraf. Mae’r Brifysgol yn aelod o nifer o gynlluniau pensiwn (gweler nodyn 29) ac mae rhywfaint o risg yn gysylltiedig â chanlyniadau’r prosesau prisio. O ystyried yr elfennau hyn o ansicrwydd sylweddol, mae’n dal yn bwysig bod strategaeth ariannol y Brifysgol yn sicrhau gwell perfformiad ariannol a darparu model busnes cynaliadwy sy’n canolbwyntio ar effeithlonrwydd gweithredol, arallgyfeirio ffrydiau incwm a buddsoddi mewn asedau strategol. Bydd yn dal ati i reoli’r gwariant yn ofalus, yn enwedig y gwario a wneir er mwyn cael asedau sefydlog, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â’r rhagamcanion cynllunio cyfalaf.

Bydd y pwyslais parhaus ar gyflawni amcanion y Cynllun Strategol yn parhau i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor trwy ddenu myfyrwyr i astudio ar bob lefel yn y Brifysgol. Yn y cyd-destun economaidd ehangach, fe gawn amseroedd heriol yn y dyfodol. Serch hynny, gyda’n rheolaeth gadarn barhaol, mae’r Brifysgol yn hyderus y bydd yn llwyddo i wneud cynnydd yn ei chynlluniau strategol, ac yn cyflawni ei hamcanion. Yn rhan o’r modd y mae’n ymdrin â chynaliadwyedd ariannol, mae’r Brifysgol yn cynnal adolygiadau gwariant manwl ac mae ganddi gyfundrefn ar waith i fonitro’r gyllideb. Mae ymrwymadau ariannol ychwanegol wedi’u hadolygu a’u lleihau yn ôl yr angen, megis gwneud rhywfaint o’r gwariant cyfalaf mewn camau. Yn ystod 2022-23, parhaodd y Brifysgol ag adolygiad strategol cynhwysfawr o’i gweithgareddau caffael, a allai drawsnewid sut mae’r Brifysgol yn prynu nwyddau a gwasanaethau, ynghyd â gwreiddu arbedion cynaliadwy hirdymor. Mae Gweithrediaeth a Chorff Llywodraethu’r Brifysgol yn cynnal goruchwyliaeth fanwl ar y sefyllfa ariannol a’r llifoedd arian parod, ac yn ystyried unrhyw gamau lliniaru. Ystyriir cyfleoedd ychwanegol i gynhyrchu refeniw, rheolaethau angenrheidiol ar gostau, rheolaeth ar arian parod ac opsiynau ariannu. Mae proses gynllunio integredig yn cael ei hadolygu a’i diweddarau er mwyn modelu’r incwm o ffoedd, y twf yn nifer y myfyrwyr a’r gweithgarwch ymchwil, ynghyd â’r gofynion cysylltiedig o ran y seilwaith dros y gorwel cynllunio hirdymor.

Mae’r rhagolygon ariannol yn ansicr o hyd a bydd 2023-24 yn heriol, wrth i ni reoli diffyg o ran niferoedd myfyrwyr yn ôl yr hyn y cyllidebwyd amdano, a’r costau ychwanegol a ddaw yn sgil pwysau chwyddiant a’r argyfwng costau byw. Fel y rhan fwyaf o brifysgolion, mae Aberystwyth yn agored i’r risg hon, yn enwedig o ran denu myfyrwyr a gweithgareddau masnachu. Serch hynny, mae ein modelu rheoli ariannol ac arian parod, gan gynnwys sefyllfaoedd posib sy’n ystyried risg colledion, yn dangos bod y Brifysgol yn dal i allu bodloni ei hymrwymadau ariannol.

Ar sail y dangosyddion uchod, mae’r cyfarwyddwyr yn credu ei bod hi’n dal i fod yn briodol paratoi’r datganiadau ariannol ar sail barhaus.

Simon Crick
Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio

Kate Eden
Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad

Datganiad o’r Budd Cyhoeddus

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig (Rhif 1145141) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu nodau ac amcanion y Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar y budd cyhoeddus a’r canllawiau ategol i elusennau a sefydlwyd at ddibenion addysgiadol.

Ers 1872 mae’r Brifysgol yn hybu rhagoriaeth mewn ymchwil a dysgu o dan ei harwyddair, ‘Nid byd, byd heb wybodaeth’. Anelwn at helpu’r myfyrwyr i allu datblygu eu hawch am ymholi academaidd, dysg a datblygu personol sy’n para gydol oes ac sy’n trawsnewid bywydau. Rydym yn rhoi gwerth ar arloesedd a rhagoriaeth mewn ymchwil ym mhob maes a disgyblaeth, ac yn annog gwaith ar draws y disgyblaethau er mwyn ymdrin â heriau byd-eang. Anelwn at chwalu’r meini tramgwydd sy’n rhwystro pobl rhag gallu manteisio ar addysg ac rydym yn cydweithio’n agos â’r gymuned er mwyn sicrhau bod y drysau i’n darpariaeth yn cael eu hagor yn lletach.

Dysgu

Ein cenhadaeth greiddiol yw cynhyrchu graddedigion hyddysg, medrus a hyderus sydd wedi’u paratoi’n drylwyr i fyd gwaith ac i waith y byd. Rydym yn gwneud hynny drwy ddarparu dysgu rhagorol ar draws 19 adran academaidd craidd a thrwy ymgorffori cyflogadwyedd, sgiliau trosglwyddadwy a materion dinasyddiaeth fyd-eang yn ein cwricwlwm.

Rydym yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau ar gyfer dysgu yn y gymuned, sy’n cynnwys darpariaeth eang o gyrsiau dysgu gydol-oes mewn ieithoedd, yn y gwyddorau, y celfyddydau a’r dyniaethau, ar gampws y Brifysgol ac mewn lleoliadau cymunedol ar draws Cymru, yn ogystal â phortffolio o gyrsiau rhan-amser, mân-gymwysterau, a chyrsiau undydd. Cydnabyddwn ein dyletswydd arbennig i annog pobl i fanteisio ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ac i hybu’r Gymraeg, ac rydym yn chwarae rhan weithredol wrth annog myfyrwyr Cymraeg i ddilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r Ysgol

Filfeddygaeth gyntaf yng Nghymru wedi ymsefydlu erbyn hyn ac rydym yn cyfrannu at hyfforddiant nyrsiau’r dyfodol ar ôl i ni lwyddo i ddatblygu Canolfan Addysg Iechyd ar y campws.

Daw hyn i gyd ar sylfaen y ganmoliaeth barhaus y mae’r Brifysgol yn ei chael am Fodlonrwydd ei Myfyrwyr yn nhablau cynghrair y DU a’r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr.

Ymchwil

Mae gennym hanes hir ac anrhydeddus o ymgymryd â gwaith ymchwil blaenllaw sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, gan ymchwilio i’r prif heriau sy’n wynebu cymdeithas, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a’r amgylchedd, anghydraddoldeb byd-eang, ymchwil i’r gofod, economeg ryngwladol, deallusrwydd artifisial a hunaniaethau diwylliannol. Rydym wrthi’n ymsefydlu fel canolfan ar gyfer ymchwil gydweithredol â busnesau drwy ein campws newydd, y Campws Arloesi a Menter, ArloesiAber. Mae ein gwaith i feithrin cyswllt y gymuned â’n gwaith ymchwil yn cynnwys rhaglenni iechyd a lles, gweithdai roboteg, a darlithoedd cyhoeddus.

Ehangu Mynediad

Mae ein dull ni o agor y drysau i addysg uwch yn lletach yn dechrau’n gynnar; rydym yn gweithio gydag ysgolion a chymunedau ledled Ceredigion, Cymru a Lloegr i godi uchelgais ac annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch i fanteisio arni, ac annog myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn Aberystwyth i’w gwneud hi’n brif ddewis iddynt.

Bob blwyddyn mae’r Brifysgol yn cynnal Wythnos Wyddoniaeth ar gyfer disgyblion o bob rhan o’r Canolbarth; yno mae israddedigion, uwchraddedigion ac academyddion yn helpu i danio eu diddordeb yn y gwyddorau a thechnoleg. Mae hyn yn ategu’r gwaith y mae ein tîm estyn-allan yn ei wneud mewn ysgolion ledled y wlad. Mae’r gwaith a wneir i wneud addysg uwch yn fwy agored i grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli yn Aberystwyth ac ar draws y sector yn ehangach yn cyd-fynd yn fwy cyffredinol ag ymrwymiad ehangach y Brifysgol i gydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant.

Mae’r Brifysgol yn darparu ystod o fwrsariaethau, ysgoloriaethau a gwobrau i israddedigion a graddedigion sy’n ategu’r cymorth bugeiliol a phreswyl sydd wedi’i deilwra i fyfyrwyr a fu mewn gofal.

Estyn yn Rhyngwladol

Cymuned ryngwladol ffyniannus ydym, yn croesawu staff a myfyrwyr o dros 90 o wledydd o bob cwr o'r byd. Cydweithiwn mewn partneriaethau â sefydliadau, busnesau a chyrff addysgol eraill ledled y byd. Mae ein hymchwil yn berthnasol yn fyd-eang, ac i'r nifer cynyddol o fyfyrwyr sy'n dod o dramor i astudio gyda ni, rydym yn neilltuo mwy o adnoddau i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael profiad llwyddiannus yn y Brifysgol. Yn y pen draw, rydym yn creu graddedigion a fydd yn llysgenhadon, yn hyrwyddo Prifysgol Aberystwyth a Chymru.

Cynaliadwyedd

Yng nghanol mis Gorffennaf 2023, cyhoeddwyd ein 'Strategaeth tuag at sero net 2030'. Mae hyn yn nodi ein camau blaenoriaethol a fydd yn helpu i ddatgarboneiddio ein gweithrediadau a gweithio tuag at gyrraedd ystâd Sero Net erbyn 2030. Rydym eisoes yn gwneud cynnydd cryf wrth leihau allyriadau net - mae ein hallyriadau diweddaraf i lawr 22% ers ein blwyddyn sylfaen, 2019/20. Rydym wedi cwblhau nifer o brosiectau datgarboneiddio sylweddol yn ddiweddar, gan gynnwys arae solar 2.5MW, ein prosiect cyntaf i greu coetir ar raddfa fawr (mwy na 16,000 o goed wedi'u plannu hyd yn hyn), goleuadau LED newydd ar gyfer tyfu planhigion, a chyflwyno nifer o geir a faniau trydan newydd yn ein fflyd o gerbydau. Rydym bellach yn gweithio ar nifer ychwanegol o brosiectau datgarboneiddio ar raddfa fawr, gan gynnwys y camau nesaf yn ein cynlluniau i greu coetiroedd/plannu coed a gwaith pellach i sicrhau effeithlonrwydd ynni ar raddfa fawr. Rydym hefyd yn gweithio ar astudiaethau dichonoldeb yn ymwneud â chyfluoedd ynni adnewyddadwy pellach ac opsiynau datgarboneiddio gwres. Rydym hefyd yn datblygu cynllun gweithredu i wella bioamrywiaeth ar gyfer yr ystâd gyfan.

Rydym yn ymroddedig i gyrraedd ystâd garbon-niwtral erbyn 2030 ac yn blaenoriaethu ein cyfrifoldeb i ddiogelu'r amgylchedd rhag effeithiau ei gweithrediadau a'i gweithgareddau. Mae Datganiad Polisi'r Brifysgol ar Gynaliadwyedd yn rhoi braslun o'i hymrwymiad i gynnal ei gweithgareddau mewn modd sy'n gyfrifol o ran yr amgylchedd.

Cyswllt â'r Gymuned

Mae gennym gyswllt cryf â'n cymuned leol trwy ein Canolfan y Celfyddydau a'i rhaglenni diwylliannol bywiog sy'n cynnwys theatr, cerddoriaeth, sinema, arddangosfeydd yn yr orielau, gwyliau ffilm a llenyddiaeth, dosbarthiadau dawnsio, prosiectau'r haf i blant ysgol a dosbarthiadau nos a gweithdai i oedolion. Rydym yn ymfalchïo hefyd yn ein gwaith partneriaethol â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol, ac elusennau, gan gynnwys Elusen y Flwyddyn, a ddewisir gan ein staff a'n myfyrwyr. Rydym yn annog ein staff a'n myfyrwyr i wirfoddoli ac rydym yn falch o'r rhan y mae'r ddau yn ei chwarae mewn gweithgareddau megis cadwraeth ar lan y môr a'r gwaith gyda Brigâd Ambiwlans Sant Ioan. Rydym yn cynnig gwasanaethau i fusnesau rhanbarthol. Rydym yn cefnogi'r ysbyty lleol a rhaglenni iechyd cymunedol, ac yn darparu adnoddau chwaraeon a dosbarthiadau o safon uchel i'r gymuned leol (gan gynnwys dosbarthiadau chwaraeon, clybiau chwaraeon yn ystod y gwyliau, gweithgareddau i hybu iechyd a lles pobl dros eu 50 oed).

Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Yn unol â Siarter Frenhinol Ategol Prifysgol Aberystwyth, fel y'i diwygiwyd yn 2018, Cyngor y Brifysgol yw "corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol" ac mae'n gyfrifol am "benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol, am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, ac am faterion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion".

Yn unol â dogfennau llywodraethol y Brifysgol, mae'r Cyngor yn cynnwys: Aelodau Annibynnol (rhai ohonynt yn gwasanaethu ex-officio); aelodau staff ex-officio; ac aelodau a etholir gan y Senedd, y staff academaidd a'r myfyrwyr. Ni fydd cyfanswm aelodaeth y Cyngor â'r hawl i bleidleisio yn fwy na 18 aelod. Caiff y Cyngor hefyd gyfethol aelodau ychwanegol os dymuna wneud hynny, ar yr amod bod cyfanswm nifer yr aelodau yn cyd-fynd â'r Statud, er nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

Aelodau annibynnol anweithredol yw'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor, nad ydynt yn aelodau o'r staff nac yn fyfyrwyr yn y Brifysgol. Ar ben hynny, mae swyddogaeth Cadeirydd y Cyngor - sydd ar gael i Aelod Annibynnol yn unig - wedi'i gwahanu oddi ar swyddogaeth Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwmo i hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol ac i werthfawrogi natur amrywiol ei staff, ei myfyrwyr a'i chymuned. Hysbyseb pob swydd wag am Aelodau Annibynnol y Cyngor yn allanol, ac mae croeso enwedig pan ddatgenir diddordeb gan bobl o grwpiau a dangynrychiolir. Pan fynegir diddordeb yn un o'r swyddi hyn fe'u hystyrir gan Bwyllgor Enwebiadau a'u pwysu a'u mesur yn ôl aelodaeth bresennol y Cyngor i sicrhau bod gan ei aelodau ystod o sgiliau sy'n bodloni gofynion y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn anelu at ymgymryd â'i gwaith mewn modd moesegol yn unol â'r saith egwyddor a osodwyd yn Adroddiad Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwmo i arddel yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, gan roi ar waith yr egwyddorion craidd a'r saith elfen sylfaenol gysylltiedig o lywodraethu fel y'u gosodwyd yng Nghôd Llywodraethu Addysg Uwch

(Medi 2020) Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion yn ogystal â'r egwyddorion perthnasol a roddir yng Nghôd Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Comisiynwyd adolygiad o effeithiolrwydd y llywodraethu gan y Cyngor yn ystod gwanwyn 2019. Fe'i cynhaliwyd gan AdvanceHE, ac fe gyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r Cyngor ar 28 Mehefin 2019. Mae'r Cyngor yn anelu at wella llywodraethu a pherfformiad y sefydliad yn barhaus. Mae'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad diweddaraf ar effeithiolrwydd y llywodraethu yn cael eu gweithredu o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio. Cynhelir yr adolygiad nesaf ar effeithiolrwydd y llywodraethu yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-24.

Ar 19 Chwefror 2020, cyhoeddwyd adolygiad annibynnol Gillian Camm ar Lywodraethu yng Nghymru ('A review of Governance of the Universities in Wales') ynghyd ag ymateb unfrydol y sector (ar ffurf Siarter Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru a'r cynlluniau Ymrwymiad i Weithredu). Mae'r Brifysgol wedi datblygu ei chynllun gweithredu ei hun mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Camm, ar ben y Siarter a'r cynllun Ymrwymiad i Weithredu a luniwyd gan y sector. Cytunodd y Cyngor ar gynllun gweithredu'r Brifysgol ei hun ar 27 Ebrill 2020, a bydd adroddiadau am y cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r cynllun hwnnw yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ddwywaith y flwyddyn.

Ers Ebrill 2020 gwnaed cynnydd da tuag at weithredu llawer o'r camau y cytunwyd arnynt. Mae'r camau yn cynnwys adolygiad llawn ar y gofrestr risgiau gorfforaethol a chasglu data gan aelodau'r Cyngor ynghylch nodweddion gwarchodig er mwyn hwyluso gweithredu cadarnhaol ar gyfer prosesau denu aelodau newydd o'r Cyngor yn y dyfodol. Cynhaliodd y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio weithdy ym mis Ebrill 2023 i drafod ac ystyried swyddogaeth y Cyngor a sut mae'n goruchwyllo'r diwylliant yn y Brifysgol; a yw'r strwythur a'r prosesau yn ategu llywodraethu da er mwyn i'r diwylliant allu bod yn agored a thryloyw ac i alluogi ymddiriedaeth, yn unol ag argymhelliad 15; ac fe fu trafod ar y diwylliant sefydliadol fel un agwedd ar y perfformiad sefydliadol. Mae rhagor o waith a chamau ar y gweill i ddatblygu a gwella'r gwaith sy'n rhoi sylfaen i'r cynllun gweithredu, ac i sicrhau bod yr argymhellion wedi'u gwreiddio'n llawn yn y strwythur llywodraethu.

Cynhaliwyd proses recriwtio lawn a thrylwyr ar gyfer Cadeirydd newydd y Cyngor yn ystod 2022-23, lle y rhoddwyd prawf ar sgiliau a rhinweddau'r ymgeiswyr gan banel o aelodau annibynnol y Cyngor ac un

aelod allanol ac annibynnol yn unol ag argymhelliad 9. Ymhellach i adolygiad drwy archwiliad mewnol, cynhaliwyd adolygiad sylweddol ar y gofrestr risgiau ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i'w ystyried.

Disgrifir prif gyfrifoldebau'r Cyngor yn Ystatudau ac Ordinadau'r Brifysgol. Yn unol â'r arfer traddodiadol ac â'r Cod Rheoli Ariannol y cytunwyd arno â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl, ymhlith eraill, i gymeradwyo datblygiadau a gwariant ar raddfa fawr, yn ogystal ag arddel y cyfrifoldeb dros sefydlu unrhyw is-gwmnïau a thros eu gweithredoedd.

Cyfarfu'r Cyngor bum gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-23. Ymdrinnir â llawer o'r gwaith manwl cychwynnol gan sawl is-bwyllgor. Mae prif is-bwyllgorau llywodraethu'r Brifysgol yn cynnwys: Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd; Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio; Pwyllgor Taliadau; a Phwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

Mae pob un o'r is-bwyllgorau hyn yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Cyngor, ac mae pob un wedi'i sefydlu'n ffurfiol â'i gylch gorchwyl ei hun a chyfran o'i aelodau yn dod o blith Aelodaeth Annibynnol y Cyngor. Mae gwybodaeth fanwl am aelodaeth a chyfrifoldebau'r is-bwyllgorau hyn i'w chael ar ein gwefan.

Sefydlwyd y Pwyllgor Taliadau i ystyried a phennu materion sy'n ymwneud â thalu Staff Uwch yn y Brifysgol, o fewn fframwaith cyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor. Wrth gytuno i unrhyw newidiadau i'r tâl a roddir i'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellorion ac aelodau eraill a ddiffinnir o'r Staff Uwch, mae'r Pwyllgor Taliadau yn ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn rhoi adroddiadau i'r Cyngor ar ei holl benderfyniadau.

Yn y pen draw, Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am drefniadau rheoli mewnol y Brifysgol ac am arolygu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Bwriad trefniadaeth o'r fath yw rheoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes yn hytrach na chael gwared a'r risg honno, a bydd yn cynnig sicrwydd rhesymol yn unig - nid sicrwydd absoliwt - yn erbyn camddatgan neu golled sylweddol. Gosodwyd gwaged yn y gyllideb i'r flwyddyn a dyna oedd a ragwelwyd yn yr adroddiadau, er bod diffyg masnachu yn y cyfrifon terfynol. Yn sgil hynny, cynhaliwyd adolygiad allanol a nododd welliannau i'r rheolaethau a'r systemau adrodd er mwyn rhwystro hyn rhag digwydd eto.

Mae'r Cyngor yn ymgymryd â phroses barhaus ar gyfer canfod, cloriannu a rheoli risgiau arwyddocaol i'r Brifysgol; ac roedd y broses honno ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023, a hyd

at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynnyddol a'r Datganiadau Ariannol. Mae wedi ei hadolygu gan y corff llywodraethol yn rheolaidd; ac mae'n cydymffurfio â'r canllawiau rheoli mewnol i Gyfarwyddwyr yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd sy'n gyfrifol am y cyfarfod â'r Archwilwyr Allanol i drafod canfyddiadau'r archwiliadau, ac am gwrdd â'r Archwilwyr Mewnol i ystyried adroddiadau manwl ar archwiliadau mewnol ac argymhellion i wella trefniadau rheoli mewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymateb y rheolwyr a'u cynlluniau gweithredu. Mae'r is-bwyllgor hwn hefyd yn monitro sut y glynir wrth y gofynion rheoliadol, ac yn arolygu datganiadau ariannol blynnyddol y Brifysgol ynghyd â'r polisiau cyfrifo. Ar ben hynny, gellid gofyn iddynt archwilio i enghreifftiau lle na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth a rheoliadau eraill. Er bod uwch-swyddogion gweithredol yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ôl yr angen, nid ydynt yn aelodau o'r is-bwyllgor hwnnw, a gall aelodau'r is-bwyllgor gwrdd â'r Archwilwyr ar eu pen eu hunain er mwyn cael trafodaethau annibynnol.

Mae gan Weithrediaeth y Brifysgol brosesau ffurfiol ar waith i gloriannu a rheoli risgiau sylweddol a wynebir. Mae hynny'n cynnwys nodi'r mathau o risgiau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu, gan eu hystyried drwy broses sy'n edrych o'r pen i'r gwaelod ac o'r gwaelod i'r pen, a hynny ar y lefel gorfforaethol ac yn adrannol. Mae'r risgiau yn cael eu blaenoriaethu o ran eu heffaith ddichonol ac o ran pa mor debygol ydynt o ddigwydd yn unol â pholisi rheoli risg a gymeradwywyd. Edrychir ar y risgiau hyn yng ngoleuni Amcanion Strategol y sefydliad, a'u monitro, ynghyd â'r dulliau rheoli cysylltiedig, a'r camau lliniaru risg, ar sail barhaus gan Weithrediaeth y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf o ran risg ym mhob un o'i gyfarfodydd, ac mae'r adroddiadau a'r argymhellion priodol yn cael eu cyflwyno i Gyngor y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol broses ar waith i ymdrin â materion rheoli o bwys sy'n golygu bod Cadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael gwybod am faterion o'r fath yn syth; ac fe roddir gwybod hefyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Comisiwn Elusennau fel y bo'n briodol.

Mae gan y Brifysgol Gynllun Cyhoeddi y cytunwyd arno sy'n pennu'r wybodaeth a fydd yn cael ei darparu gan y sefydliad i'r cyhoedd. Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan. Ar ôl i'r ddogfen hon gael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, fe'u cyhoeddir ar wefan y Brifysgol gyda'r dogfennau sy'n ymwneud â blynnyddoedd academaidd ac ariannol blaenorol.

Grŵp Gweithredol y Brifysgol

Y Weithrediaeth yw uwch dîm rheoli'r Brifysgol ac mae'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiaeth gyffredinol y Brifysgol.



Yr Athro Elizabeth Treasure

Is-Ganghellor

Daeth yr Athro Elizabeth Treasure i Brifysgol Aberystwyth yn Is-Ganghellor ym mis Ebrill 2017. Cyn hynny, roedd yn Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd. A hithau'n un o Is-Lywyddion (Cymru) UUK, mae hi'n aelod o Fwrdd Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau (UCEA). Graddiodd o Brifysgol Birmingham, ac mae hi wedi gweithio i'r GIG mewn swyddogaethau clinigol a rheolaethol, yn ogystal â gweithio ym Mhrifysgol Otago, Seland Newydd. Mae Elizabeth yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru.



Yr Athro Tim Woods

Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr

Ar hyn o bryd, yr Athro Tim Woods sy'n arolygu materion sicrhau ansawdd a materion yn gysylltiedig â myfyrwyr ledled y Brifysgol. Mae'n adolygydd i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, ac fe'i penodwyd gan 'Advance HE' i gadeirio ei Grŵp Cynghori Arbenigol ar Gymrodoriaethau ac Achredu yn 2021. Mae'n cynrychioli Prifysgol Aberystwyth ar nifer o rwydweithiau Prifysgolion Cymru. Mae wedi cymryd rhan ym mhaneli'r Fframweithiau Rhagoriaeth Ymchwil a Dysgu yn y gorffennol, ac ar hyn o bryd mae'n cynrychioli Prifysgolion Cymru ar fwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae'n gadeirydd Pwyllgor Cynghori Strategol ASA Cymru.

Gwasanaethodd yr Athro Tim Woods fel Is-Ganghellor Dros Dro yn ystod unrhyw gyfnodau pan oedd yr Athro Treasure yn absennol.



Yr Athro Colin McInnes

Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth, ac Arloesi

Mae Colin yn gymrawd o Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol, Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Yn ddiweddar, bu'n gweithio gyda Sefydliad lechyd y Byd i ddatblygu ei fframwaith ymgynghorol ar gyfer cydweithredu rhwng cyrff sifiliaidd a milwrol mewn argyfyngau iechyd, ac roedd yn aelod o banel FfRhY2021 ym maes Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol, a hefyd yn aelod o banel ymgynghorol rhyngddisgyblaethol FfRhY2021.



Yr Athro Anwen Jones

Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Yn ogystal â bod yn Ddirprwy Is-Ganghellor, gan yr Athro Anwen Jones mae'r cyfrifoldeb sefydliadol am ddarpariaeth academaidd, ysgolheictod, ac ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag elfennau rhywedd yr agenda Cydraddoldeb ac Amrywioldeb. Mae'n Athro ar Astudiaethau Theatr, ac yn Olygydd ar yr e-gyfnodolyn ysgolheigaidd rhyngddisgyblaethol Cymraeg, Gwerddon, a gyhoeddir gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac mae'n un o ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac un o Gyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg

Yr Athro Qiang Shen

Dirprwy Is-Ganghellor: Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol

Mae'r Athro Qiang Shen yn Gymrawd o Academi Frenhinol Peirianeg ac yn Gymrawd ac yn Aelod o Gyngor Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae wedi gwasanaethu ddwywaith fel aelod o banel y FfRHY ar gyfer Cyfrifiadureg a Gwybodeg, ac mae'n gyn-Bennaeth yr Adran Gyfrifiadureg ac yn Gyfarwyddwr ar yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg.



Yr Athro Neil Glasser

Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Gwyddorau Daeuar a Bywyd

Ar ben ei swydd fel Dirprwy Is-Ganghellor, mae gan yr Athro Glasser gyfrifoldeb am Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant yn ogystal â materion yn ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn y Brifysgol. Mae'n gyn Ysgolhaig Nodedig Fulbright yn y Ganolfan Data Eira ac Iâ Cenedlaethol yn Boulder, Colorado, ac mae'n aelod o Goleg Adolygiadau Cyd-academyddion NERC ac yn olygydd *Journal of Glaciology*.



Mr Nicholas Rogers

Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

Ymunodd Nick â Phrifysgol Aberystwyth i gymryd awenau swydd Cyfarwyddwr y Strategaeth Newid ym mis Ionawr 2018. Mae ganddo bron i 20 mlynedd o brofiad ar lefel Cyfarwyddwr ym maes adnoddau dynol yn y sector Addysg Uwch, gan gynnwys cyfnodau fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol mewn tair prifysgol ym Mhrydain (Prifysgol Napier, Caeredin; Prifysgol Kingston, Llundain; Prifysgol y Celfyddydau, Llundain) a Phrifysgol James Cook yn Awstralia. Cyn gweithio ym maes Addysg Uwch gweithiodd Nick mewn dwy o adrannau Llywodraeth y DU.

Cymerodd Nicholas Rogers gyfrifoldeb dros yr Ystadau, Preswylfeydd a Chyfleusterau, a'r Gwasanaethau Corfforaethol ar ôl i Stephen Forster adael, gan ddod yn aelod o'r Grŵp Gweithredol ar 1 Ionawr 2023.



Stephen Forster

Cyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol

Ymunodd Stephen Forster â'r Brifysgol yn 2018. Ar hyn o bryd mae ei swydd yn cynnwys yr oruchwyliaeth strategol a'r cyfrifoldeb am Gyllid a Chaffael, Cynllunio a Rheoli Risg, Ystadau, Adnoddau a Llety, a Gwasanaethau Masnachol. Bu'n gweithio gynt i gwmni PricewaterhouseCoopers LLP (PwC) lle bu'n gweithio mewn Cyllid, Rheoli Risg ac Yswiriant, Rheoli Contractau Cyflenwyr ac Ymgynghori ar Reoli Mewnol. Mae'n gymrawd o'r Gymdeithas Siartredig Cyfrifon Ardystiedig (FCCA).

Gadawodd Stephen Forster y Brifysgol ar 31 Rhagfyr 2022. Ysgwyddodd Mark Godsell, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, yr holl gyfrifoldebau Cyllid o'r dyddiad hwnnw ar sail dros dro.



Dr Rhodri Llwyd Morgan

Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol

Mae Dr Rhodri Llwyd Morgan yn arwain ar faterion y Gymraeg, cysylltiadau allanol, ac ar brosiect yr Hen Goleg. Cyn ymuno â'r Brifysgol bu'n gweithio i BBC Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'n Gadeirydd Bwrdd y darparwr addysg a gofal blynyddoedd cynnar cyfrwng Gymraeg, y Mudiad Meithrin, ac wedi bod yn aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.



Adroddiadau blynyddol pwyllgorau'r Cyngor

Y PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022-23, aelodau'r Pwyllgor hwn oedd:

Enw	Categori	Presenoldeb
Mark Tweed (Cadeirydd)	Cadeirydd	3/4
Sharron Lusher	Aelod Annibynnol	2/4
Arwel Thomas	Aelod Annibynnol	4/4
Charu Miani	Aelod Annibynnol	1/4
Rachel Barwise	Aelod o blith y Myfyrwyr	3/4

Yn unol â'r hyn a ganiateir gan baragraff 122 o God Rheoli Ariannol y Cyngor Cyllido, gwasanaethodd Arwel Thomas yn Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. Cytunwyd ar yr egwyddor honno gan y Cyngor ar 10 Gorffennaf 2020 ar y sail bod yr angen cynyddol i ganolbwyntio ar hyfywedd ariannol yn y sector yn golygu ei bod hi'n hanfodol cael cynrychiolaeth ar draws y pwyllgorau fel y gallai'r aelod glywed yn uniongyrchol gan yr archwilyr yn Archwilio, Risg a Sicrwydd, a chyfleu'r wybodaeth fel y bo'n briodol i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

Roedd cynrychiolwyr o archwilyr allanol a mewnol y Brifysgol yn bresennol yn y Cyngor yn ystod y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2022-23, yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Ysgrifennydd y Brifysgol, a'r Is-Ganghellor.

Swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yw cynghori a chynorthwyo'r corff llywodraethu ynglŷn â phob agwedd ar faterion sicrwydd a rheolaeth y Brifysgol. Mae'n atebol i'r Cyngor, ac mae ei brif ddyletswyddau yn cynnwys:

- Profi effeithlonrwydd trefniadau'r sefydliad o ran rheoli risg, diwylliant, rheolaeth a llywodraethu, a'r dulliau rheoli a'r gweithdrefnau mewnol i hybu gweithio'n ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol, a chynghori'r Cyngor ar yr holl faterion hyn;
- Goruchwyllo'r trefniadau'r archwilio allanol a mewnol, gan gynnwys cynghori'r corff llywodraethu ynglŷn â phenodi darparwyr archwiliadau, a goruchwyllo natur a chwmpas yr archwiliadau allanol a mewnol ac effeithiolrwydd y prosesau archwilio; a
- Goruchwyllo'r agweddau archwiliadol ar ddatganiadau ariannol y sefydliad, gan gynnwys barn yr archwilyr allanol a mewnol, y datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau, y datganiad o reolaeth fewnol, ac unrhyw fater perthnasol a godir yn llythyr rheoli'r archwilyr allanol.

Yn ystod 2022-2023, canolbwyntiodd y Pwyllgor i raddau helaeth ar graffu ar faterion allweddol a chynghori'r Cyngor ar y materion hynny fel y bo'n briodol. Lle'r oedd yn briodol, gwnaed penderfyniadau hefyd gan y Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl. Roedd y busnes a ystyriwyd yn ystod 2022-23 yn cynnwys:

- canlyniad yr Arolwg Allanol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022, a'r camau a gymerwyd gan Weithrediaeth y Brifysgol i ymateb i unrhyw argymhellion a godwyd gan yr Archwilyr Allanol;
- ailbenodi'r Archwilyr Allanol yn ffurfiol o 1 Awst 2023;
- Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilyr Mewnol;
- y Cynllun Archwilio Mewnol i'r blynyddoedd academiaidd 2022-23, 2023-24 a 2024-25 a'r adroddiadau Archwilio Mewnol cysylltiedig. Yn ystod 2022-23, cafwyd adroddiadau Archwilio Mewnol ar: Gwaith cynnal a chadw ataliol cynlluniedig a mân waith Ystadau; Rheoli risg - aeddfedu; Llety Myfyrwyr (Cod yr UUK); strategaeth Cymru Wrth-Hiliol; Data Ariannu Addysg Uwch, Denu Myfyrwyr; TRAC; a'r gwaith dilyniannol blynyddol ar yr argymhellion a godwyd yn y blynyddoedd blaenorol;
- y cynnydd a wnaed gan Weithrediaeth y Brifysgol wrth weithredu argymhellion a godwyd fel rhan o adroddiadau Archwilio Mewnol dros y blynyddoedd diwethaf;
- trefniadau rheoli risg yn y sefydliad, gan gynnwys adolygiad ar y Polisi Rheoli Risg, a'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg, ac adolygiad llawn ar y gofrestr risg gorfforaethol.

Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU A CHYDYMFFURFIO

Dyma aelodau'r Pwyllgor i'r flwyddyn academaidd 2022-23:

Enw	Categori	Presenoldeb
Meri Huws (Cadeirydd)	Aelod Annibynnol	3/3
Melanie Hamer	Aelod Annibynnol	2/3
Matthew Norman	Aelod Annibynnol	3/3
Jane Usherwood	Aelod Annibynnol	3/3
Claire Vaughan	Aelod Annibynnol	2/3
Nicola Wood	Aelod Annibynnol	2/3
Yr Athro Elizabeth Treasure	Is-Ganghellor	2/3
Jackie Sayce	Aelod o'r Staff Anacademaidd	3/3
Dafi Jones	Aelod o blith y Myfyrwyr	3/3
Dr Louise Marshall	Aelod o'r Senedd	3/3

Roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, ac Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn bresennol, lle'r oedd y presenoldeb hwnnw yn briodol yn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor.

Craffu yw swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ac mae'n cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n cynnwys llywodraethu sefydliadol; llywodraethu gwybodaeth; adnoddau dynol a datblygu staff; cydraddoldeb ac amrywioldeb; iechyd a diogelwch; y Gymraeg; a chydymffurfio â deddfwriaeth, a gofynion cyffredinol y llywodraeth, y Cyngor Cyllido, a rheoleiddwyr eraill.

Yn ystod 2022-23, cafodd yr aelodau dogfennau ar faterion allweddol, gan eu hystyried a chynghori'r Cyngor arnynt fel y bo'n briodol, gan gynnwys:

- yr Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch;
- y Datganiad Blynyddol ar Gyflogau;
- Enwebiadau am Raddau er Anrhydedd;
- Datgeliad Caethwasiaeth Fodern 2022-23;

- Adroddiad Blynyddol rhaglen 'Prevent';
- yr Adroddiad Blynyddol ar Ryddid i Lefaru;
- Cytundeb Perthynas ag Undeb Myfyrwyr Aberystwyth;
- Adroddiad Blynyddol y Brifysgol;
- yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a Bwlch Tâl rhwng y Rhywiau 2022.

Y PWYLLGOR TALIADAU

Dyma aelodau'r Pwyllgor i'r flwyddyn academaidd 2022-23:

Enw	Categori	Presenoldeb
Meri Huws (Cadeirydd)	Aelod Annibynnol	1/1
Dr Emyr Roberts	Cadeirydd y Cyngor	1/1
Claire Vaughan	Aelod Annibynnol	1/1
Ellen ap Gwynn	Aelod Annibynnol	1/1
Yr Athro Elizabeth Treasure	Is-Ganghellor	1/1
Aisleen Sturrock	Aelod o blith y Myfyrwyr	1/1
Yr Athro Reyer Zwiggelaar	Aelod o'r Senedd	1/1

Roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Ysgrifennydd y Brifysgol, a'r Is-Ganghellor hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd yn 2022-23. Ni chymerodd yr Is-Ganghellor na'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ran mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â'u cyflogau eu hunain, ac nid yw cyflog Ysgrifennydd y Brifysgol yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn ystyried a phenderfynu ar faterion sy'n ymwneud â thalu uwch staff y Brifysgol, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn annibynnol a chymwys ac mae'n cael comisiynu arbenigedd annibynnol allanol os oes angen.

Yn 2022-2023 cytunodd y Pwyllgor Taliadau ar gynnydd cynyddrannol i'r staff uwch. Ystyriodd y Pwyllgor faterion cyflog rhwng y rhywiau ar lefel y staff uwch hefyd.

Cyflwynir adroddiad llawnach ar weithgareddau'r Pwyllgor Taliadau yn 2022-23 mewn manau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol, yn unol â gofynion y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC) yng Nghod Taliadau Staff Uwch Addysg Uwch (Mehefin 2018).

Y PWYLLGOR ADNODDAU A PHERFFORMIAD

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23, cyfarfu'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad chwe gwaith; roedd dau gyfarfod yn gyfarfodydd arbennig am yr Hen Goleg. Dyma aelodau'r Pwyllgor i'r flwyddyn academaidd 2022-23:

Enw	Categori	Presenoldeb
Kate Eden (Cadeirydd)*	Aelod Annibynnol	2/6
Dr Emyr Roberts (Cadeirydd)	Cadeirydd y Cyngor	6/6
Ellen ap Gwynn	Aelod Annibynnol	6/6
Rhuanedd Richards	Aelod Annibynnol	5/6
Arwel Thomas	Aelod Annibynnol	6/6
Dr William Williams	Aelod Annibynnol	5/6
Yr Athro Elizabeth Treasure	Is-Ganghellor	6/6
Tom Bates	Aelod o'r Staff Anacademaidd	6/6
Aisleen Sturrock	Aelod o blith y Myfyrwyr	4/6
Yr Athro Reyer Zwigelaar	Aelod o'r Senedd	4/6

*Camodd Kate Eden yn ôl o'i rôl ar y Cyngor, a'i chadeiryddiaeth ar y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, rhwng Medi 2022 ac Ebrill 2023. Gwnaeth Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor, gadeirio pedwar cyfarfod yn ei habsenoldeb.

Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, ac Ysgrifennydd y Brifysgol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor lle'r oedd hynny'n briodol.

Craffu yw swyddogaeth y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformio, ac mae'n cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n cynnwys rheolaeth a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad; denu a chofrestru myfyrwyr, gan gynnwys gweithgarwch rhyngwladol; cynhyrchu incwm; ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi; yr ystadau a'r amgylchedd.

Yn ystod 2022-23, canolbwyntiodd y Pwyllgor i raddau helaeth ar graffu ar faterion allweddol a chynghori'r Cyngor ar y materion hynny fel y bo'n briodol, gan gynnwys:

- yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022, a datganiadau blynyddol cysylltiedig ar gynaliadwyedd i'r Cyngor Cyllido;
- datblygu cyllideb y sefydliad am 2027-28, a'r rhagolygon ariannol am y blynyddoedd hyd at 2025-26;

- cyflawni prosiectau mawr o fewn yr amserlenni a'r cyllidebau y cytunwyd arnynt, gan ganolbwyntio'n benodol ar brosiect adnewyddu'r Hen Goleg;
- cyflwr presennol ystadau'r Brifysgol, datblygu Strategaeth Ystadau newydd, a chynigion i waredu asedau tir ac adeiladu sy'n cael eu hystyried y bernir nad oes eu hangen ar y sefydliad;
- perfformiad y sefydliad o'i gymharu â'i Strategaeth Rheoli Carbon, cynigion i ddiwygio'r Strategaeth hwnnw, a chynlluniau i wella'r cynaliadwyedd amgylcheddol;
- perfformiad Cynllun Pensiwn a Sicrwydd Prifysgol Aberystwyth, y strategaeth fuddsoddi gysylltiedig, a chyfamodau'r Brifysgol fel cyflogwr;
- ystyried a chymeradwyo argymhellion ar gyfer ffoedd dysgu heb eu rheoleiddio ar gyfer 2023-24 a 2024-25.

Y SENEDD

Dyma aelodau'r Senedd i'r flwyddyn academaidd 2022-23:

Enw	Categori	Presenoldeb
Yr Athro Elizabeth Treasure (Cadeirydd)	Is-Ganghellor	4/5
Yr Athro Neil Glasser	Dirprwy Is-Ganghellor	3/5
Yr Athro Anwen Jones	Dirprwy Is-Ganghellor	3/5
Yr Athro Qiang Shen	Dirprwy Is-Ganghellor	5/5
Yr Athro Colin McInnes	Dirprwy Is-Ganghellor	4/5
Yr Athro Tim Woods	Dirprwy Is-Ganghellor	5/5
Mr Jonathan Fry	Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	5/5
Yr Athro Reyer Zwigelaar	Pennaeth Ysgol y Graddedigion	5/5
Dr Samuel Raybone	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Yr Athro Hazel Davey	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Yr Athro Iain Donnison	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Dr Otar Akanyeti	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Dr Lucy Trotter	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Dr Alex Mangold	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Dr Sarah Davies	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Yr Athro Phillipp Schofield	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Aloysius Igboekwu	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Patrick Finney	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Jen Phipps	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Alex Pitchford	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Heather Norris	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Ffion Jones	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Yr Athro Mererid Hopwood	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Yr Athro Eleri Pryse	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Dr Louise Marshall	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Sarah Higgins	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Aisleen Sturrock	Aelod o blith y Myfyrwyr	4/5
Dafi Jones	Aelod o blith y Myfyrwyr	5/5
Elizabeth Manners	Aelod o blith y Myfyrwyr	4/5
Tom Bates	Aelod o'r Staff Anacademaidd	4/5
Jackie Sayce	Aelod o'r Staff Anacademaidd	2/5

Gwahoddwyd y Cofrestrwydd Academaidd, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, ac Ysgrifennydd y Brifysgol i'r holl gyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2022-23, yn ogystal â phenaethiaid yr holl adrannau academaidd nad oeddent wedi'u hethol i gynrychioli eu hadrannau ar y Senedd.

Y Senedd yw awdurdod academaidd y Brifysgol, ac mae'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn ag ansawdd academaidd y dysgu a'r ymchwil, yn rheoli a chymeradwyo'r portffolio academaidd, ac yn rheoli gwaith rheoleiddio buddiannau academaidd y sefydliad.

Yn ystod 2022-23, cynhaliodd y Senedd adolygiad ar Siarter y Myfyrwyr, ac ar amryw o reoliadau a gweithdrefnau academaidd, gan gymeradwyo newidiadau iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys newidiadau i'r rheoliadau a'r mesurau cysylltiedig mewn ymateb i weithredu diwydiannol.

Bu'r Senedd hefyd yn craffu ar benderfyniadau perthnasol i'w cymryd gan y corff llywodraethu a chynghori'r Cyngor arnynt, gan gynnwys y Datganiadau Sicrhau Ansawdd blynyddol, i'w cyflwyno i'r Cyngor Cyllido.

GWEITHREDIAETH Y BRIFYSGOL

Dyma aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol i'r flwyddyn academaidd 2022-23:

Enw	Categori	Presenoldeb
Yr Athro Elizabeth Treasure (Cadeirydd)	Is-Ganghellor	19/23
Stephen Forster (tan fis Rhagfyr 2022)	Cyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol	8/8
Mark Godsell (o fis Ionawr 2023)	Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro	13/15
Yr Athro Neil Glasser	Dirprwy Is-Ganghellor	20/23
Yr Athro Anwen Jones	Dirprwy Is-Ganghellor	21/23
Yr Athro Colin McInnes	Dirprwy Is-Ganghellor	21/23
Dr Rhodri Llwyd Morgan	Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol	22/23
Yr Athro Qiang Shen	Dirprwy Is-Ganghellor	21/23
Yr Athro Tim Woods	Dirprwy Is-Ganghellor	20/23
Nicholas Rogers	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ¹	13/15

¹ Gyda chyfrifoldeb dros dro am Gyfleusterau, Ystadau a Phreswylfeydd a Gwasanaethau Masnachol o fis Ionawr 2023

Roedd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, ac Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd Gweithrediaeth y Brifysgol a gynhaliwyd yn ystod 2022-23; sylwer bod Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol wedi dod yn aelod cyflawn o'r Weithrediaeth pan ddyrannwyd cyfrifoldebau ychwanegol dros dro ym mis Ionawr 2023. Ymunodd Mark Godsell â'r Weithrediaeth ym mis Ionawr 2023, ar ôl cymryd yr awenau fel y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro ar ôl ymadawiad Stephen Forster.

Ac yntau'n uwch dîm rheoli'r sefydliad, mae Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn cynghori'r Is-Ganghellor yn bennaf; mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r Brifysgol i'r Is-Ganghellor, yn rhinwedd ei swydd fel y prif swyddog academaidd, gweinyddol a chyfrifo.

Bu Gweithrediaeth y Brifysgol felly yn ystyried unrhyw fater y barnwyd ei fod yn briodol i'r canlynol:

- cynghori'r Is-Ganghellor ar faterion y mae ganddi gyfrifoldeb cyffredinol drostynt, lle dymuna'r Is-Ganghellor ymgynghori ag aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol cyn gwneud penderfyniad;

- cynghori aelodau eraill o Weithrediaeth y Brifysgol ar faterion y mae ganddynt gyfrifoldeb dirprwyedig penodol drostynt, lle bo'r aelodau craidd hynny'n dymuno ymgynghori â chydweithwyr cyn gwneud penderfyniad; ac
- ystyried a chynghori'r Is-Ganghellor ar faterion a ddirprwywyd i Grŵp Gweithredol y Brifysgol sy'n ymwneud â Siarter a Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau'r Brifysgol.

Lle bo'n briodol, cyflwynodd y Weithrediaeth argymhellion i'r Cyngor a'i is-bwyllgorau i'w cymeradwyo - ceir braslun o'r materion hyn uchod yn rhan o'r crynodeb o'r materion busnes a ystyrir gan bob pwyllgor.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor o ran yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol cyfun yn unol â gofynion y Telerau a'r Amodau Cyllid a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2022/23 a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a'r gyfraith a'r reoliadau perthnasol.

Mae'n ofynnol paratoi datganiadau ariannol i grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff yn unol â safonau cyfrifeg y DU a'r gyfraith berthnasol (Ymarfer Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys FRS 102 sef y Safon Adrodd Ariannol sydd ar waith yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a gofynion Deddf Elusennau 2011. Ar ben hynny, mae'n ofynnol yn ôl y Telerau a'r Amodau Cyllido fod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â Datganiad 2019 ar Arferion Cymeradwy - Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch, yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2022/23 a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff, ac o'u hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u cholledion, a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff, mae'n ofynnol ar y cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiâu cyfrifeg addas a'u gweithredu'n gyson;
- gwneud asesiadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllgor;
- datgan a yw safonau cyfrifeg perthnasol y DU a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy wedi'u dilyn, a datgelu unrhyw wahaniaethau o sylwedd yn y drefn, a'u hegluro yn y datganiadau ariannol;
- asesu a yw Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff yn gallu parhau ar sail busnes parhaus, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, unrhyw faterion sy'n

berthnasol i'r gallu hwnnw; a

- defnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus oni bai ei bod hi'n fwriad ganddo ddirwyn Grŵp y Brifysgol neu'r rhiant-gorff i ben neu atal eu gweithredoedd, neu os nad oes ganddo ddewis amgen realistig heblaw gwneud hynny.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg digonol sy'n ddigon manwl i ddangos ac esbonio trafodion rhiant-gorff y Brifysgol, ac sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol rhiant-gorff y Brifysgol. Mae'n gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb gamddatganiad o sylwedd, boed hynny'n deillio o dwyll neu o amryfusedd. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd unrhyw gamau sydd yn rhesymol o fewn ei allu i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu arferion afreolaidd eraill.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau:

- bod y cronfeydd o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'i ddefnyddio yn briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- bod incwm, lle y bo'n briodol, wedi'i gymhwyso yn unol â pharagraff 145 o God Rheoli Ariannol CCAUC;
- bod grantiau Cyngorau Cyllido wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt ac fe'u defnyddiwyd at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau a'r Amodau Cyllido;
- bod rheoliadau ariannol a rheoli addas mewn grym i ddiogelu cyllid cyhoeddus yn ogystal â chyllid a ddaw o ffynonellau eraill; a
- bod adnoddau a gwariant y Brifysgol yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol, ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

YMDDIRIEDOLWYR Y BRIFYSGOL

Dyma Ymddiriedolwyr y Brifysgol i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023, a hyd at gyfarfod y Cyngor lle y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn yn ffurfiol:

Aelodau Annibynnolo

Ex-officio

Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (5/5)

Meri Huws - Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (5/5)

Penodwyd

Ms Kate Eden (3/4)

Yr Athro Simon Green (5/5)

Ms Sharron Lusher (hyd at 30 Mehefin 2023) (3/4)

Ms Rhuanedd Richards (4/5)

Mr Arwel Thomas (5/5) Mr Mark Tweed (4/5)

Ms Claire Vaughan (5/5)

Dr William Williams (tan 31 Gorffennaf 2023) (4/5)

Ms Nicola Wood (tan 31 Awst 2023) (5/5)

Ms Ellen ap Gwynn (penodwyd o 5 Hydref 2023)

Ms Jane Usherwood (penodwyd o 5 Hydref 2023)

Aelodau Staff / Myfyriwr

Ex-officio

Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (5/5)

Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (5/5)

Aelodau o'r Senedd

Dr Louise Marshall (5/5)

Yr Athro Reyer Zwiggelaar (5/5)

Aelodau o'r Staff Anacademaidd

Mr Dafï Jones, Llywydd UMCA (hyd at 30 Mehefin 2023) (3/4)

Ms Elaine Gwynedd (o 1 Gorffennaf 2023) (1/1)

Ms Ash Sturrock, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (hyd at 30 Mehefin 2023) (4/4)

Mr Bayanda Vundamina (o 1 Gorffennaf 2023) (1/1)

Rhoddir gwybodaeth am bresenoldeb aelodau'r Cyngor a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023, wedi'i rhoi ar ffurf y nifer o gyfarfodydd y Cyngor yr aethpwyd iddynt allan o'r cyfanswm o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynd iddynt.

Ymgynghorwyr proffesiynol

Archwilwyr allanol ac ymgynghorwyr ar dreth gorfforaethol

KPMG LLP

3 Assembly Square
Britannia Quay
Caerdydd
CF10 4AX

Archwilwyr mewnol

TIAA Ltd

Artillery House
Fort Fareham
Newgate Lane
Fareham
PO14 1AH

Bancwyr

Banc Barclays

26 Ffordd y Môr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2AE

Cyfreithwyr

Shakespeare Martineau

No 1 Colmore Square
Birmingham
B4 6AA

Prif Swyddfa

Prifysgol Aberystwyth

Y Ganolfan Ddelweddu
Penglais Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BF

Adroddiad Yr Archwilydd Annibynnol i Gyngor Prifysgol Aberystwyth

ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD I'R DATGANIAD ARIANNOL

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Aberystwyth ("y Brifysgol") i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr, y Fantolen Gyfun a Mantolen y Brifysgol, y Datganiad o Newidiadau Cyfun a Datganiad Newidiadau'r Brifysgol yn yr Arian Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian Cyfun, a'r Datganiad o'r Prif Bolisiâu Cyfrifeg a'r nodiadau perthnasol.

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2023 ac o incwm a gwariant y Grŵp a'r Brifysgol, a'u henillion a'u cholledion, a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn ac o lif arian y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifeg y DU, gan gynnwys FRS 102 sef y Safon Adrodd Ariannol sydd ar waith yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, ac â Datganiad 2019 ar Arferion Cymeradwy - Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail y farn

Fe'n penodwyd yn archwilydd yn ôl Siarteri ac Ystatudau'r sefydliad ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn cyflwyno ein hadroddiad yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Cynaliadwy ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi bodloni ein cyfrifoldebau moesegol yn ôl y gofynion moesegol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom i'r archwiliad yn sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

Busnes parhaus

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus gan nad yw'n fwiad ganddo ddirwyn y Grŵp na'r Brifysgol i ben nac atal eu gweithredoedd, ac yntau wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw elfennau sylweddol o ansicrwydd a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar y gallu i barhau ar sail busnes parhaus am flwyddyn o leiaf ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod busnes parhaus").

Wrth inni bwyso a mesur casgliadau'r Cyngor, ystyriasom y risgiau ymhlyg ym model busnes y Grŵp, a buom yn dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu ar eu gallu i barhau â'u gweithrediadau dros gyfnod y busnes parhaus.

Dyma ein casgliadau ar sail y gwaith hwnnw:

- rydym o'r farn bod y sail busnes parhaus a ddefnyddir gan y Cyngor yn y cyfrifon, wrth baratoi'r datganiadau ariannol, yn briodol;
- ni ddaethom o hyd i unrhyw ansicrwydd o sylwedd o ran unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau a allai fod, yn unigol neu gyda'i gilydd, wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau ar sail busnes parhaus am y cyfnod busnes parhaus, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor nad oes ansicrwydd o'r fath.

Serch hynny, gan na allwn ragweld digwyddiadau nac amgylchiadau'r dyfodol a chan y gallai digwyddiadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg pan y'u gwnaed, nid yw'r casgliadau uchod yn rhoi gwarant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau - y gallu i ddarganfod achosion o'r fath

Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatgan o sylwedd oherwydd twyll

Er mwyn dod o hyd i risgiau camddatgan o sylwedd sy'n deillio o dwyll ("risgiau twyll") gwnaethom asesu digwyddiadau neu amgylchiadau a allai ddangos bod cymhelliad neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd y camau a gymerasom i asesu'r risg yn cynnwys:

- Gofyn i'r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r archwiliad mewnol ynghylch polisiâu a gweithdrefnau'r Grŵp, ar y lefel uchel, i ddod o hyd i dwyll ac i'w atal, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, yn ogystal â gofyn a oes ganddo unrhyw wybodaeth am dwyll gwirioneddol, neu amheuaeth neu honiadau am dwyll. Roedd hyn yn cynnwys cael dealltwriaeth am drefn y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", a darllen unrhyw adroddiadau perthnasol am dwyll gwirioneddol, neu amheuaeth neu honiadau am dwyll, gan gynnwys asesiad o effeithiau unrhyw ganfyddiadau ar ein harchwiliad.
- Darllen cofnodion y Cyngor, a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansodol, gan gynnwys dadansoddi gwybodaeth ariannol fewnol ac adroddiadau mewnol, i ddod o hyd i unrhyw gysylltiadau neu newidiadau anarferol neu annisgwyl a ddigwyddodd o fewn y cyfnod.
- Ymgynghori â'n gweithwyr ffensiog proffesiynol ein hunain ynghylch y risgiau twyll a nodwyd, a dyluniad y gweithdrefnau archwilio a gynlluniwyd mewn ymateb i'r rhain. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth rhwng y partner cyswllt, y rheolwr cyswllt a'r gweithiwr ffensiog.

Gwnaethom gyfleu'r risgiau twyll a nodwyd i'r tîm archwilio i gyd, gan aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll yn ystod yr archwiliad.

Yn unol â gofynion y safonau archwilio, rydym yn cymryd camau i ymdrin â'r risg y bydd y rheolwyr yn diystyru'r rheolau, a'r risg y cofnodir refeniw yn dwyllodrus, yn benodol:

- y risg na fydd incwm ymchwil yn cael ei gofnodi yn unol â thelerau ac amodau perthnasol y grantiau dan sylw; ac
- y risg y gallai rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifo amhriodol.

Fe wnaethom hefyd nodi risg o dwyll yn ymwneud ag adroddiadau ariannol amhriodol mewn ymateb i bwysau i gyrraedd targedau ariannol, a'n gwybodaeth gyffredinol am yr amgylchedd rheoli.

Roedd y camau a gymerasom yn cynnwys:

- Nodi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill er mwyn gwneud profion ar sail y meini prawf risg, gan gymharu'r cofnodion a nodwyd â'r ddogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion mewn dyddlyfrau refeniw a bostiwyd i gyfuniadau anarferol o gyfrifon, cofnodion mewn dyddlyfrau gyda disgrifiad yn cynnwys geiriau penodol, a cofnodion mewn dyddlyfrau a bostiwyd ar gyfnodau penodol o fewn y flwyddyn, a gymeradwywyd gan uwch staff cyllid ac a gynyddodd y gwaged.
- Ar gyfer detholiad o'r incwm ymchwil a gofnodwyd yn y cyfnod, gwirio a yw'r incwm a gofnodwyd yn briodol ar sail y cytundeb grant gwaelodol a'r gwariant ymchwil cyfatebol.

Nodi risgiau camddatgan o sylwedd oherwydd diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, ac ymateb i'r risgiau hynny.

Nodasom feysydd yn y cyfreithiau a'r rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddant yn cael effaith o sylwedd ar y datganiadau ariannol drwy ein profiad cyffredinol ym myd masnach ac yn y sector, a thrwy drafod â'r Cyngor a rheolwyr eraill (yn unol â gofynion y safonau archwilio) gan drafod â'r Cyngor a rheolwyr eraill y polisiâu a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Gwnaethom gyfleu i'r tîm cyfan y cyfreithiau a'r rheoliadau a nodwyd, gan aros yn effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio drwy gydol yr archwiliad.

Mae effeithiau posib y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau ar adroddiadau ariannol (gan gynnwys y ddeddfwriaeth gysylltiedig ar elusennau a'r ddeddfwriaeth ar addysg uwch, gan gynnwys y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)), y ddeddfwriaeth dreth a'r ddeddfwriaeth ar bensiynau, ac fe wnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, yn rhan o'n gweithdrefnau ar yr eitemau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle y gallai peidio â chydymffurfio gael effaith o sylwedd ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy osod dirwyon neu ddwyn achos cyfreithiol neu drwy angen cynnwys darpariaethau o sylwedd. Gwnaethom nodi'r meysydd isod fel y rhai mwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfio â gofynion rheoleiddio addysg uwch CCAUC, yn cydnabod natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Grŵp. Mae'r safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio sy'n ofynnol er mwyn nodi diffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, sef eu cyfyngu i holi'r cyfarwyddwyr a'r rheolwyr eraill, ac i archwilio'r ohebiaeth reoleiddio a chyfreithiol, os oes rhai. Felly os oes achlysur lle y torrwyd y rheoliadau gweithredol ond nad yw wedi'i ddatgelu i ni, neu os nad yw'n dod i'r amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd yr archwiliad yn darganfod yr achos hwnnw.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ddarganfod twyll neu achlysuron lle y torrwyd y gyfraith neu reoliadau

Oherwydd y cyfyngiadau sy'n gynhenid i archwiliad, mae risg anochel na fyddwn ni wedi darganfod rhai camddatganiadau o sylwedd yn y datganiadau ariannol, er i ni gynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf y bo unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn gwyro oddi wrth y digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, lleiaf tebygol yn y byd yw hi y byddai'r gweithdrefnau - sydd yn eu hanfod yn gyfyngedig - yn eu canfod.

Ar ben hynny, fel pob archwiliad, mae risg uwch na fydd twyll yn cael ei ganfod gan y gallai achosion o dwyll olygu cydgynllwynio, fflugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru'r camau rheoli mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ddarganfod camddatganiadau o sylwedd. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio nac am atal twyll ac ni ellir disgwyl i ni ddarganfod diffygion cydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

Gwybodaeth arall

Y Cyngor (y mae ei aelodau'n Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion y gyfraith elusennau) sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Gyfrifon ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd ar y datganiadau hynny. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall honno ac felly nid ydym yn mynegi barn archwiliadol nac, ac eithrio yn y modd a ddatgenir yn ddiawms isod, unrhyw fath o gasgliad ar sicrwydd y wybodaeth honno.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried ar sail ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol, a yw'r wybodaeth yno wedi'i chamddatgan yn ei sylwedd neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwiliadol. Mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi:

- os, ar sail y gwaith hwnnw yn unig, y daethom o hyd i gamddatganiadau o sylwedd yn y wybodaeth arall; neu
- os yw'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol (sef Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr i'r flwyddyn ariannol), yn ein barn ni, yn anghyson mewn unrhyw agwedd o sylwedd â'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym ddim i'w adrodd o ran y materion hynny.

Materion y mae'n ofynnol arnom roi adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn ôl Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion digonol o gyfrifon; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â chofnodion y cyfrifon; neu
- na chawsom yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen i'n harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd o ran y materion hynny.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel yr esbonnir yn llawnach yn ei ddatganiad a roddir ar dudalen 57, y Cyngor sy'n gyfrifol am: paratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg; y rheolaeth fewnol sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol heb gamddatganiad o sylwedd, boed hynny'n deillio o dwyll neu o amryfusedd; pwyso a mesur gallu'r Grŵp a riant-gorff y Brifysgol i barhau ar sail busnes parhaus, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes parhaus; a defnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus oni bai ei bod hi'n fwriad ganddo ddirwyn y Grŵp neu riant-gorff y Brifysgol i ben neu atal eu gweithredoedd; neu os nad oes ganddo ddewis amgen realistig heblaw gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys camddatganiadau materol, boed hynny'n deillio o dwyll neu drwy amryfusedd, ac i gyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Lefel uchel o sicrwydd yw 'sicrwydd rhesymol', ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o sylwedd pan fo un i'w gael. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu amryfusedd ac fe'u gwelir yn gamddatganiadau o sylwedd os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol y byddent yn dylanwadu ar benderfyniadau ariannol defnyddwyr a fyddai'n cael eu cymryd ar sail y datganiadau ariannol.

Ceir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

ADRODDIAD AR OFYNIION CYFREITHIOL A RHEOLIADOL ERAILL

Mae'n ofynnol inni roi adroddiad ar y materion isod yn unol â'r hyn a bennir yng Nghod Ymarfer Archwilio CCAUC (a ddaeth i rym 1 Awst 2017) a gyhoeddwyd yn ôl Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac yn y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2022/23 a gyhoeddwyd gan CCAUC ("y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon").

Yn ein barn ni, ym mhob agwedd o sylwedd:

- mae'r cronfeydd o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'i ddefnyddio yn briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- mae'r incwm, lle y bo'n briodol, wedi'i gymhwysu yn unol â pharagraff 145 o God Rheoli Ariannol CCAUC;
- mae grantiau'r Cynghorau Cyllido wedi cael eu cymhwysu yn unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt ac fe'u defnyddiwyd at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys Telerau ac Amodau Cyllido 2022/23; ac
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC wedi eu bodloni.

DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY MAE GENNYM GYFRIFOLDEBAU

Adroddiad i'r Cyngor yn unig yw hwn yn unol ag Adran 4 o Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud er mwyn datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol arnom eu datgan iddo mewn adroddiad archwilio, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac arddel cyfrifoldeb i neb ond y Brifysgol a'i Chyngor am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, a'r casgliadau yr ydym wedi eu gwneud.

Rees Batley

Rees Batley

ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Cyfrifwyr Siartredig

Mae KPMG LLP yn gymwys i weithredu yn archwilydd yn nhermau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006 66 Queen Square

Bryste

BS1 4BE

31 Ionawr 2024

Datganiadau Ariannol i'r Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023

DATGANIAD O'R PRIF BOLISIÂU CYFRIFEG

1. SAIL Y PARATOI

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP): Cyfrifon ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019; y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC; a'r Safonau Adrodd Ariannol (FRS102).

Sefydliad er y budd cyhoeddus yw'r Brifysgol ac felly mae wedi cymhwyso gofyniad y budd cyhoeddus yn FRS102. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â chonfensiwn y gost wreiddiol, ac eithrio'r eiddo buddsoddi a rhwymedigaethau'r pensiynau buddiannau diffiniedig sy'n cael eu dal ar eu gwerth teg.

Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Datganiad o Lif Arian Parod y grŵp yn unig yn unol â'r hyn a ganiateir gan yr eithriad ar ddatgan sydd i'w gael yn FRS102.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes parhaus.

Busnes Parhaus

Gwnaeth Grŵp Cyfunol Prifysgol Aberystwyth £3.8 miliwn o warged (2021-22 £28.0 miliwn o golled) sydd wedi arwain at £0.10 miliwn o fewnlif net o arian parod (2021-22 £0.82 miliwn o fewnlif). Mae gan y Grŵp hefyd £8.4 miliwn o rwymedigaethau cyfredol net (rhwymedigaeth gyfredol net 2021-22 £6.1 miliwn) ac £98.1 miliwn o asedau net (2021-22 £89.0 miliwn), y mae £64.1 miliwn (2021-22 £58.1 miliwn) ohonynt yn gronfeydd digyfngiad. O fewn yr asedau cyfredol net y mae arian parod ac arian cyfatebol, sef £8.2 miliwn (£8.1 miliwn yn 2021-22) sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y Grŵp i dalu am ei rwymedigaethau parhaol ac i gefnogi Rhaglen Gyfalaf y Grŵp.

Mae'r rhagolygon ariannol, gan gynnwys y rhagamcanion o'r llif arian parod a'r dadansoddiad o sensitifrwydd, wedi'u paratoi i'r Grŵp yn cwmpasu cyfnod yr asesiad ar sail busnes parhaus, sef 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Yn ôl y rhagolygon hynny, ar ôl cynnal profion straen a dadansoddiad sensitifrwydd yn ymwneud â ffioedd dysgu, incwm ymchwil, chwyddiant a chynnydd mewn cyfraddau llog, y bydd y Grŵp yn dal i allu cyflawni ei rwymedigaethau ariannol a chydymffurfio â'i gyfamodau benthycwyr yn ystod y cyfnod asesu busnes parhaus.

Mae'r Grŵp yn cadw'r gallu i ohirio cynlluniau buddsoddi cyfalaf, lle nad yw wedi ymrwymo iddynt, er mwyn cadw gweddill digonol o arian parod ac arian wrth gefn i dalu am rwymedigaethau fel y byddant yn ddyledus. Er mwyn cynorthwyo â'r llif arian parod, mae gan Brifysgol Aberystwyth adnodd credyd cylchdroi, sydd wedi'i adnewyddu, gwerth £15 miliwn, ar 18 mis Ionawr 2024. Mae'r adnodd credyd hwnnw ar gael hyd at 18 mis Ionawr 2027, ac fe fydd opsiwn ar gael i'w adnewyddu am 12 mis arall. Yn rhan o adnewyddu'r adnodd hwnnw, mae'r Brifysgol wedi cytuno ar gyfamodau sydd wedi'u diweddarau ac mae'n cynnal rhagfynegiadau er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r cyfamod diwygiedig drwy gydol y cyfnod busnes parhaus, hyd yn oed wrth ystyried y profion straen a'r dadansoddi sensitifrwydd.

2. SAIL CYFUNO'R CYFRIFON

Mae'r datganiadau ariannol cyfun hyn yn cynnwys y Brifysgol, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (CAMA) (is-gwmni), Aber Trading Cyf (is-gwmni), ac Ymgynghori Busnes Aber Cyf (is-gwmni) am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2023. Mae canlyniadau'r is-gwmni yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfun o incwm a gwariant. Mae trafodion o fewn y grŵp yn cael eu dileu wrth gyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfun yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr gan nad yw'r Brifysgol yn dwyn rheolaeth na dylanwad llywodraethol ar ei phenderfyniadau polisi. Defnyddir y dull ecwiti ar gyfer cyfrifon cwmniau cysylltiedig a mentrau ar y cyd.

DATGANIAD O'R PRIF BOLISIÂU CYFRIFEG

3. COFNODI INCWM

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gofnodi ar y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau wedi'u darparu i'r cwsmer allanol neu pan fo telerau'r contract wedi'u cyflawni.

Mae incwm o ffioedd yn cael ei ddatgan gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt ac yn cael ei roi ar y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio. Os yw maint y ffi ddysgu wedi'i leihau, drwy ddisgownt am dalu'n brydlon neu'n ddisgownt a warentir i bob myfyriwr, mae'r incwm derbyniadwy yn cael ei ddangos wedi tynnu'r disgownt. Mae bwrsariaethau ac ysgoloriaethau nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu cyfrif gros o fewn gwariant a heb eu tynnu o incwm.

Mae'r cronfeydd sy'n cael eu derbyn a'u dosbarthu gan y Brifysgol fel asiant sy'n talu ar ran corff cyllido yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol os nad yw'r Brifysgol yn agored ond i'r mymryn lleiaf o risg, neu os nad yw'n cael ond y mymryn lleiaf o fudd economaidd mewn cysylltiad â'r trafodyn ariannol.

Cyllid Grantiau

Mae grantiau refeniwr Llywodraeth, gan gynnwys grantiau bloc a grantiau ymchwil y cyngorau cyllid yn cael eu cofnodi mewn incwm dros y cyfnodau pan fydd y Brifysgol yn cofnodi'r costau cysylltiedig y rhoddwyd y grant amdanynt. Os yw rhan o grant y llywodraeth wedi'i gohirio, fe'i cofnodir fel incwm gohiriedig o fewn y credydwyr a'i dyrannu rhwng y credydwyr sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn a'r credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn fel y bo'n briodol.

Mae grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) a ddaw o ffynonellau anllwydraethol yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r incwm hwnnw, a phan fo'r amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni. Mae'r incwm a gafwyd cyn y bodlonir yr amodau sy'n ymwneud â pherfformiad yn cael ei gofnodi fel incwm gohiriedig ar y fantolen, ac yn cael ei ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

Grantiau cyfalaf

Cofnodir grantiau cyfalaf y llywodraeth yn yr incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Mae grantiau cyfalaf eraill yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd, yn amodol ar yr angen i fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Rhoddion a gwaddolion

Mae rhoddion a gwaddolion ac arnynt gyfyngiadau a osodwyd gan y rhoddwr yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cronfeydd. Cedwir incwm o waddolion cyfyngedig o fewn cronfa'r gwaddolion nes y bydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r cyfyngiadau penodol, ac ar yr adeg honno fe ryddheir yr incwm i'r arian cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad arian wrth gefn. Mae incwm o waddolion digyfngiad yn cael ei gofnodi yn y cyfnod pan y'i derbynir.

Cedwir rhoddion cyfyngedig o fewn y cronfeydd cyfyngedig nes y byddant yn cael eu defnyddio yn unol â'r cyfyngiadau, ac ar yr adeg honno fe ryddheir yr incwm i'r arian cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad arian wrth gefn. Mae rhoddion heb gyfyngiadau arnynt yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd.

Cofnodir incwm o fuddsoddiadau ac arbrizio gwaddolion yn yr incwm i'r flwyddyn pan fydd yn codi, naill ai fel incwm cyfyngedig neu ddigyfyngiad. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar y telerau a'r cyfyngiadau a osodir ar y gronfa waddol unigol.

Pedwar prif fath o roddion a gwaddolion a gofnodir yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid defnyddio'r rhodd at ryw fwriad penodol.
2. Gwaddolion parhaol digyfngiad - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu llif incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion treuliadwy cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol ac eithrio prynu neu adeiladu asedau cyffyrddadwy sefydlog, ac mae gan y Brifysgol yr hawl i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu llif incwm i'w defnyddio at ryw fwriad penodol.

4. CYFRIFO BUDDIANNAU YMDDEOL

Dyma’r pedwar prif gynllun pensiwn yn y Brifysgol:

- Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), sef cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig;
- Cynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth (CPPA), sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig;
- Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA), sef Cynllun Buddiannau Diffiniedig sydd wedi’i gau rhag cyfraniadau gan weithwyr yn y dyfodol; a
- Chronfa Pensiwn Dyfed (CPD), sef Cynllun Buddiannau Diffiniedig sydd wedi’i gau rhag cyfraniadau gan weithwyr yn y dyfodol.

Cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig

Mae cynlluniau Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig yn cael eu prisio bob yn dair blynedd gan actiwarïaid annibynnol a chanddynt gymwysterau proffesiynol. Os nad yw’r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran hi o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ar sail gyson a rhesymol oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, cyfrifir am y cynllun fel cynllun buddiannau ymddeol â chyfraniadau diffiniedig. Cofnodir rhwymedigaeth o fewn y darpariaethau am unrhyw ymrwymiad contractiol i ariannu unrhyw ddiffygion o’r gorffennol o fewn y cynllun.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae’r Brifysgol yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol, na thrwy ddehongliad, arni i dalu mwy. Mae rhwymedigaethau am gyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y datganiad o incwm yn y cyfnodau pan fo’r staff yn cyflawni eu dyletswyddau.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig

Mewn cynlluniau buddiannau diffiniedig mae gan y Brifysgol rwymedigaeth i ddarparu’r buddiannau y cytunwyd arnynt i aelodau presennol o staff ac i gyn-weithwyr. Y Brifysgol sy’n ysgwyddo’r risg actiwaraid (sef bod y buddiannau yn costio’n fwy neu’n llai na’r disgwyl) a’r risg fuddsoddol (sef bod yr adenillion ar yr asedau a neilltuir i ariannu’r buddiannau yn wahanol i’r disgwyl).

Mae’r Brifysgol yn cofnodi rhwymedigaeth am ei hymrwymadau yn ôl cynlluniau buddiannau diffiniedig, net o asedau’r cynlluniau. Mae’r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net hon yn cael ei mesur drwy amcangyfrif y cyfanswm o fuddiannau y mae’r staff wedi’u hennill am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol, wedi’i ostwng i bennu’r gwerth presennol, wedi tynnu gwerth teg asedau’r cynllun (yn ôl prisiau cynnig). Gwneir y gwaith cyfrifo gan actwari cymwys gan ddefnyddio’r dull rhagamcanu credyd unedau. Os ased net yw canlyniad y gwaith cyfrifo hwnnw, cyfyngir ar gofnod yr ased hwnnw i’r graddau bod y Brifysgol yn gallu adfer y gweddill naill ai drwy leihau cyfraniadau yn y dyfodol, neu drwy ad-daliadau o’r cynllun. Mae cynlluniau buddiannau diffiniedig yn cael eu prisio bob yn dair blynedd gan actiwarïaid annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol.

5. BUDDIANNAU CYFLOGAETH

Mae buddiannau cyflogaeth yn y tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau y telir amdanynt, yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y flwyddyn pan fydd yr aelodau o staff dan sylw yn cyflawni eu gwasanaeth i’r Brifysgol. Cronnir unrhyw fuddiannau nas defnyddiwyd ac mae gwerth y rhwymedigaeth yn cael ei gofnodi fel y swm ychwanegol y mae’r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i’r hawliau nas defnyddiwyd.

6. PRYDLESAU CYLLID

Diffinnir prydlesau fel prydlesau cyllid lle mae’r Brifysgol yn arddel sylwedd yr holl risgiau a’r buddiannau sy’n cyd-fynd â pherchnogaeth yr ased a brydlesir. Mae asedau ar brydles a gafwyd drwy brydlesau cyllid a’r rhwymedigaethau prydles cyfatebol yn cael eu cofnodi ar y dechrau am swm sy’n cyfateb naill ai i’w gwerth teg neu werth presennol y taliadau prydles isafsymol, p’un bynnag fo’r isaf, ar ddechrau’r brydles.

Mae’r taliadau prydles isafsymol yn cael eu rhannu rhwng y costau cyllid a lleihad y rhwymedigaeth sy’n weddill.

Mae cost y cyllid yn cael ei dyrannu i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn creu cyfradd llog gyson ar weddill y rhwymedigaeth.

7. PRYDLESAU GWEITHREDU

Cofnodir costau sy’n gysylltiedig â phrydlesau gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw breimymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles.

Mae incwm a gafwyd ynghylch prydlesau gweithredu a roddir yn cael eu cofnodi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw breimymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles

8. ARIAN TRAMOR

Y bunt (sterling) yw arian cyfredol gweithredol Grŵp Prifysgol Aberystwyth.

Trosir trafodion a gynhaliwyd mewn gwahanol fathau o arian tramor i’r bunt yn ôl y gyfradd gyfnewid arian tramor sy’n weithredol ar ddyddiad y trafodyn. Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau a gofnodir mewn gwahanol fathau o arian tramor ar ddyddiad y fantolen yn cael eu trosi i’r arian cyfredol yn ôl y gyfradd gyfnewid arian tramor sy’n weithredol ar y dyddiad hwnnw. Mae gwahaniaethau cyfraddau newid arian tramor sy’n codi wrth drosi i’r arian cyfredol yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

Mae asedau a rhwymedigaethau gweithrediadau tramor yn cael eu trosi i’r bunt yn ôl y cyfraddau cyfnewid arian tramor sy’n weithredol ar ddyddiad y fantolen. Mae refeniwiau a threuliau gweithrediadau tramor yn cael eu trosi ar gyfradd gyfartaleddol i’r flwyddyn lle mae’r gyfradd honno’n debyg i’r cyfraddau cyfnewid arian tramor a fu ar waith ar ddyddiadau’r trafodion. Mae gwahaniaethau cyfraddau newid sy’n codi wrth drosi gweithrediadau tramor fel hyn yn cael eu cofnodi o dan llog a chostau cyllid eraill.

9. ASEDAU SEFYDLOG

Mae asedau sefydlog yn cael eu cyfalafu yn ôl eu cost dybiedig pan fyddant yn cael eu cofnodi am y tro cyntaf. Ar ôl y cofnod cyntaf, mae asedau sefydlog yn cael eu mesur wedi hynny yn ôl y gost dybiedig wedi tynnu’r colledion dibrisio cronedig a’r colledion colli gwerth cronedig. Mae rhai eitemau o asedau sefydlog a ailbrisiwyd i werth teg ar ddyddiad y trosglwyddiad i SORP Addysg Uwch 2015, neu cyn y dyddiad hwnnw, wedi’u mesur ar sail y gost dybiedig, sef y gwerth ailbrisiu a bennwyd ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw.

Os bydd oes ddefnyddiol wahanol gan wahanol rannau o ased sefydlog, cyfrifir amdanynt fel eitemau o asedau sefydlog ar wahân. Mae dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddillion yn cael eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

Ar bob dyddiad adrodd fe gynhelir adolygiad ar gyfer dangosyddion posib o golli gwerth. Os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau’n dangos ei bod hi’n bosib na ellir adennill swm cario’r eiddo, y cyfarpar a’r offer, fe gyfrifir yr effaith a bydd y gwerthoedd a gollir yn cael eu cofnodi ar yr ased ac yn y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr.

Tir ac adeiladau

Ailbrisiwyd eiddo rhydd-ddaliad, ac eithrio Neuaddau Llety ac adeiladau eraill sy’n gysylltiedig â masnachu, ar sail gwerth adnewyddu ar ôl dibrisiant ar 31 Gorffennaf 2014. Mae’r asedau hyn yn parhau yn ôl prisiad 2014. Mae ychwanegiadau eraill yn cael eu dal yn ôl y gost.

Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig, yn unol â’u rhannau cyfansoddol, sef:

Tymor hir e.e. sylfeini ac adeiladwaith	40 i 60 o flynyddoedd
Tymor Canolig e.e. gwasanaethau	10 i 30 o flynyddoedd
Tymor Byr e.e. gosodiadau mewnol	5 i 10 o flynyddoedd

Mae costau sy’n codi mewn cyswllt â thir ac adeiladau, ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu ar y cyntaf, yn cael eu cyfalafu i’r graddau eu bod yn cynyddu’r budd disgwyliedig i’r Brifysgol yn y dyfodol. Ni ddibrisir asedau tra byddant yn cael eu hadeiladu.

Nid yw tir ar rydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio gan yr ystyrir bod iddo oes ddefnyddiol am gyfnod amhenodol. Mae tir ar brydles yn cael ei ddibrisio dros gyfnod y brydles

Offer a Pheiriannau

Y mae gwariant ar offer sy’n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol yn cael ei ddileu yn y flwyddyn pan y’u prynwyd. Mae’r offer eraill yn cael eu cyfalafu.

Cofnodwyd offer a gyfalafwyd yn ôl ei gost a’i ddibrisio, drwy’r dull llinell syth, dros gyfnod disgwyliedig ei ddefnyddioldeb, sef pum mlynedd, heblaw am offer a gafwyd ar gyfer prosiectau ymchwil penodol sy’n cael ei ddibrisio dros gyfnod y prosiect (sef tair blynedd fel arfer).

Asedau treftadaeth

Paentiadau, gweithiau celfyddydol a darnau o waith seramig ym meddiant y Brifysgol yw asedau treftadaeth. Maent yn cael eu dal a’u cynnal yn bennaf oherwydd eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Mae’r eitemau hynny y pennwyd eu gwerth dros £10,000 wedi’u cyfalafu a’u cofnodi yn ôl y gost neu eu gwerth caffael, lle y bo modd cael amcan rhesymol o’r gost neu’r gwerth. Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod eu bywyd economaidd hir a’u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai sylwedd i unrhyw ddibrisio o’r fath.

Mae unrhyw gostau sy’n codi o waith adfer neu gadwriaethol i’r asedau hyn yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fo’r costau hynny’n codi.

10. EIDDO BUDDSODDI

Ystyr eiddo buddsoddi yw tir ac adeiladau a ddelir er mwyn cael incwm o’u llogi neu er mwyn arbrasio cyfalaf, yn wahanol i’r eiddo a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau.

Mesurir eiddo buddsoddi yn ôl y gost ar y cychwyn, ac wedyn yn ôl eu gwerth teg, ac fe’u hystyried bob blwyddyn, gydag unrhyw newidiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

11. BUDDSODDIADAU ERAILL

Mae buddsoddiadau a restrir yn cael eu prisio yn ôl eu gwerth teg ar y farchnad ac mae enillion a cholledion yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Mae buddsoddiadau asedau anghyfredol yn cael eu cofnodi ar y Fantolen yn ôl eu cost wedi’u hamorteiddio, wedi tynnu unrhyw addasiadau am golli gwerth.

Mae buddsoddiadau mewn endidau a gyd-reolir, cwmnïau cysylltiedig ac is-gwmnïau yn cael eu cofnodi yn ôl y gost wedi tynnu addasiadau am golli gwerth yng nghyfrifon y Brifysgol.

Delir buddsoddiadau asedau cyfredol yn ôl eu gwerth teg, ac mae unrhyw newidiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

12. STOC

Prisiwyd stoc yn ôl y gost neu’r gwerth gwireddadwy net, p’un bynnag fo’r isaf.

13. ARIAN PAROD AC ARIAN CYFATEBOL

Mae Arian Parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuron sydd i’w had-dalu ar gais, a gorgodiadau. Cyfrifir bod adneuron i’w had-dalu ar gais os ydynt ar gael i bob pwrpas o fewn 24 awr heb gosb ariannol.

Mae arian cyfatebol yn fuddsoddiadau byrdymor a hylifol iawn y gellir yn hawdd eu trosi’n symiau hysbys o arian parod, heb risg sylweddol o newid yn eu gwerth.

14. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDAU AMODOL

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan:

- (i) fo gan y Brifysgol ymrwymiad (cyfreithiol neu ddeongliadol) yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
- (ii) fo’n debygol y bydd angen gwario buddiannau economaidd er mwyn bodloni’r ymrwymiad hwnnw; a phan
- (iii) fo modd gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad.

Mae’r maint a gofnodir yn ddarpariaeth yn cael ei bennu drwy dynnu’r llif disgwyliedig o arian parod yn y dyfodol, ar gyfradd, cyn tynnu treth, sy’n adlewyrchu’r risgiau sy’n berthnasol i’r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaethau amodol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy’n gosod ymrwymiad tebygol ar y Brifysgol ac ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai ei bod hi’n annhebyg y bydd angen i adnoddau fynd allan, neu ei bod hi’n amhosib mesur maint yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Mae ased amodol yn codi lle mae digwyddiad yn golygu ei bod hi’n bosib y bydd gan y Brifysgol ased ond ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol yn cael eu cofnodi ar y Fantolen, ond fe’u datgenir yn y nodiadau.

15. TRETH

Mae’r Brifysgol yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Felly mae’n elusen yn unol â’r ystyr ym Mharagraff 1 o atodlen 6 o Ddeddf Cyllid 2010 ac felly mae gan y Brifysgol botensial i gael ei heithrio rhag talu treth ar incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn y categorïau sy’n cael eu cwmpasu gan adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010 (CTA 2010) neu adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Taladwy 1992 i’r graddau bod yr incwm neu’r enillion dan sylw wedi eu defnyddio at ddibenion cwbl elusenol.

Mae is-gwmnïau’r Brifysgol yn talu Treth Gorfforaethol yn union fel unrhyw gorff masnachol arall.

Byddai treth ohiriedig yn cael ei darparu’n llawn ar wahaniaethau amseru sy’n golygu bod rhwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen i dalu mwy o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth, ar ddyddiad yn y dyfodol.

Mae prif gylchoedd gweithredu’r Brifysgol yn cael eu hesgusodi rhag Treth ar Werth (TAW), ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn talu TAW ar wahanol gyfraddau. Mae gwariant yn cynnwys Treth ar Werth anadferadwy a godwyd gan gyflenwyr i’r Brifysgol.

16. ARIAN WRTH GEFN

Mae arian wrth gefn wedi’i bennu naill ai’n gyfyngedig neu’n ddigyfyngiad. Mae gwaddolion cyfyngedig wrth gefn yn cynnwys gweddillion a ddelir, drwy eu gwaddoli i’r Brifysgol, mewn cronfeydd sydd wedi’u cyfyngu yn barhaol ac y mae’n rhaid i’r Brifysgol eu dal am byth.

Mae arian cyfyngedig arall wrth gefn yn cynnwys gweddillion lle y mae’r rhoddwr wedi pennu amcan penodol iddynt ac felly dim ond at ddibenion cyfyngedig y mae’r Brifysgol yn cael defnyddio’r cronfeydd hynny.

17. OFFERYNNAU ARIANNOL SYLFAENOL

Dyledwyr / credydwyr masnach ac arall

Mae dyledwyr a chredydwyr nad oes ganddynt gyfradd log ddatganedig neu sy'n daladwy o fewn un flwyddyn yn cael eu cofnodi yn ôl pris y trafodyn. Cofnodir unrhyw golledion sy'n deillio o golli gwerth yn y datganiad o incwm cynhwysfawr o fewn y costau gweithredu eraill

Rhwymedigaethau ariannol hirdymor

Mae rhwymedigaethau ariannol hirdymor yn cael eu dosbarthu yn ôl sylwedd goblygiadau contractiol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol. Mae'r holl fenthyciadau a ddelir gan y Grŵp yn cael eu dosbarthu fel offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â gofynion FRS 102, ac yn cael eu dal yn ôl eu cost wedi'u hamorteiddio. Nid yw benthyciadau a buddsoddiadau sy'n daladwy neu'n ddyledus o fewn un flwyddyn yn cael eu disgowntio.

Cafwyd y llety myfyrwyr, Fferm Penglais, drwy ddefnyddio cyllid oddi wrth Legal & General (L&G) a Balfour Beatty. Mae'r adeilad wedi'i gofnodi yn ôl y gost. Mae'r cyllid a ddarparwyd gan L&G a Balfour Beatty wedi'i gofnodi o dan gredydwyr hirdymor ar sail y gyfradd log ymhyg yn y trefniadau.

18. AMCANGYFRIFON AC ASESIAU ALLWEDDOL

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol y Sefydliad mae angen gwneud asesiadau, amcangyfrifon, a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar sut mae'r polisiâu cyfrifo yn cael eu cymhwyso ac ar y meintiau o asedau a rhwymedigaethau, incwm, a threuliau a gofnodir yn yr adroddiad. Mae'r asesiadau, yr amcangyfrifon, a'r rhagdybiaethau cysylltiedig hyn wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau'r dyfodol y credir eu bod yn rhesymol dan yr amgylchiadau. Yn ei hanfod, prin y bydd yr amcangyfrifon cyfrifo sy'n deillio o hynny yr un peth â'r canlyniadau gwirioneddol.

(i) Goblygiadau buddiannau ymddeol

Amcangyfrif - CPAPA

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, sef Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA), sydd yn gynllun buddiannau diffiniedig. Cynhelir prisiad actiwaraidd ar y cynllun yn unol â phenderfyniad yr ymddiriedolwyr ar gyfnodau heb fod yn hwy na thair blynedd. Asesir costau pensiwn o dan FRS 102 yn unol â chyngor actiwarïau annibynnol ar sail y prisiadau actiwaraidd diweddaraf a'r rhagdybiaethau a bennir gan yr actiwarïau. Mae'r rhagdybiaethau wedi'u seilio ar wybodaeth a roddwyd i'r actiwarïaid gan y Brifysgol, a ategir gan drafodaethau rhwng y actiwari a'r rheolwyr lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r rhagdybiaethau wedi'u cofnodi yn Nodyn 29.

Amcangyfrif - USS

Gan fod y Brifysgol yn rhwym gan contract i wneud taliadau adfer diffygion i USS, cofnodir hyn fel rhwymedigaeth yn y fantolen. Mae'r ddarpariaeth ar hyn o bryd wedi'i seilio ar gynllun adfer diffygion USS y cytunwyd arno ar ôl prisiad actiwaraidd 2020, sy'n diffinio'r taliad sydd ei angen am y diffyg fel canran o gyflogau yn y dyfodol. Bydd y cyfraniadau yn cael eu hailasesu mewn pob prisiad teirblynnyddol ar y cynllun. Mae'r ddarpariaeth wedi'i seilio ar amcangyfrif y rheolwyr o gynydd cyflogau yn y dyfodol, newidiadau yn nifer y staff a'r gyfradd ddisgowntio ar y pryd. Ceir mwy o fanylion yn Nodyn 29.

Asesiad - USS

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae cynllun grŵp yn gasgliad o endidau o dan reolaeth gyffredin, fel rheol ag un cyflogwr noddi. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin ac sydd (fel rheol) yn gynllun ar draws y diwydiant, fel Cynllun Pensiwn y Prifysgolion.

Mae cyfrifo am gynllun aml-gyflogwr, lle mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i gytundeb â'r cynllun sy'n penderfynu sut y bydd y cyflogwr yn ariannu diffyg, yn golygu cofnodi rhwymedigaeth am y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r diffyg) a'r gost sy'n deillio o hynny mewn elw neu golled yn unol ag adran 28 o FRS 102. Mae'r cyfarwyddwyr wedi'u bodloni bod Cynllun Pensiwn y Prifysgolion yn cyd-fynd â'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr ac felly mae'r sefydliad wedi cofnodi gwerth teg disgowntedig y cyfraniadau contractiol o dan y cynllun adfer sydd ar waith ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.


DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O INCWM CYNHWYSFAWR i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023

	Nodiadau	2023		2022	
		Cyfun £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfun £'000	Y Brifysgol £'000
INCWM					
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	1	57,095	57,095	54,236	54,236
Grantiau cyrrff cyllido	2	18,571	18,571	19,106	19,106
Grantiau a chontractau ymchwil	3	22,230	22,230	17,449	17,449
Incwm arall	4	30,101	28,120	31,315	27,642
Incwm o fuddsoddiadau	5	730	730	337	337
Rhoddion a gwaddolion	6	4,044	4,044	1,080	1,080
Cyfanswm yr incwm		132,771	130,790	123,523	119,850
GWARIANT					
Costau staff	7	73,034	72,470	70,448	69,913
Costau staff - cynnydd/(gostyngiad) ym mhensiwn yr USS	7	(4,249)	(4,249)	27,752	27,752
Costau ailstrwythuro sylfaenol	7	395	395	133	133
Treuliau gweithredu eraill	9	40,617	40,727	34,791	33,299
Dibrisiant	10/11	14,250	12,631	13,389	11,795
Llog a chostau cyllid eraill	8/9	5,819	5,819	4,212	4,212
Cyfanswm y gwariant		129,866	127,793	150,725	147,104
Gwarged/(diffyg) cyn enillion/colledion eraill, a'i rhan hi o'r gwarged/diffyg gweithredol mewn mentrau ar y cyd a chysylltiedig.		2,905	2,997	(27,202)	(27,254)
Enillion/(colled) ar ôl gwerthu asedau sefydlog		77	77	110	110
Enillion o ailbriso	12	1,866	1,866	-	-
(Colledion) / enillion o fuddsoddiadau		(1,036)	(1,036)	(919)	(919)
Gwarged / (diffyg) cyn treth		3,812	3,904	(28,011)	(28,063)
Treth		11	-	(11)	-
Gwarged / (diffyg) ar ôl treth		3,823	3,904	(28,022)	(28,063)
Incwm cynhwysfawr arall					
(Colledion)/enillion actiwaraidd o ran y cynlluniau pensiwn	29	5,289	5,289	17,059	17,059
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr/(y golled gynhwysfawr) am y flwyddyn		9,112	9,193	(10,963)	(11,004)
Cynrychiolir gan:					
Incwm cynhwysfawr o waddolion am y flwyddyn	21	3,269	3,269	(675)	(675)
Incwm / (gwariant) cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn	22	(10)	(10)	432	432
Incwm cynhwysfawr digyfngiad am y flwyddyn		5,853	5,934	(10,720)	(10,761)
		9,112	9,193	(10,963)	(11,004)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a briodolir i					
Cyfran anreolaethol		(16)	-	(13)	-
Y Brifysgol		9,128	9,193	(10,950)	(11,004)
		9,112	9,193	(10,963)	(11,004)
Gwarged / (diffyg) ar ôl treth y gellir ei briodoli i					
Cyfran anreolaethol		(16)	-	(13)	-
Y Brifysgol		3,839	3,904	(28,009)	(28,063)
		3,823	3,904	(28,022)	(28,063)

MANTOLEN GYFUN A MANTOLEN Y BRIFYSGOL
ar 31 Gorffennaf 2023

	Nodiadau	2023		2022	
		Cyfun	Y Brifysgol	Cyfun	Y Brifysgol
		£'000	£'000	£'000	£'000
ASEDAU ANGHYFREDOL					
Asedau sefydlog	10	250,279	223,722	250,176	222,339
Asedau treftadaeth	11	1,898	1,898	1,898	1,898
Eiddo buddsoddi	12	6,941	6,941	5,155	5,155
Buddsoddiadau	14	31,952	31,952	31,971	31,971
		291,070	264,513	289,200	261,363
ASEDAU CYFREDOL					
Stoc	15	2,392	2,392	2,189	2,189
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	16	23,550	23,872	19,803	19,409
Buddsoddiadau	17	1,396	1,396	2,389	2,389
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	23	8,208	8,121	8,111	7,853
		35,546	35,781	32,492	31,840
Tynnu: Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	18	43,965	42,492	38,577	37,901
(Rhwymedigaethau)/asedau cyfredol net		(8,419)	(6,711)	(6,085)	(6,061)
Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol		282,651	257,802	283,115	255,302
Credydwy: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	19	133,719	108,780	131,596	103,760
DARPARIAETHAU					
Darpariaethau pensiynau	20	49,945	49,945	61,657	61,657
Darpariaethau eraill	20	889	889	889	889
Cyfanswm asedau net		98,098	98,188	88,973	88,995
ARIAN CYFYNGEDIG WRTH GEFN					
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - arian wrth gefn o waddoliadau	21	33,540	33,540	30,271	30,271
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - arian cyfyngedig wrth gefn	22	570	570	580	580
ARIAN DIGYFYNGIAD WRTH GEFN					
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - digyfyngiad		64,005	64,078	58,135	58,144
Cyfran anreolaethol		(17)	-	(13)	-
Cyfanswm arian wrth gefn		98,098	98,188	88,973	88,995

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor y Brifysgol ar 19 mis Ionawr 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



Meri Huws,
Cadeirydd y Cyngor



Yr Athro Jon Timmis,
Is-Ganghellor

DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O NEWIDIADAU YN YR
ARIAN WRTH GEFN i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023

CYFUN	Cyfrif incwm a gwariant			Cyfanswm yn cynnwys cyfran anreolaethol	Cyfran anreolaethol	Cyfanswm
	Gwaddolion £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	£'000	£'000	£'000
	Gweddill ar 1 Awst 2022	30,271	580	58,136	88,987	(13)
Addasiad agoriadol	-	-	-	-	12	12
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm cynhwysfawr	3,269	(10)	5,869	9,128	(16)	9,112
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	3,269	(10)	5,869	9,128	(16)	9,112
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2023	33,540	570	64,005	98,115	(17)	98,098

Y BRIFYSGOL	Cyfrif incwm a gwariant			Cyfanswm yn cynnwys cyfran anreolaethol	Cyfran anreolaethol	Cyfanswm
	Gwaddolion £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	£'000	£'000	£'000
	Gweddill ar 1 Awst 2022	30,271	580	58,144	88,995	-
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm a gwariant	3,269	(10)	5,934	9,193	-	9,193
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	3,269	(10)	5,934	9,193	-	9,193
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2023	33,540	570	64,078	98,188	-	98,188

DATGANIAD CYFUN O'R LLIF ARIAN PAROD
i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023

	Nodiadau	2023	2022
		£'000	£'000
Llif arian parod o weithgareddau gweithredol			
Gwarged am y flwyddyn		3,823	(28,022)
Addasiad am eitemau heb gynnwys arian parod			
Dibrisiant	9	14,250	13,390
Colli gwerth asedau sefydlog	12	80	-
Colledion / (enillion) o fuddsoddiadau gwaddolion	21	1,036	496
Enillion o fuddsoddiadau eraill		-	423
Enillion o ailbriso		(1,866)	-
(Cynnydd) / gostyngiad mewn stoc	15	(203)	(505)
(Cynnydd) / gostyngiad mewn dyledwyr	16	(3,747)	(6,416)
Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr	18/19	(3,835)	3,631
Costau llog pensiynau	8/29	2,018	845
Cyfraniad at bensiynau yn fwy na chost y gwasanaeth cyfredol	29	(4,193)	(2,284)
Newid yn nhybiaethau cynllun lleihau diffyg yr USS	7/29	(4,249)	27,752
(Gostyngiad) / cynnydd mewn darpariaethau eraill	20	-	(924)
Cyfran anreolaethol mewn is-gwmniau	31	16	-
Addasiadau am weithgareddau buddsoddi neu gyllido			
Incwm o fuddsoddiadau	5	(730)	(337)
Llog taladwy arall	8	3,801	3,397
Incwm o waddolion	6/21	(3,663)	(504)
Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog		(77)	(110)
Incwm grantiau cyfalaf		(6,460)	(5,852)
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol		(3,999)	4,980
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Enillion ar ôl gwerthu asedau sefydlog		77	178
Derbyniadau o grantiau cyfalaf		10,858	2,529
Incwm o fuddsoddiadau		730	337
Taliadau a wnaed i brynu asedau sefydlog		(14,354)	(11,423)
Buddsoddiadau asedau anghyfredol newydd		(24)	4,981
		(2,713)	(3,398)
Llif arian parod o weithgareddau cyllido			
Llog a dalwyd		(3,801)	(3,399)
Arian parod a dderbyniwyd o waddolion		3,663	504
Benthyciadau heb sicrwydd		6,947	2,134
		6,809	(761)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod ac arian cyfatebol yn y flwyddyn		97	821
Arian parod ac arian cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn	23	8,111	7,290
Arian parod ac arian cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn	23	8,208	8,111

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023

	Nodiadau	2023		2022	
		Cyfun £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfun £'000	Y Brifysgol £'000
1 FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG					
Myfyrwyr llawn-amser cartref / yr UE		45,395	45,395	44,027	44,027
Myfyrwyr rhyngwladol llawn-amser		10,436	10,436	9,108	9,108
Myfyrwyr rhan-amser		906	906	930	930
Cyrsiau byr a ffioedd eraill		358	358	171	171
		57,095	57,095	54,236	54,236
2 GRANTIAU CYRFF CYLLIDO					
Grant adnewyddol					
Cyngor Cyllido Addysg Uwch		14,830	14,830	15,843	15,843
Rhyddhau grantiau cyfalaf CCAUC a ohiriwyd		1,179	1,179	1,078	1,078
Grantiau penodol					
Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru		2,562	2,562	2,185	2,185
		18,571	18,571	19,106	19,106
3 GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL					
Cynghorau ymchwil		8,041	8,041	5,483	5,483
Elusennau ymchwil		955	955	1,159	1,159
Llywodraethau (y DU a thramor)		11,564	11,564	9,356	9,356
Diwydiant a masnach		1,476	1,476	1,281	1,281
Arall		194	194	170	170
		22,230	22,230	17,449	17,449
4 INCWM ARALL					
Llety, arlwy a chynadleddau		11,771	11,771	11,037	11,037
Grantiau refeniw eraill		1,393	456	2,334	348
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd		2,197	2,197	2,925	2,925
Canolfan y Celfyddydau		3,209	3,209	3,038	3,038
Ffermydd		2,258	2,258	1,783	1,783
Rhyddhawyd o grantiau cyfalaf gohiriedig		3,876	2,257	3,669	2,080
Incwm arall		5,397	5,972	6,529	6,431
		30,101	28,120	31,315	27,642
5 INCWM O FUDDSODDIADAU					
Incwm buddsoddi o waddolion		43	43	13	13
Incwm buddsoddi o gronfeydd cyfyngedig wrth gefn		482	482	187	187
Incwm arall o fuddsoddiadau		205	205	137	137
		730	730	337	337

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

	2023		2022		
	Nodiadau	Cyfun £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfun £'000	Y Brifysgol £'000
6 RHODDION A GWADDOLION					
Gwaddolion newydd	21	3,663	3,663	504	504
Rhoddion a chyfyngiadau arnynt	22	355	355	482	482
Rhoddion digyfyngiad		26	26	94	94
		4,044	4,044	1,080	1,080

7 COSTAU STAFF

Cyflogau	59,403	58,969	56,469	56,054	
Costau nawdd cymdeithasol	5,392	5,349	5,046	5,009	
Costau pensiwn yr USS	6,886	6,886	7,769	7,686	
Costau pensiynau eraill	1,353	1,266	1,164	1,164	
	73,034	72,470	70,448	69,913	
Costau staff - Cynnydd / (gostyngiad) ym mhensiwn yr USS	(4,249)	(4,249)	27,752	27,752	
	68,785	68,221	98,200	97,665	
Costau staff - ailstrwythuro	395	395	133	133	
Taliadau i'r Is-Ganghellor					
Cyflog		245		236	
Buddiannau trethadwy ar ffurfiau eraill		22		22	
		267		258	
Cyfraniadau pensiwn i'r USS		15		13	
		282		271	

Mae'r swm a ddangosir fel "Buddiannau trethadwy ar ffurfiau eraill" yn y tabl uchod yn ymwneud â'r llety a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth ym Mhlas Penglais. Nid yw ddarpariaeth y llety ei hun wedi newid.

Ar 21 Medi 2018, cafodd Fframwaith Cydnabyddiaeth Staff Uwch i'r Brifysgol ei gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r fframwaith yn disgrifio sut mae'r sefydliad yn ymdrin â thaliadau'r staff uwch, gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Gellir gweld copi yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/remuneration/>

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo i'r Pwyllgor Taliadau yr awdurdod i gytuno ar faterion sy'n ymwneud â thâl yr Is-Ganghellor. Nid oes cynllun taliadau bonws ar waith, ac nid oes buddiannau eraill yn cael eu darparu ac eithrio'r llety ac aelodaeth o gynllun pensiwn yr USS, fel y gwelir yn y tabl uchod.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchiadau cystadleuol ac mae'n awyddus i ddenu a chadw'r staff gorau posib. Mae angen i'r cyflog hefyd adlewyrchu cymhlethdod rhedeg sefydliad fel Prifysgol Aberystwyth. Mae gennym enw da am ein haddysg, y dysgu a'n hymchwil ac mae'n ddyletswydd ar unrhyw Is-Ganghellor adeiladu ymhellach ar sylfaen y cryfderau presennol hyn. Serch hynny, wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl y staff uwch, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Taliadau ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath, gan gyfeirio at y data meincnodi i brifysgolion tebyg.

O ran taliadau'r Is-Ganghellor, mae'r data meincnodi wedi'i seilio ar Arolwg Blynyddol Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau (UCEA) o Daliadau Staff Uwch ac ar Arolwg Blynyddol Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ar Gyflogau Is-Ganghellorion. Ystyrir bod y cyflog sy'n cael ei dalu'n cyd-fynd â swyddi tebyg mewn sefydliadau eraill sydd o faint a statws tebyg.

Mae pob aelod o'r staff uwch yn y Brifysgol - gan gynnwys yr Is-Ganghellor - yn derbyn yn awtomatig unrhyw ddyfarniadau tâl 'costau byw' sy'n cael eu darparu gan y Brifysgol i'w staff ar y golofn dâl sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

7 COSTAU STAFF (parhad)

Mae'n ofynnol hefyd i'r Is-Ganghellor gymryd rhan yn y broses arfarnu yn y sefydliad, sef y Cynllun Cyfraniad Effeithiol, lle mae amcanion penodol yn cael eu gosod bob blwyddyn a'u hadolygu'n barhaus. Cynhelir yr arfarniad blynyddol hwn gan Gadeirydd y Cyngor, ac mae'r broses yn rhoi ystyriaeth i ba mor dda mae'r sefydliad yn ei grynsyth yn gwneud yn ôl y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor er mwyn monitro'r targedau yn ngoleuni cynnydd y sefydliad tuag at gyflawni ei Gynllun Strategol. Gellir darllen y Cynllun Strategol yn ei gyfarwydd yma - <https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/strategic-plan/> a gellir darllen cyflawniadau'r Is-Ganghellor a'r Brifysgol yn ehangach yn yr Adolygiad Strategol (tudalennau 16 i 33). Cyflwynir canlyniadau'r arfarnu hwn wedyn i'r Pwyllgor Taliadau ac fe'u defnyddir yn sylfaen i unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Taliadau ynghylch unrhyw newidiadau i'r taliadau i'r Is-Ganghellor.

Mae cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor, wedi'i roi ar ffurf lluosrif cyflog y cyflogaion eraill i gyd, yn 6.75 gwaith (2021-22 6.87 gwaith) yn fwy na chanolrif cyflog y staff, lle y cyfrifir canolrif y cyflog ar sail y cyflogau amser-llawn a delir gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cyfanswm cyflog yr Is-Ganghellor, wedi'i roi ar ffurf lluosrif cyflog y cyflogaion eraill i gyd, yn 7.77 gwaith (2021-22 7.90 gwaith) yn fwy na chanolrif cyflog y staff, lle y cyfrifir canolrif y cyflog ar sail y cyflogau amser-llawn a delir gan y Brifysgol i'w staff.

Dangosir taliadau'r Is-Ganghellor a'r Is-Ganghellor Dros Dro ar yr un sail â'r staff eraill sydd ar daliadau uwch. Telir cyfraniadau'r Brifysgol i'r USS ar yr un raddfa ag a wneir i staff academiaidd eraill.

Mae'r taliadau i'r staff eraill ar gyflogau uwch, ac eithrio'r cyfraniadau i Yswiriant Gwladol a phensiynau a wneir gan y cyflogwr (yn amodol ar gyfarwyddiadau perthnasol ar gyfrifon), wedi'u dangos isod. Dangosir yr holl daliadau cyn tynnu unrhyw symiau 'aberthu cyflog':

	Nifer y staff: 2023	Nifer y staff: 2022
£100,001 to £105,000	1	6
£105,001 to £110,000	5	1
£110,001 to £115,000	1	1
£115,001 to £120,000	2	-
£120,001 to £125,000	-	2
£125,001 to £130,000	1	-
£130,001 to £135,000	-	-
£135,001 to £140,000	1	-
£140,001 to £145,001	-	1
	11	11
Cyfanswm Costau'r Staff ar Daliadau Uwch (dangosir uchod)	1,250	1,221

Nid yw'r costau uchod yn cynnwys costau pensiynau'r Is-Ganghellor na'r cyflogwr. Ond mae'r lwfans a dalwyd am ddyletswyddau'r Is-Ganghellor Dros Dro wedi'i gynnwys am y cyfnod pan oedd yr Is-Ganghellor yn absennol. Cyfanswm y swm a dalwyd am ddyletswyddau'r Is-Ganghellor Dros Dro oedd £20,000 ar gyfer 2022-2023.

CYFARTALEDD NIFEROEDD Y STAFF YN ÔL Y PRIF GATEGORIAU	2023	2022
Academiaidd	412	399
Ymchwil	127	125
Rheoli ac arbenigol	368	354
Technegol	127	132
Arall	403	416
	1,437	1,426

PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

Mae'r personél rheoli allweddol yn ymwneud â'r aelodau hynny sydd ar fridd gweithredol y Brifysgol, sef naw aelod.

	2023	2022
	£'000	£'000
Taliadau i'r personél rheoli allweddol	1,363	1,330

Mae'r costau uchod yn cynnwys costau pensiynau'r Is-Ganghellor a'r cyflogwr

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

7 COSTAU STAFF (parhad)

Aelodau'r Cyngor

Ni chafodd yr un aelod o'r Cyngor daliad gan y Brifysgol am fod yn aelod o'r Cyngor, neu ni dderbyniwyd unrhyw daliad ganddynt am hynny, yn ystod y flwyddyn (2021-22 £dim). Nid yw aelodau staff y brifysgol a benodwyd i'r Cyngor yn derbyn taliad ychwanegol o unrhyw fath yn ymwneud â'u haelodaeth o'r Cyngor.

Ni chafodd yr un o aelodau'r Cyngor unrhyw daliad am wasanaethau eraill a ddarparwyd i'r Brifysgol, heblaw o dan gontract cyflogaeth i'r aelodau o'r Cyngor sydd hefyd yn staff cyflogedig y Brifysgol, yn ystod y flwyddyn (2021-22 £Dim).

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i wyth aelod o'r Cyngor, neu ar eu rhan, oedd £12,000 (2021-22 £2,858 i 11 aelod o'r Cyngor). Talwyd hyn am gostau teithio a chynhaliadaeth yn codi o ganlyniad i'w presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn rhinwedd eu dyletswyddau swyddogol.

	2023		2022	
	Cyfun	Y Brifysgol	Cyfun	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
8 LLOG A CHOSTAU CYLLID ERAILL				
Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn yr USS	1,465	1,465	276	276
Llog ar lety myfyrwyr Fferm Penglais	3,469	3,469	3,274	3,274
Arall	332	332	93	93
Cost net ar gynlluniau pensiwn	553	553	569	569
	5,819	5,819	4,212	4,212

9 DADANSODDIAD O GYFANSWM GWARIANT Y BRIFYSGOL YN ÔL GWEITHGAREDDAU

	Costau staff		Dibrisiant	Costau eraill		Llog taladwy	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	Staff gweithredol	Costau ailstrwythuro		Treuliau gweithredu eraill				
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Adrannau academaidd	30,691	-	1,198	2,848	-	34,737	31,936	
Gwasanaethau Academaidd	6,504	-	67	2,512	2,350	11,433	9,994	
Grantiau a chontractau ymchwil	12,976	-	1,316	7,829	-	22,121	17,387	
Llety, arlwyo a chynadleddau	5,180	-	1,404	6,137	-	12,721	11,736	
Tir ac adeiladau	1,444	-	7,938	6,775	3,469	19,626	17,893	
Gwariant cyffredinol ar addysg	5,328	-	59	3,931	-	9,318	8,016	
Gweinyddu a gwasanaethau canolog	(1,296)	395	320	5,453	-	4,872	38,634	
Cyfleusterau ac adnoddau i'r myfyrwyr a'r staff	2,811	-	36	564	-	3,411	3,345	
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd	1,731	-	11	676	-	2,418	2,605	
Canolfan y Celfyddydau	2,125	-	136	1,677	-	3,938	3,336	
Ffermydd	727	-	146	2,086	-	2,959	2,059	
Taliad i'r archwilydd	-	-	-	239	-	239	129	
Treuliau eraill	-	-	-	-	-	-	34	
	68,221	395	12,631	40,727	5,819	127,793	147,104	

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

9 DADANSODDIAD O GYFANSWM GWARIANT Y BRIFYSGOL YN ÔL GWEITHGAREDDAU (parhad)

	Costau staff		Dibrisiant	Costau eraill		Llog taladwy	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	Staff gweithredol	Costau ailstrwythuro		Treuliau gweithredu eraill				
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Adrannau Academaidd	30,691	-	1,198	2,848	-	34,737	31,936	
Gwasanaethau Academaidd	6,504	-	67	2,512	2,350	11,433	9,994	
Grantiau a chontractau ymchwil	12,976	-	1,316	7,829	-	22,121	17,387	
Llety, arlwyo a chynadleddau	5,180	-	1,404	6,137	-	12,721	11,735	
Tir ac adeiladau	1,444	-	7,938	6,775	3,469	19,626	17,893	
Gwariant cyffredinol ar addysg	5,328	-	59	3,931	-	9,318	8,016	
Gweinyddu a gwasanaethau canolog	(732)	395	1,939	5,315	-	6,917	42,236	
Cyfleusterau ac adnoddau i'r myfyrwyr a'r staff	2,811	-	36	564	-	3,411	3,345	
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd	1,731	-	11	676	-	2,418	2,605	
Canolfan y Celfyddydau	2,125	-	136	1,677	-	3,938	3,337	
Ffermydd	727	-	146	2,086	-	2,959	2,059	
Taliad i'r archwilydd	-	-	-	267	-	267	148	
Treuliau Eraill	-	-	-	-	-	-	34	
	68,785	395	14,250	40,617	5,819	129,866	150,725	

MAE'R TALIAID I'R ARCHWILYDD YN CYNNWYS

	2023		2022	
	Cyfun	Y Brifysgol	Cyfun	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Taliadau i'r archwilydd allanol am wasanaethau archwilio	150	122	98	79
Taliadau i'r archwilydd allanol am wasanaethau heblaw archwilio:				
Pob gwasanaeth yswirio arall	108	108	23	23
Pob gwasanaeth arall heblaw archwilio	9	9	27	27

Diswyddo Gwirfoddol

Mae'r ymrwymiad i ariannu diswyddiadau gwirfoddol sydd yn y costau ailstrwythuro yn ymwneud â threfniadau y cytunwyd arnynt a disgwylir y bydd costau i'w talu ymhen un flwyddyn.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

10 ASEDAU SEFYDLOG

	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliad	Tir ac Adeiladau Prydlesol	Offer a Pheiriannau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
COSTAU A PHRSIO CYFUN					
Ar 1 Awst 2022	275,330	53,156	58,179	12,645	399,310
Ychwanegiadau	1,348	-	3,673	9,327	14,348
Trosglwyddiadau	3,337	-	320	(3,657)	-
Gwaredu/datgydnabod	-	-	(398)	-	(398)
Ar 31 Gorffennaf 2023	280,015	53,156	61,774	18,315	413,260

DIBRSIO CYFUN

